

Adroddiad Blynyddol

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

2022-2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Cyfres o Ddogfennau

Mae Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys cyfres o ddogfennau sy'n disgrifio ein gwaith rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

1. Adroddiad Perfformiad
2. Adroddiad Atebolrwydd
3. Adroddiad Ariannol

Adroddiad Perfformiad

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

2022-2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

CYFLWYNIAD A DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn disgrifio sut y gwnaethom ddarparu gwasanaethau rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae hefyd yn amlinellu sut y gwnaethom sicrhau diogelwch cleifion, rhoddwyr a staff ac yn dangos ein hymrwymiad llwyr i Ansawdd, Gofal a Rhagoriaeth.

Yn ystod 2022/2023 rwy'n falch fod ein cleifion, rhoddwyr a'n teuluoedd wedi parhau i elwa o'r safonau uchaf o ofal, arloesedd a phroffesiynoldeb ar draws yr ystod o wasanaethau rydym yn eu darparu. Llwyddasom i gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau trawsblannu a chyflenwi gwaed a chynhyrchion gwaed i GIG Cymru gyfan wrth hefyd ddarparu gwasanaethau canser trydyddol hanfodol i boblogaeth De Ddwyrain Cymru hefyd. Credwn y bydd y sylfeini cryf a'r modelau gweithredu clinigol yr ydym wedi'u sefydlu yn ein rhoi mewn sefyllfa gref, wrth i ni fynd i mewn i 2023/2024.

Roedd Canllawiau Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru yn gofyn am lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) tair blynedd, yn cwmpasu'r cyfnod 2023/24 - 2025/26. Yn unol â'r canllawiau hyn, gwnaethom gyflwyno ein cynllun i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023. Mae ein cynllun yn datblygu ar y gwaith rhagorol a wneir gan dimau o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth, gan weithio gyda'n partneriaid niferus, i ddatblygu cyfres o flaenoriaethau sefydliadol uchelgeisiol, sy'n datblygu ar ein cryfderau ac a fydd yn golygu bod pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn derbyn gofal, gwasanaeth a chymorth rhagorol. Mae ein cynlluniau wedi'u hamlinellu mewn pedwar maes gwahanol.

Yn gyntaf, mae'r cynllun yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod gennym seiliau cadarn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel sy'n rhoi profiad rhagorol i bob un o'n defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu ein System Rheoli Ansawdd, wedi'i hategu gan allu ac arbenigedd gwell o ran Gwybodaeth Busnes.

Mae'r ail faes yn arwydd o ddatblygiad strategol parhaus yr Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn ein gweld yn archwilio cyfleoedd ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol i nodi meysydd lle gallwn gefnogi ein partneriaid ymhellach i gyflawni canlyniadau a manteision i'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol allweddol ac yn disgrifio'r rhaglenni gwaith yr ydym wedi'u sefydlu i sicrhau y caiff y rhain eu cyflawni.

Yn drydydd, mae'r cynllun yn nodi ein blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â gweithredu modelau gofal a gwasanaethau gwell ar gyfer gwasanaethau gwaed a chanser. Bydd hyn yn golygu bod rhoddwyr a chleifion yn gallu defnyddio gwasanaethau mor agos i'w cartrefi â phosibl, yn gallu derbyn ystod ehangach o wasanaethau gwybodaeth yn ddigidol, a chael mynediad at dreialon a gwasanaethau eraill a ddarperir gan ein partneriaid a allai ychwanegu gwerth iddynt.

Yn olaf, mae ein cynllun yn disgrifio ein huchelgais i ddatblygu ein hadeiladau ac uwchraddio ein hofferyn sylweddol erbyn 2026. Bydd y gwelliannau hyn i'r seilwaith, ynghyd â'n cynlluniau clinigol a chynaliadwyedd, yn rhoi'r cyfle inni ddarparu sefydliad carbon sero net ac ystod o fanteision ehangach i gefnogi datblygiad cymunedau ffyniannus a chadarn ledled Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu'r cynllun hwn i roi ystyriaeth i'w hymrwymiad i Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a hefyd y ffordd y caiff staff eu cydnabod a'u trin ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull gwrth-wahaniaethol, ac mae hyn yn ganolog i'n rhaglen o wrando a gwella diwylliant cadarnhaol yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r cynllun yr ydym wedi'i gyflwyno yn dangos y cyfnod heriol, ond cyffrous, sydd i ddod i'r Ymddiriedolaeth. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n comisiynwyr, staff, cleifion, rhoddwyr a phartneriaid i gyflawni'r newidiadau a nodir yn y cynllun a pharhau â'n trawsnewid i'r dyfodol.



Mr. Steve Ham, Prif Weithredwr

CYNNWYS

Adran	Tudalen
Cyflwyniad – Datganiad y Prif Weithredwr	2
Cyd-destun Fframwaith Cynllunio a Chyflawni Blynyddol 2022/23	5
Dyletswydd Ansawdd	6
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau Diogel, Effeithiol ac o Ansawdd <ul style="list-style-type: none">○ Gwasanaethau Canser Felindre○ Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru	8
Dadansoddiad Perfformiad 2022/23 <ul style="list-style-type: none">○ Gwasanaethau Canser Felindre○ Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru	16
Risgiau a Heriau <ul style="list-style-type: none">○ Gwasanaethau Canser Felindre○ Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru	35
Gweithio i Wella	41
Cyflawni mewn Partneriaeth	46
Y Gweithlu a Llesiant	48
Trawsnewid digidol	49
Strategaeth Cynaliadwyedd 2022/23	51
Safonau'r Gymraeg a Chydymffurfedd	59
Casgliadau ac Edrych Ymlaen	70

FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL A CHYD-DESTUN FFRAMWAITH DARPARU 2022-2023

Cymeradwywyd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ar gyfer 2023/24-2025/26 gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ar 30 Mawrth 2023, fel rhan o ddyletswydd statudol yr Ymddiriedolaeth o dan Ddeddf Cyllid (Cymru) 2014. Datblygwyd ein IMTP yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 – 2025/26.

Mae ein cynllun yn adeiladu ar ein cynllun cymeradwy ar gyfer 2022/23 – 2024/25 ac mae'n allbwn o'r gwaith rhagorol a wnaed gan dimau o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth ac ymgysylltiad cryf â'n rhanddeiliaid niferus. Rydym wedi gosod set o flaenoriaethau uchelgeisiol i ni ein hunain, sy'n datblygu ar ein cryfderau, ac a fydd yn arwain at y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae ein cynllun wedi'i fframio o fewn uchelgais yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd i strategaeth yr Ymddiriedolaeth '*Cyrchfan 2032*' ac mae'n dwyn ynghyd uchelgeisiau uniongyrchol, tymor canolig a hirdymor y sefydliad. Yr egwyddor graidd wrth ddatblygu ein cynllun fu ein hymrwymiad i ansawdd a diogelwch. Bydd ein cynllun yn sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn; gan weithio tuag at yr ansawdd, diogelwch a'r profiad gorau posibl; a dysgu a gwella parhaus. Dyma'r '*edau aur*' sy'n rhedeg drwy ein sefydliad.

Bydd ein nodau strategol yn cael eu cyflawni drwy sicrhau bod ein holl wasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu mewn cydweithrediad â'r cleifion a'r rhoddwyr sy'n eu defnyddio, gan adolygu canlyniadau a phrofiad yn barhaus a defnyddio'r rhain i ddysgu a gwella. Trafodwyd a chytunwyd ar y blaenoriaethau hyn, fel y nodir hwy yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, gyda'n comisiynwyr ac maent yn adlewyrchu eu hanghenion gwasanaeth.

Bydd ein IMTP ar gyfer 2023/24 – 2025/26 yn destun trefniadau rheoli perfformiad mewnol a byddant yn cael eu hadrodd i amrywiol randdeiliaid allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

DYLETSWYDD ANSAWDD

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn dod i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Felly bydd y gofynion adrodd newydd yn cael eu cynnwys mewn prosesau sydd ar waith ar gyfer 2023/24. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y ddyletswydd ansawdd yn cael ei rhoi ar waith yn anstatudol yn hydref 2022.

Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer profi'r dangosyddion adrodd am ansawdd, y mesurau a'r cysyniadau fframwaith naratif sy'n cael eu datblygu yn ystod cam gweithredu'r ddyletswydd ansawdd fel proses adrodd hybrid ar gyfer 2022/23.

2021-22	Gofynion adrodd am ansawdd wedi'u gwreiddio ym mhroses yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.
2022-23	Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd yn anstatudol yn ystod hydref 2022. Proses adrodd hybrid i brofi dangosyddion, mesurau a fframwaith naratif yn cael ei datblygu yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer y ddyletswydd ansawdd.
2023-24	Dyletswydd ansawdd yn dod i rym ym mis Ebrill 2023. Bydd gofynion adrodd newydd yn eu lle wedyn.

Diogelwch Clinigol ar gyfer ein Cleifion a'n Rhoddwyr:

Ansawdd yw'r 'edau aur' sy'n rhedeg trwy gynllunio a darparu gwasanaethau i wella ansawdd y gofal a ddarperir, gan arwain at ganlyniadau gwell i gleifion a rhoddwyr a hyrwyddo arfer da ac arloesedd.

Yn ystod 2022/23 rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith, gan sicrhau bod 'ansawdd wrth wraidd yr hyn a wnawn' i ddarparu a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn ac i ysgogi gwelliannau pellach mewn gofal.

- Cymeradwywyd Fframwaith Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth – mae Ansawdd, Diogelwch, Canlyniadau yn fusnes i bawb
- Parodwydd i ganolbwyntio ar ofynion y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd
- Grŵp Ansawdd a Diogelwch Integredig yn weithredol – i wella triogli a sicrwydd

- Mecanweithiau sicrhau llywodraethu o ansawdd da wedi'u rhoi ar waith gyda hyfforddiant ar gyfer yr holl arweinwyr adran, is-adrannol, gweithredol a Bwrdd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed yn barhaus ar ansawdd, diogelwch, profiad a gwerth wrth ddarparu ein prif ffocws ar wasanaethau canser a chynhyrchion gwaed. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu mentrau ansawdd a diogelwch pellach, fel isod:

- Mae'r Tîm Ansawdd a Diogelwch yn y broses o ddatblygu storfa ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan lle gellir rhannu a chadw dysgu a chanlyniadau o brofiadau cleifion a rhoddwyr.
- Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn sefydlu metrigau adrodd "Bob amser ymlaen" i gynorthwyo cyfleoedd i sicrhau gwelliant parhaus ac ymchwilio mewn amser real i bryderon a godir.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Hybiau Ansawdd sy'n gweithredu systemau rheoli ansawdd yn isadrannau Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru (mae GGC bellach yn weithredol)

EIN HYMAGWEDD AT GYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU DIOGEL, EFFEITHIOL AC O ANSAWDD DA

Gwasanaeth Canser Felindre (GCF)

Mae ein gwaith yn 2022/2023 wedi bod yn seiliedig ar:

Ein prif ffocws yn ystod 2022/23 oedd darparu ein gwasanaethau yn barhaus, gyda digon o gapasiti yng nghyd-destun COVID-19 a'r cyfnod adfer. Ein nod cyffredinol oedd cynnal darpariaeth gwasanaethau canser nad ydynt yn rhai llawfeddygol yn ddiogel ar gyfer poblogaeth De Ddwyrain Cymru, yn ystod twf parhaus mewn triniaethau canser, wrth sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel wrth fynychu ein lleoliadau triniaeth a lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Bydd y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, a fydd yn arwain at agor y ganolfan ganser newydd yn 2025/26, yn parhau i fod yn faes gwaith creiddiol i ni ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol De-ddwyrain Cymru a'r Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol (CCLG). Mae prosiectau rhanbarthol presennol fel Prosiect y Gwasanaeth Oncoleg Aciwt hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol allweddol i ni a'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd Lleol.

Wrth ystyried y ffactorau penderfynu uchod, fe wnaeth Gwasanaeth Canser Felindre anelu at y blaenoriaethau canlynol yn ystod 2022/23.

Ein Blaenoriaethau yn 2022/23:

Blaenoriaeth 1: Sicrhau bod Staff a Chleifion yn Ddiogel yn ein Lleoliadau Triniaeth – gwnaethom leihau'r Risg o drosglwyddo COVID-19 trwy gynnal mesurau rheoli heintiau gwell, llwybrau diwygiedig ar gyfer cleifion a darparu gofal yn ystod 2022/23 gyda'r rhan fwyaf o fesurau ataliol yn cael eu codi yn chwarter 4.

Blaenoriaeth 2: Darparu capasiti priodol i ateb y galw gan gleifion – er gwaethaf y pwysau a achoswyd gan y pandemig a'r heriau dilynol yn y cyfnod adfer, fe wnaethom barhau i ddarparu ein holl wasanaethau drwy addasu ein model clinigol a chwilio am atebion o ran darparu capasiti.

Blaenoriaeth 3: Cyflawni mentrau sy'n hanfodol i fusnes - gwnaethom barhau i ddarparu nifer o fentrau strategol a hanfodol i fusnes. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dechreuwyd prosesau ymgysylltu â Byrddau Iechyd i gefnogi cynllunio gweithredol ynghylch y modelau clinigol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a gwasanaethau allgymorth.
- Cefnogaeth a mewnbwn i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer adeiladu canolfan ganser yn Ysbyty Neville Hall mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

- Gweithredu'r Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (DHCR) yn lle'r system CANISC.
- Gweithredu rhaglen dreigl amnewid Linac fel rhan o weithredu system radiotherapi integredig (IRS).

Blaenoriaeth 4: Ymgysylltu â Byrddau Iechyd a Chynllunio Gwasanaethau Rhanbarthol - rydym wedi parhau i arwain a chefnogi datblygiadau gwasanaethau rhanbarthol, gan gynnwys:

- Gweithredu'r Ganolfan Radiotherapi Ategol yn Ysbyty Neville Hall.
- Datblygu Gwasanaeth Oncoleg Aciwt De-ddwyrain Cymru.
- Datblygu cyfleuster ymchwil a datblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Caerdydd.

Blaenoriaeth 5: Profiad ac Ymgysylltiad y Cleifion (cydnabod ac ymateb i effaith COVID-19) - Datblygwyd ein strategaeth ymgysylltu â chleifion mewn cydweithrediad â'n staff, ein cleifion a'n rhoddwyr a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n amlinellu sut y byddwn yn ymgysylltu â'n cleifion, rhoddwyr a'u teuluoedd a'n gofalmwyr yn y dyfodol i sicrhau bod eu lleisiau wrth wraidd y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu ein gwasanaethau.

Dadansoddi Perfformiad:

Rydym wedi datblygu ystod eang o fesurau sydd yn cael eu defnyddio gennym yn rheolaidd i fonitro ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau craidd. Archwilir perfformiad Canolfan Ganser Felindre yn erbyn ystod o fesurau a thargedau ansawdd ymhellach yn yr Adran Dadansoddi Perfformiad a ganlyn. Mae adroddiadau perfformiad manwl yr Ymddiriedolaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth trwy'r ddolen ganlynol ([insert link](#)).

Heriau a wynebwyd yn ystod 2022/23:

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn parhau i weithredu yn erbyn cefndir yr heriau ar gyfer gwasanaethau cancer trydyddol yn ogystal â'r rhai a ddeilliodd o'r pandemig, gan gynnwys cyfraddau cancer ac anghydraddoldebau iechyd cynyddol, bwlch cynyddol yn y galw a ragwelir rhwng cyflenwad a galw, triniaethau sy'n mynd yn fwy a mwy cymhleth a phersonol a chefnogi pobl i fyw gyda chanser a thu hwnt iddo.

Cyflwynodd y flwyddyn 2022/23 heriau sylweddol i Wasanaeth Canser Felindre wrth ymateb i gyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19 a symud yn ôl at fusnes fel arfer. Roedd sicrhau defnydd effeithiol a diogel o'r safle i ddarparu ar gyfer gwasanaethau yn parhau i fod yn her yn ystod y flwyddyn gyda nifer o gyfyngiadau Cyfarpar Diogelu Personol heb eu llacio tan y chwarter olaf.

Gwelodd Chwarter 1 2022/23 gynnydd yn y galw am Wasanaethau o fewn Gwasanaeth Canser Felindre wrth i'r Bwrdd Iechyd roi ystod o fesurau ar waith i ymdrin â'u hôl-groniad o weithgarwch a oedd wedi deillio o'r pandemig COVID. Wynebodd gwasanaethau SACT bwysau sylweddol a sefydlwyd prosiect adfer ffurfiol mewn ymateb i reoli'r galw. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd ar gyfer cynyddu capasiti tymor byr a

chapasiti cynaliadwy yn y tymor hwy. Arweiniodd y gwaith o weithredu'r cynllun adfer at ddychwelyd at falans yn Chwarter 3, sydd wedi parhau i gael ei gynnal drwy gydol Chwarter 4. Bob amser, rheolwyd triniaeth cleifion yn unol â chanllawiau cenedlaethol derbyniol. Ffocws pellach y cynllun adfer oedd dychwelyd cyfleusterau allgymorth SACT cyn y pandemig yn ôl i safleoedd y Bwrdd Iechyd, gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Arweiniodd cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer canser y fron at lefel o her i berfformiad Radiotherapi. Rheolwyd hyn yn effeithiol o fewn y gwasanaeth gweithredol trwy ad-drefnu systemau, gweithlu a phrosesau. Ychwanegwyd at y gwaith o reoli'r garfan hon o gleifion wrth i'r gwaith arfaethedig o adnewyddu'r LINACs ddechrau tua diwedd Chwarter 3. Parhawyd i flaenoriaethu cleifion yn glinigol yn unol â chanllawiau cenedlaethol

Ar ddechrau Chwarter 4, cyflwynwyd y metrigau perfformiad Radiotherapi newydd (Dangosyddion Ansawdd Radiotherapi) ledled Cymru, gan ddisodli targedau perfformiad blaenorol y JCCO. Mae'r cleifion i gyd bellach yn cael eu triniaeth wedi'i chynllunio gyda'r nod o gyrraedd y targedau hynny. Datblygwyd y llwybrau gorau posibl i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r metrigau adrodd newydd hyn, sy'n gofyn am newidiadau i brosesau a llifoedd gwaith, a bydd rhai ohonynt yn dibynnu ar elfennau o'r rhaglen newydd i amnewid technoleg radiotherapi. Mae gweithredu'r llwybrau newydd yn parhau wrth i ni symud i 2023/24.

Gweithredwyd newid mawr i 'ffyrdd o weithio' yng Ngwasanaeth Ganser Felindre yn llwyddiannus yn Chwarter 3 wrth i'r system CANISC bresennol gael ei disodli gyda Chofnod Gofal Iechyd Digidol newydd system Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS). Dyma gam cyntaf rhaglen waith fwy ledled Cymru i ddod â'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i'r un plattform WPAS. Parhaodd gwaith i wreiddio'r system a 'ffyrdd newydd o weithio' trwy Chwarter 4 ac mae'n parhau yn 2023/24.

Parhaodd lles ein staff i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2022/23, a bydd effaith broffesiynol a phersonol y pandemig a'r ffordd yr ydym yn gweithio yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol. Mae recriwtio staff ychwanegol gyda'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen arnom, a'r defnydd mwyaf effeithiol o setiau sgiliau ein staff, a'n cymysgedd sgiliau wedi bod ac yn parhau i fod yn holl bwysig i'n hymateb i'r galw. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu gwahanol ffyrdd o weithio a darparu ein gwasanaethau.

Dyfodol Felindre:

Sefydlwyd rhaglen Dyfodol Felindre yn 2020, a dyma'r cyfrwng i ni gyflawni'r trawsnewidiad sydd ei angen i gyflawni dyheadau rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser De-ddwyrain Cymru, y cyfleoedd rhanbarthol pellach yr ydym wedi'u nodi a'r cynlluniau uchelgeisiol presennol ar gyfer moderneiddio gwasanaethau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o'r rhaglenni trawsnewid wedi gwneud cynnydd da er gwaethaf effaith pandemig COVID - mae'r rhain wedi cynnwys cynnydd ynghylch y llwybrau Oncoleg Heb ei Drefnu ac Aciwt gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd Lleol, datblygu Hwb Ymchwil a Datblygu ym Mhrifysgol Ysbyty Cymru, rhaglen newid y gwasanaeth Radiotherapi a datblygu strategaeth ymgysylltu ffurfiol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r rhaglen trawsnewid ar gyfer cleifion allanol (sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werthoedd), a disodli system CANISC drwy gyflwyno'r system Cofnod Iechyd a Gofal Digidol yn parhau.

Yn yr hydref, cwblhawyd y broses o gaffael Atebion Radiotherapi Integredig, a dechreuodd y cam gweithredu gyda'r LINAC cyntaf yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar sefydlu'r Ganolfan Radiotherapi Ategol. Byddwn yn parhau i yrru'r agenda trawsnewid yn y Ganolfan Ganser drwy Fwrdd Rhaglen Fawr Dyfodol Felindre. Craidd y newidiadau parhaus hyn i wasanaethau yw sicrhau bod llais y claf, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn rhan o'r gwaith o lunio'r hyn a wnawn.

Canolfan Ganser Newydd Felindre:

Ers cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 i'r achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i barhau i symud y cynlluniau ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio gyda dau gonsortium fel rhan o'r broses o ddeialog gystadleuol i ddylunio, adeiladu a gweithredu Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithio gyda'n cleifion a'n staff i ddatblygu cynllun ysbyty a fydd yn gwireddu ein huchelgais o gyfleuster o'r radd flaenaf a fydd yn darparu gofal heb ei ail i gleifion cancer ar draws De-ddwyrain Cymru, bod yn weithle ysbrydoledig i'n staff ymroddedig ffynnu ynddo a bod yn ganolbwynt i ymchwil ryngwladol. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth a'r consortia wedi bod wrthi'n ceisio sicrhau bod yr ysbyty newydd yn lle sydd o fudd i'r gymuned leol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddechrau'r gwaith galluogi ar y safle newydd, sy'n ddibyniaeth allweddol ar gyfer agor y ganolfan newydd, sydd i fod i agor yn 2025.

Rydym ni i gyd yn parhau i weithio i ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre i fod yn un y gallwn ni i gyd fod yn falch ohoni am genedlaethau i ddod.

Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC):

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi bodloni'r holl alw clinigol yn 2022/23, er i hon fod yn flwyddyn heriol arall. Er ei fod wedi gorfod dibynnu ar gymorth gan wasanaethau gwaed eraill y DU o bryd i'w gilydd, mae hefyd wedi cefnogi'r gwasanaethau hynny gyda chyd-gymorth ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi parhau i addasu model ei wasanaeth casglu a phrosesu gwaed a'i wasanaethau cymorth trawsblannu mewn ymateb i ganllawiau iechyd y cyhoedd ac Atal a Rheoli Heintiau sy'n newid mewn perthynas â COVID trwy gydol y flwyddyn.

Mae patrwm y newid yn y galw am ein gwasanaethau yn cyd-fynd yn glir â phatrwm gwasanaethau'r Byrddau Iechyd Lleol ac rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y GIG drwy'r Grŵp Goruchwyllo Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Gwaed a rheolwyr banciau gwaed i ymateb yn ôl y gofyn.

Yn 2022/23, dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu menter Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru a fydd yn gyfrwng i gyflawni'r dyheadau a llywio gwasanaethau'r dyfodol ar gyfer GGC.

Datblygwyd Strategaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru a bydd yn cael ei lansio yn Chwarter 1 2023/24. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gwaed a thrawsblaniadau yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan amlinellu lle'r ydym arni ar hyn o bryd, lle'r ydym am fod yn 2028 a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyrraedd yno. Yn 2022/23, dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu menter Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru a fydd yn gyfrwng i gyflawni'r dyheadau a amlinellwyd yn ein strategaeth a llywio gwasanaethau'r dyfodol ar gyfer GGC.

Ein Blaenoriaethau a Gyflawnwyd yn 2022/23:

Darparu gwasanaeth casglu effeithlon ac effeithiol, gan hwyluso'r profiad gorau i'r rhoddwr, a sicrhau bod rhoddion cynhyrchion gwaed a mêr esgryn yn ddiogel ac o ansawdd uchel – Dechreuodd y strategaethau rhoddwyr, ar gyfer rhoddwyr gwaed cyfan a mêr esgryn, gael eu datblygu yn 2022/23 a byddant yn cael eu cwblhau yn 2023/24.

Mae arolygon boddhad rhoddwyr misol wedi parhau i fod yn ffynhonnell adborth sy'n hyrwyddo gwelliannau wedi'u harwain gan roddwyr wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r rhain wedi cynnwys ailgyflwyno Clinigau Rhoi Symudol a chlinigau gwaed cyfan llai yn y gymuned a gafodd eu dileu oherwydd cyfyngiadau IPC cysylltiedig â COVID, sgrinio gwell cyn clinig i leihau'r achosion o roddwyr yn methu â rhoi gwaed ar ôl mynychu eu hapwyntiad, ymagwedd ddiwygiedig at blant yn y clinig a gwell cofnodi digwyddiadau niweidiol gan roddwyr.

Ymgwymerwyd â nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol yn ystod 2022/23 gan gynnwys Blood Sweat and Cheers, Giving Runs in Your Blood, #BestGift, ein rhaglen rhoddion chweched dosbarth, colegau a phrifysgolion (#YoungBlood) a #ChilledOutLifesaver a ail-lansiwyd ym mis Tachwedd yn cynnwys rhoddwr, Tom, a'i dderbynydd, Rob – y ddau o Gymru a gyfarfu am y tro cyntaf ar ôl i Rob dderbyn rhodd mêr esgryn a achubodd ei fywyd gan Tom – gallwch wyllo'r fideo pan wnaethant gyfarfod yma www.wbs.wales/col. Mae ymgyrchoedd pellach wedi'u hangori o amgylch dyddiadau allweddol ar draws y flwyddyn gan gynnwys Diwrnod Canser y Byd, Diwrnod Canser Gwaed y Byd, Wythnos Genedlaethol Rhoddwyr Gwaed, Diwrnod Rhoddwyr Gwaed y Byd, Diwrnod Rhoddwyr Mêr y Byd a'r Nadolig/Y Flwyddyn Newydd.

Diwallu'r galw gan gleifion am waed a chynhyrchion gwaed drwy hwyluso'r defnydd mwyaf priodol ar draws sefydliadau lechyd - mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cynnal cyflenwad gwaed a chynhyrchion gwaed i Gymru mewn amgylchiadau anodd ac er ei fod wedi gorfod dibynnu ar gefnogaeth gan wasanaethau gwaed eraill yn y DU ar adegau, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd wedi bod mewn sefyllfa lle mae yntau yn cefnogi'r gwasanaethau hynny ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae grŵp cydweithio yn parhau i baru'r cyflenwad â'r galw trwy ddefnydd helaeth o ddata, gan ystwytho'r broses o gasglu gwaed cyfan a phlatennau yn dymhorol.

Mae'r tîm Iechyd Gwaed yn parhau i weithio gydag ysbytai ledled Cymru, gan ddarparu hyfforddiant a chymorth i sicrhau bod cynhyrchion gwaed yn cael eu defnyddio'n briodol.

Darparu gwasanaethau gweithgynhyrchu, dosbarthu a labordai profi diogel, o ansawdd uchel a'r rhai mwyaf datblygedig - Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwaed Cymru wedi caffael Dadansoddwyr Grwpiau Gwaed newydd ar gyfer gwaed cyfan, a system fonitro a rhybuddio bacteriolegol newydd ar gyfer platennau. Mae prosesau newydd wedi cael eu datblygu i gefnogi sgrinio rhoddwyr ar gyfer heintiau Hepatitis B cudd. Mae sgrinio rhoddwyr platennau ar gyfer antigenau HNA wedi'i gyflwyno.

Darparu gwasanaethau diagnostig, trawsblannu a thrallwysu diogel o ansawdd uchel a'r rhai mwyaf datblygedig - Mae Gwaed Cymru wedi gweithredu Dilyniannu'r Genhedlaeth Nesaf o'r radd flaenaf yn y labordai Hystogydnewydd ac Imiwnogeneteg ac mae wedi gweithredu newidiadau i brofion traws-gyfateb a ddefnyddir i asesu cydweddoldeb wrth drawsblannu organau solet. Yn ystod 2022/2023 bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cyflwyno gwasanaeth Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol ar-alwad i gefnogi trawsblannu organau.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos ac ar y cyd â'n cydweithwyr rhyngwladol drwy'r Gymdeithas Cysylltiadau Rhoddwyr Proffesiynol (ADRP) a'r Gynghrair Gwaed Ewropeaidd (EBA) i rannu arfer gorau a gwybodaeth ac i feincnodi ein systemau a'n prosesau i helpu i nodi cyfleoedd i wella'r modd rydym yn darparu ein gwasanaeth.

Darparu gwasanaethau sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac sydd o fudd i'n cymunedau lleol a Chymru - Mae rhaglen waith ar y gweill i ddatblygu a gweithredu stad SMART sy'n effeithlon o ran ynni ac yn gynaliadwy ar safle Tonysguboriau a fydd yn hwyluso model o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae prosiectau eraill yn gweithio i leihau'r defnydd o ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu fel poteli dŵr a chwpanau bioddiraddadwy mewn clinigau rhoi gwaed, ac i leihau'r defnydd o ddogfennau printiedig ar draws y gwasanaeth. Cyflwynwyd y cerbyd trydan cyntaf i'r adran Logisteg lle caiff ei ddefnyddio i ddosbarthu cydrannau gwaed i ysbytai ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Bod yn sefydliad gwych gyda phobl wych sy'n ymroddedig i wella canlyniadau i gleifion a rhoddwyr - mae Gwaed Cymru yn parhau i gynnig amrywiaeth o lwybrau datblygu gyrfa i'w bobl. Mae wedi parhau i roi cefnogaeth ar gyfer addysg uwch a hyfforddiant galwedigaethol i wyddonwyr a gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen Hyfforddiant Gwyddonol Arbenigol Uwch genedlaethol i wyddonwyr clinigol ymgynghorol yn ogystal â datblygu rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae ymgysylltu ag undebau llafur yn parhau i fod yn gadarnhaol gyda chydweithio agos wrth i ni geisio cysoni telerau ac amodau ar draws ein timau casglu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddylunio model hyblyg o weithio lle gellir cymhwyso gwersi o'r pandemig i roi hyblygrwydd i'n pobl o ran ble maen nhw'n gweithio.

Dadansoddi Perfformiad:

Rydym wedi datblygu ystod eang o fesurau sydd yn cael eu defnyddio gennym yn rheolaidd i fonitro ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau craidd. Archwilir perfformiad Gwasanaeth Gwaed Cymru yn erbyn ystod o fesurau a thargedau ansawdd ymhellach yn yr Adran Dadansoddi Perfformiad a ganlyn. Mae adroddiadau perfformiad manwl yr Ymddiriedolaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth trwy'r ddolen ganlynol (**insert link**).

Heriau a wynebwyd yn ystod 2022/23:

Er ein bod bob amser yn cynllunio i gasglu digon o waed i ddiwallu anghenion ysbytai ledled GIG Cymru, mae 2022/23 wedi parhau i gyflwyno heriau unigryw o ganlyniad i'r pandemig a gweithredu diwydiannol, fel yr amlinellir isod:

Casglu gwaed a chynhyrchion gwaed, prosesu a dosbarthu:

- Llai o safleoedd rhoi gwaed sefydlog, oedd yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol ac atal heintiau.
- Cystadleuaeth am safleoedd rhoi gwaed gan glinigau brechu.
- Parhau â mesurau IPC ar gyfer staff a chysylltiadau COVID-positif.
- Yr angen i gynyddu stociau o Blasma Ffres wedi'i Rewi i gefnogi'r gwaith o amnewid stoc fel rhan o'r rhaglen sgrinio Hepatitis B cudd.
- Mynediad at wybodaeth amserol, gyfredol am alw i gefnogi blaengynllunio.
- Trafodaethau ar lacio rheolau ar Weithredu Diwydiannol.

Dosbarthu Cyfanwerthol Cynhyrchion Gwaed Masnachol:

- Monitro argaeledd y stoc a chynllunio wrth gefn yn barhaus.
- Pwysau i gynyddu a chynnal stociau critigol mewn ymateb i'r prinder byd-eang a ragwelir mewn plasma sy'n cael ei roi y mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwneud ohono.

Rheoliadau dethol rhoddwyr gwaed a bôn-gelloedd:

- Parhau i fodloni canllawiau a rheoliadau llym a chyfnewidiol ynghylch dethol rhoddwyr ar gyfer gwaed a bôn-gelloedd gan gynnwys cyflwyno sgrinio ar gyfer Heintiau Hepatitis B cudd a'r angen i adolygu rhoddion hanesyddol gan roddwyr sy'n profi'n positif.
- Parhau i fodloni gofynion COVID-19 ar gyfer hwyluso allforio a mewnforio cynhyrchion bôn-gelloedd megis cludo o wledydd cyfyngedig a phrofi negeswyr am COVID-19.

Cynnal panel rhoddwyr iach ac ymrwymedig:

- Canolbwyntio ar 'dargedu' i fodloni gofynion penodol ac amrywiol ar gyfer grwpiau penodol.
- Strategaeth ar gyfer recriwtio rhoddwyr mêr esgyrn, lle mae'r grŵp oedran yn wahanol i roddwyr gwaed cyfan.

Gweithlu iach a chynaliadwy:

- Prinder staff arbenigol.
- Recriwtio a chadw.

Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Tîm Iechyd Gwaed a'r Tîm Casgliadau i gysoni'r proffil casglu â'r galw am grwpiau gwaed penodol, ond mae hyn yn parhau i fod yn anodd ei bennu. Ar ben hynny, mae gofyn sicrhau bod y cyflenwad gwaed yn ôl grŵp gwaed yn bodloni'r galw, sy'n ychwanegu at y risg o gyflenwi a chyhoeddi aliniad yn cael ei gyflawni. Mae natur anrhagweladwy o fewn y galw am blatennau, ochr yn ochr â'u hoes fer, wedi arwain at anawsterau penodol wrth gyfateb cyflenwad â galw a rheoli dyddiad dod i ben unedau nas defnyddiwyd.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein cynlluniau recriwtio rhoddwyr i ystywto i ateb y galw ac mae ein rhoddwyr yn ymatebol. Fodd bynnag, os bydd prinder, byddwn yn tynnu ar ein cytundeb cyd-gymorth gyda Gwasanaethau Gwaed y DU neu mewn amgylchiadau eithafol yn rhoi cychwyn ar y Cynllun Prinder Gwaed Cenedlaethol i fynd ati i reoli stociau gydag ysbytai.

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD



Yn ystod 2022/23 mae ein fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF) wedi esblygu gydag ystod ehangach o fesurau a ddefnyddir yn rheolaidd i fonitro ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau craidd. Mae'r mesurau craidd ar gyfer Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael eu cynnwys yn y tablau isod.

Caiff y crynodebau o berfformiad eu harchwilio ymhellach, gyda naratif ategol wedi'i gynnwys yn adroddiadau ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth a dderbynnir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Mae'r papurau hyn ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth, drwy'r **ddolen** ganlynol.

Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad


Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad ein Hymddiriedolaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, yn ein fformat Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd, yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol, safonau arfer gorau a mesurau canlyniadau a nodwyd yn lleol ar gyfer ein gwasanaethau canser a gwaed a thrawsblaniadau, yn ogystal ag ymgorffori mesurau boddhad cleifion a rhoddwyr, lles staff a chynaliadwyedd.

Mae fformat yr adroddiad perfformiad newydd yn mabwysiadu dull 'cerdyn sgorio cytbwys' sy'n ceisio 'triangli' y rhyngweithio rhwng darpariaeth weithredol, ansawdd a diogelwch gwasanaeth, ein pobl ac adnoddau ffisegol/cyllid, ac mae'n seiliedig ar 'chwe parth' y Fframwaith Diogelwch Ansawdd (QSF), sef gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y claf/rhodwr ac sy'n amserol, effeithlon a theg.

Cefnogir pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) gan ddadansoddiad sy'n esbonio'r perfformiad presennol, gan ddefnyddio Siartiau Rheoli Proses Ystadegol (SPC) lle bynnag y bo modd, i alluogi gwahaniaethu rhwng 'amrywiadau naturiol' mewn gweithgaredd, a thueddiadau o ran perfformiad y mae angen ymchwilio iddynt.

Mae'r broses o ddatblygu arddull adrodd am berfformiad y Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd wedi cynnwys ymgysylltu a thrafod helaeth ag Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cynrychiolwyr Cynghorau Iechyd Cymuned a gwaith manwl gydag Arweinwyr Cyfarwyddiaethau a staff allweddol sy'n gyfrifol am gasglu, coladu ac adrodd am berfformiad.

Fframwaith Rheoli Perfformiad Cyfun



Y Fframwaith Diogelwch Ansawdd (QSF) Maes	Cerdyn Sgorio Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyfan			Cyfartaledd Misol Perfformiad ar gyfer 2022/23			
	Dangosydd (DPA)	Perfformiad	Allweddol	Targed	Adroddwyd	Llinell sylfaen Ebrill '22	Targed
Diogelwch	% cydymffurfedd ar gyfer staff sydd wedi cwblhau cymwyseddau Lefel 1 y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	Cenedlaethol	Bob mis	85%	85%	86%	
	Nifer y cwmpïadau (y gellid eu hosgoi) ymysg cleifion mewnol GCF	Cenedlaethol	Bob mis	1	0	1	
	Nifer yr achosion o Thromboses (y gellid efallai bod wedi eu hosgoi) (HAT) a gafwyd mewn Ysbytai	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy Ofal Iechyd (HAIs) MRSA	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy Ofal Iechyd (HAIs) MSSA	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy ofal Iechyd (HAIs) P. aeruginosa cronnus	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy Ofal Iechyd (HAIs) Klebsiella spp	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy Ofal Iechyd (HAIs) C. Difficile	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy Ofal Iechyd (HAIs) E Coli	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	1	
	Nifer yr Heintiau a gafwyd drwy ofal Iechyd (HAIs) Bacteremia gram-negyddol	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	1	
	Nifer yr wiserau pwysu a gafwyd gan gleifion Canolfan Ganser Felindre (y gellid eu hosgoi).	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0	
	Nifer y Digwyddiadau a adroddwyd i'r Rheoleiddiwr / Awdurdod Trwyddedu	Lleol	Bob mis	3	0	1	
	Allyriadau Carbon – rhannau carbon fesul miliwn yn ôl cyfaint; 16% o ostyngiad erbyn 2025 yn erbyn llinell sylfaen 2018/19	Cenedlaethol	Blynyddol	0%	-3%	-3%	

Y Fframwaith Diogelwch Ansawdd (QSF) Maes	Cerdyn Sgorio Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyfan				Cyfartaledd Misol Perfformiad ar gyfer 2022/23			
	Dangosydd (DPA)	Perfformiad	Allweddol	Targed	Adroddwyd	Llinell sylfaen Ebrill '22	Targed	Gwirioneddol
Effeithiolrwydd	Nifer yr achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTocS):			Cenedlaethol	Bob mis	0	0	0
	% y Galw am Gelloedd Coch y Gwaed a Fodlonwyd			Arfer gorau	Bob mis	102%	100%	105%
	% yr Amser yr oedd Dyddiad Celloedd Gwaed Coch (oedolion) wedi dod i ben			Lleol	Bob mis	0.08%	Uchafswm o 1%	0.12%
	% yr Amser yr oedd dyddiad Platennau (oedolion) wedi dod i ben			Lleol	Bob mis	16%	Uchafswm o 10%	18%
	Nifer y Casgliadau Bôn-gelloedd y mis			Lleol	Bob mis	1	7	4
	% Cyfartaledd treigl lefelau Salwch Staff			Cenedlaethol	Bob mis	6.31%	3.54%	6.12%
	% y cydymffurfedd ag Adolygiadau Gwerthuso Datblygiad Personol (AGDP) gyda'r gwerthusiad wedi'i gynnal gan reolwyr			Safon Proffesiynol	Bob mis	69%	85%	72%
Profiad y Claf/Rhodwrr/ Staff	% y Cleifion sy'n Barnu bod Profiad yng Ngwasanaeth Canser Felindre yn dda iawn neu'n rhagorol			Safon Proffesiynol	Bob mis	85%	85%	92%
	% Boddhad Rhoddwyr			Lleol	Bob mis	96%	95%	96%
	% y pryderon 'ffurfiol' i GCF yr ymatebwyd iddynt o fewn 30 diwrnod gwaith			Lleol	Bob mis	100%	85%	100
	% yr Ymatebion i Bryderon Ffurfiol i Wasanaeth Gwaed Cymru o fewn 30 Diwrnod Gwaith			Lleol	Bob mis	100%	90%	100%
Amseroldeb	% Cleifion oedd yn Dechrau Radiotherapi Radical o fewn 28 diwrnod (JCCO)			Cenedlaethol	Bob mis	87%	98%	89%
	% y Cleifion oedd yn Dechrau Radiotherapi Lliniarol o fewn 14 diwrnod (JCCO)			Cenedlaethol	Bob mis	79%	98%	84%
	% y Cleifion oedd yn Dechrau Radiotherapi Brys o fewn 2 ddiwrnod (JCCO)			Cenedlaethol	Bob mis	84%	98%	96%
	Cleifion Radiotherapi wedi'i Drefnu y cafodd 80% ohonynt eu Trin o fewn 14 Diwrnod a 100% ohonynt o fewn 21 Diwrnod (COSC) – data Chwefror a Mawrth yn unig			Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	80% 100%	29% 47%
	Cleifion Radiotherapi y cafodd 80% ohonynt driniaeth i Reoli Symptomau Brys o fewn 2 ddiwrnod a 100% o fewn 7 diwrnod (COSC) – data Chwefror a Mawrth yn unig			Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	80% 100%	6% 50%
	Cleifion Radiotherapi Brys y cafodd 100% eu Trin o fewn 1 Diwrnod (COSC) – data Chwefror a Mawrth yn unig			Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	100%	94%

	Cleifion Oedi Dewisol Radiotherapi y cafodd 80% ohonynt eu trin o fewn 14 Diwrnod a 100% o fewn 21 Diwrnod (COSC) – data Chwefror a Mawrth yn unig	Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	80% 100%	27% 32%
	% Cleifion oedd yn Dechrau SACT nad oeddent yn achosion brys o fewn 21 diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis	69%	98%	88%
	% y Cleifion oedd yn Dechrau SACT Brys o fewn 5 diwrnod	Cenedlaethol	Bob mis	100%	98%	96%
	% yr Amseroedd Gweithredu Cyn Geni (o fewn 3 diwrnod gwaith)	Arfer gorau	Bob mis	96%	90%	96%
	% yr Amseroedd Gweithredu (Cyn-geni - meintioliad D & -c) o fewn 5 diwrnod gwaith	Arfer gorau	Bob chwarter	97%	90%	94%
Effeithlon	Balans Ariannol – cyflawni rhagolwg yr Ymddiriedolaeth (£k) yn unol â'r proffil gwariant referiwr	Cenedlaethol	Bob mis	0	0	(£0.064m) alldro
	Sefyllfa gwariant Cyfalaf Ariannol (£m) yn erbyn y proffil gwariant a ragwelwyd	Cenedlaethol	Bob mis	0	£27,760 M	£27,758M alldro
	Gwariant yr Ymddiriedolaeth (£k) ar staff Banc ac Asiantaeth yn erbyn proffil targed y gyllideb	Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	£0.128 m	£0.140m alldro
	Rhaglen Gwella Costau - cyflawni arbedion (£k) o £1.3M yn unol â'r proffil	Cenedlaethol	Bob mis	DDIM YN BERTHN ASOL	£1.300 m	£1.300m alldro
	Perfformiad Talu'r Sector Cyhoeddus (% yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod)	Cenedlaethol	Bob mis	95%	95%	96%
Teg	Amrywiaeth y Gweithlu – % y menywod mewn swyddi arweinyddiaeth uwch (a ddiffinnir fel Band 8 ac uwch)	Lleol	Bob chwarter	DDIM YN BERTHN ASOL	DDIM YN BERTHN NASOL	63%
	Amrywiaeth y Gweithlu – % y Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (yn seiliedig ar fersiwn Cymru o WRES)	Lleol	Bob chwarter	DDIM YN BERTHN ASOL	DDIM YN BERTHN NASOL	12%
	Amrywiaeth y Gweithlu – % y Bobl ag Anabledd o fewn y gweithlu	Lleol	Bob chwarter	DDIM YN BERTHN ASOL	DDIM YN BERTHN NASOL	4%
	% y Gweithlu a ddatganwyd yn Siaradwyr Cymraeg ar Lefel 1	Cenedlaethol	Bob chwarter	DDIM YN BERTHN ASOL	DDIM YN BERTHN NASOL	4%

CANOLFAN GANSER FELINDRE (CGF)

Roedd perfformiad yn ystod 2022/23 o safon uchel ac yn adlewyrchu ein huchelgais parhaus i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae meysydd nad ydynt yn bodloni'r lefelau a osodwyd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn destun craffu parhaus, ac mae camau gweithredu yn cael eu cymryd i'w gwella. Isod, rydym yn archwilio ein perfformiad yn 2022/23 yn fwy manwl.

AMSEROEDD AROS A MYNEDIAD AT WASANAETHAU




Yn ystod y flwyddyn, gwelsom alw mawr am wasanaethau radiotherapi a chemotherapi a roddir yng Nghanolfan Ganser Felindre. Gweithiodd ein staff yn galed i fodloni'r galw hwn, ac rydym o hyd yn archwilio ffyrdd newydd o weithio i leihau amseroedd aros a gwella mynediad cleifion i'n gwasanaethau.

CYNNYDD YN ERBYN: RADIOTHERAPI




Yn 2022/23, gwelsom gynnydd o 8% yn y galw am wasanaethau radiotherapi. Rhoddwyd cynllun capasiti cytbwys ar waith i sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i fodloni'r cynnydd yn y galw. Roedd ein perfformiad rhwng Ebrill a Hydref 2022 yn 85% yn erbyn y targed Radical 28 diwrnod, 83% yn erbyn y targed Lliniarol 14 diwrnod a 93% yn erbyn y targed Brys 2 ddiwrnod.


Mae'r categoreiddio newydd ar dargedau newydd Amser i Driniaeth Radiotherapi (RRTT) (a elwid gynt yn COSC), yn newid mawr a roddwyd ar waith o fis Ionawr 2023, sy'n cael ei fabwysiadu ledled Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgorffori'r newidiadau'n llawn. Oherwydd newidiadau i'r system ddata sydd wedi digwydd oherwydd y newid i'r warws ddata newydd (yn dilyn gweithredu'r Cofnod Iechyd a Gofal Digidol - DHCR) a gofyniad i ailadeiladu'r warws ddata yn llawn er mwyn darparu ar gyfer swyddogaethau adrodd ar gyfer y data, nid oedd adroddiadau am amseroedd aros ar gael ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2022 i Ionawr 2023. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol i ddiffinio'r categorïau newydd yn gliriach, y meini prawf adrodd a sut y gellir newid llwybrau i sicrhau bod y mesurau newydd yn cael eu cyflawni. Roedd ein perfformiad rhwng Ebrill a Hydref 2022 yn 85% yn erbyn y targed Radical 28 diwrnod, 83% yn erbyn y targed Lliniarol 14 diwrnod a 93% yn erbyn y targed Brys 2 ddiwrnod.



Misoedd 1 i 15 Ionawr 2022 i Fawrth 2023



Misoedd 1 i 15 Ionawr 2022 i Fawrth 2023





Misoedd 1 i 15 Ionawr 2022 i Fawrth 2023

CYNNYDD YN ERBYN: CEMOTHERAPI



Yn dilyn cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau SACT o 8% yn 2021/22 gwelwom gynnydd pellach o 12% yn 22/23. Arweiniodd hyn at her sylweddol i gynhyrchu capasiti i gyd-fynd â'r galw gan fod yr holl ddarpariaeth allgymorth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a 50% ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'i dychwelyd a'i darparu yng Ngwasanaeth Canser Felindre. O ganlyniad, gwelwom ddirywiad mewn perfformiad rhwng Ionawr a Mehefin 2022. Rhoddwyd cynllun cyflawni ar waith a oedd yn cynnwys adnoddau ychwanegol ochr yn ochr â dychwelyd i gapasiti llawn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a newidiadau i gynhyrchiant a gwella gwasanaethau mewnol. Gwelodd hyn ni'n gwella rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2022 i ddychwelyd i gyflawni ein targedau amseroedd aros. Teimlwn fod hyn yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad ein tîm a'n hymrwymiad parhaus i wella ein gwasanaethau.



CYNNYDD YN ERBYN: MYNEDIAD AT WASANAETHAU THERAPI

Roedd perfformiad trwy gydol 2022/2023 yn ardderchog yn gyffredinol, ond rydym yn cydnabod bod nifer fach y staff therapiau yn golygu y gall absenoldeb staff gael effaith anghymesur ar berfformiad cyffredinol. Gwneir pob ymdrech i reoli sefyllfaoedd o'r fath yn effeithiol.

GCF	Ebr 22	Mai 22	Meh 22	Gorff 22	Awst 22	Medi 22	Hyd 22	Tach 22	Rhag 22	Ion 23	Chwef 23	Maw 23
Dieteteg	100	100	100	100	96	95	100	100	100	100	100	100
Ffisio	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
OT	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
SLT	67	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Dieteteg	100	100	100	100	100	100	100	98	100	91	100	98
Ffisio	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
OT	100	100	100	100	100	100	100	100	67	100	100	100
SLT	100	100	100	100	100	50	100	100	100	100	100	100
Dieteteg	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Ffisio	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100
OT	100	100	100	100	97	100	78	100	100	96	100	96
SLT	100	100	100	100	96	100	100	100	100	100	100	100

CYNNYDD YN ERBYN: TARGED GWASANAETHAU DIOGEL A DIBYNADWY


Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty: Rydym wedi parhau i gadw at ein cyfraddau isel o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Mae gennym bolisi dim goddefgarwch o ran heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, fel MRSA. Ein nod yw peidio â gweld unrhyw heintiau o'r fath yn ein cleifion mewnol dros gyfnod o unrhyw flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gall ein cleifion mewnol fod yn arbennig o agored i haint oherwydd natur y triniaethau maen nhw'n eu cael a'u cyflwr corfforol. Roedd brig ym mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 a oedd yn adlewyrchu cynnydd cenedlaethol mewn cyfraddau heintiau.

GCF	Ebr 22	Mai 22	Meh 22	Gorff 22	Awst 22	Medi 22	Hyd 22	Tach 22	Rhag 22	Ion 23	Chwef 23	Maw 23
C.diff	0	0	0	0	0	0	0	0	1	1	0	0
MRSA	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
MSSA	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0
E.coli	0	0	0	1	0	0	0	0	1	3	1	0
Klebsiella	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0
Pseudo Aerugi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gram Neg	0	0	0	0	0	0	0	0	1	4	1	0

Briwiau Pwysu: Mae gennym bolisi dim goddefgarwch hefyd o ran niwed i feinwe a briwiau pwysu. Eto, gall ein cleifion mewnol fod yn arbennig o agored i niwed o'r math hwn. Roedd cydymffurfiaeth â'n bwndel Gofal Croen, sydd wedi'i ddatblygu i leihau'r risg o niwed i'r croen a'r meinwe ar gyfer ein cleifion mewnol, yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r targed wserau pwysau y gellir eu hosgoi drwy'r flwyddyn.

	Ebr 22	Mai 22	Meh 22	Gorff 22	Awst 22	Medi 22	Hyd 22	Tach 22	Rhag 22	Ion 23	Chwef 23	Maw 23
GCF												
Nifer Gwirioneddol	1	0	1	0	0	4	1	1	1	0	0	1
Wlserau y gellid eu Hosgoi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Targed DIM	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS): Datblygwyd NEWS yn wreiddiol gan Goleg Brenhinol y Meddygon a'i fwriad yw helpu i leihau nifer y cleifion y mae eu cyflyrau'n dirywio tra byddant yn yr ysbyty. Pan mae claf yn cael ei asesu o dan NEWS, mae sgôr sy'n hafal i, neu sy'n fwy na 3, yn nodi y gallai claf fod mewn mwy o berygl o ddatblygu cymhlethdodau. Yng Ngwasanaeth Canser Felindre, rydym yn defnyddio NEWS i benderfynu p'un a oes mwy o berygl i'n cleifion ddatblygu cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â sepsis niwtropenig. Os tybir bod claf mewn mwy o berygl o hyn, bydd bwndel 'Chwe Cham Sepsis' (sef cyfuniad o dair triniaeth wahanol a 3 phrawf) yn cael ei roi i'r claf o fewn amser penodol. Mae'r graff isod yn dangos ein bod wedi perfformio'n dda yn erbyn ein targed (bod pob claf yn cael y bwndel 'Chwe Cham Sepsis' o fewn yr amserlen a osodwyd) yn 2022/23, gyda chydymffurfiaeth lawn mewn 10 allan o 12 mis.



CYNNYDD YN ERBYN: TARGED PROFIAD RHAGOROL I GLEIFION

Mae adborth ein cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio i wella'r ffordd y mae'n casglu a derbyn adborth gan y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae gwaith i ddeall beth yw'r ffordd orau o gasglu adborth, nodi themâu a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu cleifion i wella yn hanfodol. Defnyddir 2 arolwg yng Ngwasanaeth Canser Felindre – 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?' a 'Eich Profiad Chi yn Felindre'. Mae 'Eich Profiad Chi yn Felindre' yn defnyddio 0-10 yn y cwestiwn am sgorio Gwasanaeth Canser Felindre, tra roedd 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?' yn defnyddio Da iawn, Da ac ati. Mwyafrif yr arolygon a gwblhawyd yng Ngwasanaeth Canser Felindre yw'r un 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?'

Roedd cleifion yng Ngwasanaeth Canser Felindre yn gyson yn sgorio eu profiad eu hunain yn dda iawn, gan sgorio cyfartaledd o 92% ar gyfer 'Fyddech chi'n ein hargymell ni?' hyd at gyfartaledd o 85% ar gyfer 'Eich profiad chi yn Felindre'. Mae pwysigrwydd dysgu oddi wrth adborth cleifion yn parhau i fod yn holl bwysig wrth ddatblygu ein gwasanaethau.

	Ebr 22	Mai 22	Meh 22	Gorff 22	Awst 22	Medi 22	Hyd 22	Tach 22	Rhag 22	Ion 23	Chwef 23	Maw 23
GCF										23	23	23
% Fyddech chi'n ein hargymell ni?					89	89	88	nda	nda	93	96	95
% Eich Profiad Chi yn Felindre?								nda	nda	84	86	82
Targed 85%	95	95	95	95	95	95	95	95	95	95	95	95

Yn benodol, mae 'Eich Profiad Chi yn Felindre' yn ymwneud â'r rhai a sgoriodd eu profiad fel 9 neu 10 yn erbyn graddfa o 1 i 10. Ar gyfer Chwefror a Mawrth, sgoriodd 86% ac 82% o gleifion 9/10 gyda phob claf yn graddio eu profiad yn 6/10 neu fwy.


GWASANAETHAU GWAED A THRAWSBLANIADAU CYMRU (WBS)


Metrig perfformiad	2020/21		2021/22		2022/23	
	Targed	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol
Nifer y cofrestriadau newydd gan Wirfoddolwyr Rhoddion Mêr Esgyrn (BMV) rhwng 17-30 oed a recriwtiwyd i Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru	4,000	2,964	4,000	2,199	4,000	2,175
Teipiau rhoddwyr wedi marw / traws-baru a adroddwyd o fewn 4 awr $\geq 80\%$ (lleihawyd y targed amseroedd cwblhau o 6 i 4 awr yn 2017/18)	80%	89%	80%	88%	80%	86%
Canlyniadau meintoli Gwrth-D a -c $\geq 90\%$ a ddarparwyd i ysbytai sy'n gwsmeriaid o fewn 5 diwrnod gwaith	90%	99%	90%	97%	90%	93%
Canlyniadau cleifion cyn-geni arferol $\geq 90\%$ a ddarparwyd i ysbytai sy'n gwsmeriaid o fewn 3 diwrnod gwaith	90%	98%	90%	97%	90%	96%
Samplau $\geq 80\%$ a atgyfeiriwyd ar gyfer gwaith seroleg cyfeirio celloedd coch a ddarparwyd i ysbytai sy'n gwsmeriaid o fewn 2 ddiwrnod gwaith	80%	84%	80%	81%	80%	69%
Nifer y digwyddiadau SABRE adroddadwy	5	5	5	9	0	9
Cofnodion digwyddiadau ansawdd a gaewyd o fewn 30 diwrnod (cyfnod treigl o dri mis)	90%	100%	90%	100%	90%	96%
$\geq 71\%$ o roddwyr gwaed yn sgorio 5 neu 6 allan o 6 am foddhad â'r gwasanaeth cyffredinol	95%	92%	95%	95%	95%	96%

Metrig perfformiad	2020/21		2021/22		2022/23	
	Targed	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol
≥100 % o bryderon a atebwyd o fewn 30 diwrnod	100%	99%	100%	100%	100%	100%
<10% o blatennau yr oedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio	10%	14.6%	10%	13.4%	10%	21%
<1% swm y gwastraff (<0.5% tan fis Mawrth 2017)	1%	0.6%	1%	2.5%	1%	0.12%
% Bagiau Rhannol	3%	3.1%	3%	2.7%	3%	2.4%
% yr Achosion o Dynnu Gwaed wedi Methu	2%	1.6%	2%	1.4%	2%	1.4%

CYNNYDD YN ERBYN: BODLONI'R GALW CLINIGOL AM GELLOEDD COCH Y GWAED A PHLATENNAU

Trwy gydol 2022/23, gwnaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru fodloni'r holl alw clinigol am Gelloedd Coch y Gwaed a Phlatennau gan ein hysbytai sy'n gwsmeriaid ledled GIG Cymru. Mae hyn yn ganlyniad cyfathrebu dyddiol sefydledig rhwng y timau Casgliadau a Labordy gan alluogi ymatebion hyblyg i amrywiadau yn lefelau stoc ac anghenion gwasanaeth a gweithio'n agos gyda'n hysbytai sy'n gwsmeriaid. Er ei fod wedi gorfod dibynnu ar gymorth gan wasanaethau gwaed eraill y DU o bryd i'w gilydd, mae hefyd wedi cefnogi'r gwasanaethau hynny gyda chydgyrth ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn.






CYNNYDD YN ERBYN: TYFU EIN COFRESTR MÊR ESGYRN

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru (WBMDR) yn darparu panel o roddwyr gwirfoddol a recriwtiwyd o'r panel rhoddwyr gwaed sy'n barod i roi bôn-gelloedd i'w defnyddio fel therapi cellog. Mae rhoddwr yn mynychu sesiwn rhoddwr gwaed ac os yw rhwng 17 a 30 oed gofynnir iddo a hoffai ymuno â'r panel. Mae rhoddwyr yn aros ar y panel tan eu pen-blwydd yn 61 oed.

Ar hyn o bryd mae ein cofrestr yn cynnwys dros 71,000 o wirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio trwy sesiwn rhoi gwaed. Fodd bynnag, dim ond 3% o banel rhoddwyr y DU y mae rhoddwyr WBMDR yn ei gynrychioli, a'r targed ar gyfer recriwtio yw 4,000 y flwyddyn (5.6% o'r panel) na chyflawnwyd yn 2022/2023. Ond mae cynllun adfer recriwtio wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Dechreuodd strategaeth bum mlynedd WBMDR, sy'n ailwerthuso'r model casglu presennol a'i uchelgais, gael ei datblygu yn 2022/23.



Mae recriwtio Gwirfoddolwyr Mêr Esgyrn (BMV) presennol yn cynnwys cyfuniad o recriwtio rhoddwyr gwaed 17-30 oed mewn sesiynau rhoi gwaed a recriwtio rhoddwyr nad ydynt yn rhoddwyr gwaed gan ddefnyddio swabiau boch. Mae'r grŵp oedran hwn yn cael ei ffafrio gan fod gan roddwyr ifanc hirhoedledd fel rhoddwyr posib ac oherwydd eu bod yn darparu trawsblaniad mwy effeithiol yn glinigol. Mae recriwtio drwy sesiynau rhoddwyr gwaed yn dod yn fwyfwy anodd ei gynnal gan y bydd y strategaeth o gysoni cyflenwad gwaed â'r galw wrth symud ymlaen yn gofyn am fwy o ffocws ar roddwyr gwaed sy'n dychwelyd nad yw eu demograffig o reidrwydd yn cyd-fynd â'r grŵp oedran BMV targed.


Mae hyn wedi arwain at y gofyniad i gynyddu ein ffocws ar recriwtio gwirfoddolwyr mêr esgyrn trwy swabiau boch.

Mae 114 cofrestr yn y rhwydwaith fyd-eang, ac mae cyfanswm o bron i 41 miliwn o roddwr ar y panel byd-eang. Mae'r panel yn tyfu ~7% bob blwyddyn. Yn y DU, mae pedair cofrestr gyda chyfanswm o 2.1 miliwn o roddwyr. Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn cynrychioli 3% o'r holl roddwyr yn y DU. WBMDR sydd â'r mynegai casglu uchaf o'r 4 cofrestrfa yn y DU ac mae'n sgorio'n gyson uchel mewn mynegeion casglu ac effeithlonrwydd rhyngwladol ac adroddiadau tueddiadau fel Adroddiad Tueddiadau Byd-eang WMDA ac Adroddiad Cofrestrfa Fyd-eang y Rhaglen Rhoddwyr Mêr Genedlaethol (NMDP-USA). Mae'r WBMDR wedi pasio arolygiad yn ddiweddar gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) a Rhaglen Rhoddwyr Mêr y Byd (WMDA) ac mae'n cadw ei statws fel canolfan rhoddwyr ar gyfer yr NMDP.

CYNNYDD YN ERBYN: BODLONI CEISIADAU AM WASANAETHAU TRAWSBLANNU


Mae ein targed blynyddol ar gyfer nifer y casgliadau bôn-gelloedd y byddem yn eu rhagweld mewn unrhyw gyfnod o 12 mis wedi'i osod ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae yna nifer uchel o ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar nifer y casgliadau bôn-gelloedd a wneir mewn unrhyw fis calendr. Mae yna brawf cadarnhau cychwynnol, sydd yna'n cael ei anfon yn ôl i'r ganolfan drawsblannu sy'n gwneud penderfyniad ynghylch pa roddwr fydd yn cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer eu claf penodol. O gyfatebiaeth genetig sylfaenol ein rhoddwyr, argaeledd a pharodrwydd ein rhoddwyr i gymryd rhan a rhoi, mae lles y claf sy'n ei dderbyn, a'i lwybr triniaeth, oll yn cyfrannu at y nifer terfynol o gasgliadau a fydd yn cael eu gwneud mewn unrhyw fis calendr. Yn 2022/23, methodd Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru â chyrraedd ei tharged blynyddol. Ond yn ystod y pandemig roedd casgliadau bôn-gelloedd wedi gostwng yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y ceisiadau am gasgliadau bôn-gelloedd canolfannau trawsblannu a'r gyfradd uchel o ganslo oherwydd ffactorau yn ymwneud â chleifion yn ystod y cyfnod hwn. Yn ddiweddar (Tachwedd 2022) mae'r WBMDR wedi gweithredu darn newydd o feddalwedd sy'n darparu algorithm dewis rhoddwyr mwy modern i gofrestrfeydd allanol ac rydym eisoes yn cael nifer cynyddol o geisiadau am samplau, sydd â pherthynas uniongyrchol â cheisiadau am gynnyrch.



**CYNNYDD YN ERBYN: LLEIHAU GWASTRAFF OHERWYDD
BOD DYDDIAD DEFNYDDIO CELLOEDD COCH A
PHLATENNAU WEDI DOD I BEN**


Mae sicrhau bod y cyflenwad cydrannau gwaed, sydd â chyfnod silff cyfyngedig, yn cyd-fynd â'r galw amrywiol gan ysbysai yn amlochrog ac yn hynod gymhleth. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi gosod targed iddo'i hun, o ddim mwy nag 1% o amser defnyddio Celloedd Coch y Gwaed yn dod i ben bob mis, lle maent yn mynd y tu hwnt i'w 'cyfnod silff' o 35 diwrnod a tharged o 10% ar gyfer platenau (oes silff o 7 diwrnod).



Yn ystod 2022/23, arhosodd lefelau'r celloedd coch yr oedd eu hamser defnyddio wedi dod i ben yn gyson is na'r targed o 1%, a phriodolwyd hyn i reolaeth weithredol ac ystywyth o'r gadwyn gyflenwi.


Roedd nifer y platennau yr oedd eu hamser defnyddio wedi dod i ben yn uwch na tharged y trothwy goddefiant ar sawl achlysur yn ystod 2022/23. Roedd hyn yn bennaf oherwydd sefyllfa gref o ran stoc yn erbyn gostyngiad yn y galw. Mae'r ffocws gweithredol wedi'i anelu at ddarparu platennau yn hytrach na lleihau gwastraff yn y tymor byr. Mae adolygiad tymor hwy o'r strategaeth cynhyrchu platennau ar y gweill i leihau'r posibilrwydd o wastraff yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn ogystal â'r gwaith a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r ffactorau gweithredol, sy'n effeithio ar y cyflenwad, barhau i wella.

Platennau yr oedd eu Dyddiad Defnyddio wedi dod i ben




CYNNYDD YN ERBYN: RHODDION CYFAN O WAED CYFLAWN

Bag rhannol yw'r term a ddefnyddiwn i ddisgrifio rhodd gwaed cyflawn o lai na 420ml o waed ac nad yw felly'n ymarferol ar gyfer defnydd clinigol ac sy'n cael ei ddiystyru. Mae nifer o resymau pam y gallai fod angen stopio rhodd cyn i'r cyfaint angenrheidiol o waed gael ei gasglu. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys techneg tynnu gwaed, y rhoddwyr yn teimlo'n sâl neu fethiant yr offer. Ein targed cyfredol yw sicrhau ein bod yn casglu llai nag uchafswm o 3% o roddion gwaed bagiau rhannol ac yn ystod 2022/23, gwnaethom gyflawni'r targed hwn ar gyfer 11 allan o 12 mis. Er gwaethaf perfformiad cryf yn y maes hwn, bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i foderneiddio ein gwasanaeth ac yn ymdrechu i leihau nifer y bagiau rhannol a gesglir lle bynnag y bo modd.




CYNNYDD YN ERBYN: TYNNU GWAED YN AFLWYDDIANNUS

Mae tynnu gwaed yn aflwyddiannus yn cyfeirio at roddwyr sydd wedi cyrraedd y gadair roi ond er gwaethaf ymgais i dynnu gwaed y rhoddwr, nid oes unrhyw waed yn mynd i mewn i'r bag. Mae nifer o resymau pam y gall hyn ddigwydd. Yn aml, gallai hyn fod o ganlyniad i wythiennau rhoddwr anhygyrch, techneg tynnu gwaed gwael neu'r offer yn methu. 2% yw ein trothwy goddefiant ar hyn o bryd ar gyfer yr holl roddwyr lle cychwynnir rhoi gwaed, ond mae'r ymgais i dynnu gwaed yn methu. Roeddem yn gweithio'n gyson o fewn targed y lefelau goddefiant yn ystod 2022/23. Er gwaethaf perfformiad cryf yn y maes hwn, bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i foderneiddio ein gwasanaeth ac yn ymdrechu i leihau nifer yr achosion o dynnu gwaed yn aflwyddiannus lle bynnag y bo modd.



CYNNYDD YN ERBYN: TARGED O BROFIAD O'R RADD FLAENAF I'R RHODDWYR

Mae pwysigrwydd dysgu o adborth rhoddwyr yn parhau i fod o'r pwys mwyaf i ddatblygiad parhaus ein gwasanaethau. Yn ystod 2022/23, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi gweithio'n galed i wella systemau a phrosesau yn ymwneud â rheoli pryderon i sicrhau y caiff adborth gan roddwyr a defnyddwyr gwasanaeth ei reoli mewn modd amserol ac effeithiol, gan sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y caiff gwelliannau i'r gwasanaeth eu nodi a'u gweithredu.



RISGIAU A HERIAU

CANOLFAN GANSER FELINDRE – RISGIAU A HERIAU

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Ganser Felindre yn wynebu nifer o heriau allweddol. Mae manylion ychwanegol am sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain i'w gweld yn ein cynllun tair blynedd, ond mae'n bwysig cydnabod bod y materion hyn yn effeithio ar gynllun ein gwasanaethau a'n perfformiad.

CYNNYDD MEWN ACHOSION O GANSER

Rhagwelir y bydd nifer yr achosion canser yng Nghymru'n cynyddu 2% y flwyddyn hyd at 2031. Disgwylir i hyn arwain at amcangyfrif o 12,677 achos newydd y flwyddyn ym mhoblogaeth dalgylch Gwasanaeth Canser Felindre erbyn 2031, sef cynnydd o 35% ers 2013.

MAE CANLYNIADAU'N PARHAU I AMRYWIO LEDLED CYMRU

Er bod cyfraddau goroesi wedi gwella, mae cyfraddau goroesi rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig yn ne-ddwyrain Cymru yn parhau i amrywio'n sylweddol. Mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid i leihau annhegwch, gwella atal, gwella cyfraddau canfod yn gynt a diagnosis cynt, a gwella mynediad cleifion at driniaeth a chael triniaeth. Bydd dechrau'r Llwybr Gofal Canser Sengl yn dod â goblygiadau pwysig i gyflwyno gwasanaethau canser ledled Cymru.

MAE BWLCH RHWNG Y GALW A RAGWELIR A'R CYFLENWAD, AC MAE ANGEN I NI EI GAU

Bydd y cynnydd yn nifer yr achosion canser, cynnydd yng nghyfraddau goroesi pobl â chanser a'r cymhlethdod cynyddol mewn triniaethau'n creu pwysau sylweddol ar ein gallu i gyflwyno'r lefel ofynnol o wasanaethau yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod y system gofal iechyd yn ymateb i'r galw cynyddol a newidiol hwn er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chynnal perfformiad cyfredol.

MAE CYMHLETHDOD TRINIAETHAU'N DWYSÁU

Mae arloesi a newid clinigol a thechnolegol mewn gwasanaethau canser yn digwydd yn gyflym. Gwyddom fod datblygiadau newydd mewn radiotherapi ar y gorwel, ynghyd â meddygaeth bersonoledig. Yn yr un modd, o fewn gwasanaethau SACT, mae rhestr gynyddol o fathau o ganser y mae imiwnotherapi wedi dangos canlyniadau addawol ar eu cyfer ac, o ganlyniad, rydym yn cyflwyno mwy fyth o driniaethau imiwnotherapi. Defnyddir y triniaethau hyn yn aml yn ychwanegol at therapïau presennol neu, mewn rhai achosion, maent yn darparu opsiynau cwbl newydd i gleifion. Mae hwn yn faes cyffrous a deinamig. Rydym yn cydnabod bod defnyddio'r triniaethau newydd hyn yn cyflwyno lefelau cymhlethdod newydd ac y byddant weithiau'n cael eu cyflwyno dros gyfnodau estynedig. Rhaid inni sicrhau bod y gefnogaeth a'r isadeiledd priodol ar waith i'n galluogi i barhau i gynnig y triniaethau hyn mewn modd amserol, diogel er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cleifion.

MAE MWY BOBL YN BYW GYDA CHANSER A THU HWNT I GANSER

Wrth i driniaethau wella, mae goroesi canser yn y DU wedi dyblu dros y 40 mlynedd diwethaf. Felly, mae angen ymagwedd newydd at ofal tymor hwy i gefnogi unigolion â thriniaeth ac adsefydlu parhaus, ac i sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud y mwyaf o'u potensial a mwynhau'r ansawdd bywyd gorau oll.

Mae angen datblygu ystod ehangach o wasanaethau sy'n cefnogi unigolion ac sy'n eu helpu nhw i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas, gan gynnwys cyflogaeth, yn dilyn eu hadferiad. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnig Gwasanaethau Seicoleg Glinigol a Therapïau cadarn, o safon. Bydd hyn yn gofyn am newid yn y berthynas rhwng y claf a'r clinigwr, a bydd cleifion yn chwarae rhan gyfartal mewn dylunio a chyd-gynhyrchu gofal.

CYFLENWAD GWEITHLU



Mae goroesi canser yn y DU wedi dyblu dros y 40 mlynedd diwethaf. Felly, mae angen ymagwedd newydd at ofal tymor hwy i gefnogi unigolion â thriniaeth ac adsefydlu parhaus ac i sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud y mwyaf o'u potensial a mwynhau'r ansawdd bywyd gorau oll. Mae angen datblygu ystod ehangach o wasanaethau sy'n cefnogi unigolion ac sy'n eu helpu nhw i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas, gan gynnwys cyflogaeth, yn dilyn eu hadferiad. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnig Gwasanaethau Seicoleg Glinigol a Therapïau cadarn. Bydd hyn yn gofyn am newid yn y berthynas rhwng y claf a'r clinigwr, a bydd cleifion yn chwarae rhan gyfartal mewn dylunio a chyd-gynhyrchu gofal.

CANOLFAN GANSER FELINDRE SUT BYDDWN NI'N ATEB EIN HERIAU

Yr her...

Mae Mynychder Canser yn Cynyddu



Byddwn yn ateb hyn drwy...

- ✓ Ehangu ein rôl yn y diagnosis cynnar o ganser.
- ✓ Hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus effeithiol – gwneud i bob cyswllt gyfrif.

Mae'r Canlyniadau'n Parhau i Amrywio Ledled Cymru



- ✓ Darparu mwy o wasanaethau o ansawdd cyson mewn lleoliadau allgymorth yn nes at gartrefi cleifion.
- ✓ Darparu canolfan loeren radiotherapi, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Bwlch y mae Angen i ni ei Gau rhwng y Galw a Ragwelir a'r Cyflenwad



- ✓ Parhau i roi technegau ar waith sy'n niwtral o ran adnoddau neu sy'n sicrhau arbedion mewn manau eraill yn y broses.
- ✓ Datblygu gweithlu cadarn, hyblyg, tra medrus ac ymatebol.
- ✓ Rhesymoli llwybrau triniaeth a nodi arbedion effeithlonrwydd.

Mae triniaethau'n dod yn Fwy Cymhleth ac mae Datblygiadau Newydd yn Ymddangos yn Barhaus



- ✓ Sicrhau, mewn cydweithrediad â byrddau iechyd sy'n bartneriaid, bod digon o gapasiti o ran cyflymyddion llinol ar gael i ddarparu ar gyfer technegau newydd.
- ✓ Sganio'r gorwel yn effeithiol.

Mae Mwy o Bobl yn Byw gyda a thu hwnt i Ganser



- ✓ Sicrhau mynediad amserol i wasanaethau Seicoleg Glinigol a Therapiau cadarn o ansawdd uchel.

Cynnal panel rhoddwyr iach ac ymrwymedig:

Mae'r her o sicrhau bod gennym ddigon o roddwyr o'r grŵp cywir i ateb ein galw yn un sy'n cael ei phrofi gan wasanaethau gwaed yn fyd-eang gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mwy o deithio i wledydd lle gall rhoddwyr fod yn agored i glefyd rhoddwyr gwaed a phobl â bywydau prysur.

Cwrdd â'r galw a datblygu'r gwasanaeth:

Mae cysoni galw amrywiol ysbytai â chyflenwad cydrannau gwaed, yn enwedig y rhai ag oes sillff gyfyngedig, yn her. Mae angen data cenedlaethol am y defnydd o gydrannau gwaed i wneud rhagfynegiadau galw yn fwy cywir ac effeithiol; bydd prosiect LIMS Cymru yn alluogwr mawr ar gyfer hyn.

Mae defnydd cynyddol o imiwnotherapi a gwell cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol yn cynyddu'r galw am brofion gwaed cyfeirio arbenigol iawn a ddarperir gan labordy Imiwnohematoleg Celloedd Coch (RCI) Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r angen am y gwasanaeth hwn yn parhau i dyfu ac nid yw'n gynaliadwy o dan y trefniant comisiynu presennol sydd angen ei ddiwygio.

Disgwylir i'r galw am roddion bôn-gelloedd a gwasanaethau imiwnoleg trawsblaniadau gynyddu hefyd oherwydd deddfwriaeth cydsyniad tybiedig ledled y DU a mwy o ddefnydd o driniaethau bôn-gelloedd. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd yn archwilio'r cyfle i ehangu ei wasanaethau casglu bôn-gelloedd ar gyfer sefydliadau partner.

Parhau i fodloni canllawiau dethol gwaed a gofynion rheoliadol llym:

Mae newidiadau mewn gwyddoniaeth, technoleg a ffyrdd o weithio yn golygu bod y gwasanaeth a'r gofynion rheoliadol ar gyfer gwasanaethau gwaed yn datblygu ac yn esblygu'n barhaus. Mae Rheoliadau'r Ddyfais In vitro ddiagnostig (IVDD), newidiadau i ganllawiau'r Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau (SaBTO) ar blasma a phlatennau a monitro effaith Brexit ar bolisi rheoleiddiol y DU i gyd yn creu rhaglen waith ar unwaith ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r rhain yn ychwanegol at y newidiadau rheolaidd yng Nghanllawiau Dewis Rhoddwyr (DSGs) a chanllawiau Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Proffesiynol y DU er Gwasanaethau Trallwysyadau Gwaed a Thrawsblannu Meinweoedd (JPAC) ar gyfer y Guidelines for the Blood Transfusion Services in the United Kingdom (Red Book) (Saesneg yn unig).

Gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n newid:

Mae datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol a meddygol o darddiad a rheolaeth afiechydon, ynghyd â datblygiadau technolegol ategol ehangach, yn darparu cyfleoedd niferus i newid llifoedd gwaith gweithredol, arbedion a'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Gwaed Cymru. Mae hyn yn cynnwys Dilyniannu'r Genhedlaeth Nesaf (NGS) a Chynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMPs).

Yn ystod 2022/23, parhaodd Gwasanaeth Gwaed Cymru i 'sganio'r gorwel' a chefnogi Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddatblygu strategaethau i hwyluso mabwysiadu'r therapïau ATMP newydd hyn. Trwy Therapïau Datblygiedig Cymru, gweithiodd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn agos gyda sefydliadau GIG Cymru, y sector preifat a'r trydydd sector i wneud argymhellion ar weithgareddau wedi'u blaenoriaethu sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno menter o'r fath.

Mae technoleg awtomataidd yn esblygu'n gyflym ym maes gweithgynhyrchu a phrofi cyfansoddion gwaed ac mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn archwilio potensial y technolegau hyn gan gynnwys genoteipio celloedd coch.

Mae datblygiadau fel dadansoddi data yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial, a rhoi gweithdrefnau cyffredin gwell trwy realiti estynedig ar waith, sy'n cynyddu llif ac ansawdd, yn dileu camgymeriadau ac yn amlygu problemau'n gynt ac yn gost effeithiol. Bydd mabwysiadu'r technegau hyn yn galluogi datblygiadau pellach o ran effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau.

Y Gweithlu:

Rhaid i Wasanaeth Gwaed Cymru ymateb i'r datblygiadau hyn o ran ei weithlu ei hun ond hefyd yn ei rôl wrth hyfforddi'r gweithlu gwyddonol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer GIG Cymru trwy gynorthwyo darpariaeth ar gyfer israddedigion a'i allgymorth anffurfiol a ffurfiol i gefnogi cydweithwyr y GIG. Hefyd, mae angen ystyried llif staff gwyddonol lefel mynediad a'u dilyniant gyrfaol yn y GIG, sydd eisoes yn creu rhywfaint o bwysau yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Yn ogystal, bydd cystadleuaeth â'r sector masnachol am wyddonwyr yn cynyddu'r anawsterau recriwtio / cadw. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni ddatblygu a chynnal rolau a chyfleoedd deniadol. Mae strategaethau addysg sy'n cefnogi cynllunio dilyniant ac sy'n datblygu gweithlu sy'n hyblyg ac yn ymatebol i'r trawsnewidiad yn cael eu datblygu, yn ogystal â strategaethau addysg sy'n ategu'r gofynion am sgiliau newydd, sy'n dod i'r amlwg.

GWASANAETH GWAED CYMRU – SUT Y BYDDWN YN GOESGYN EIN HERIAU

Yr her...

Cynnal Panel Rhoddwyr Iach Ymrwymol



Byddwn yn ateb hyn drwy...

- ✓ Gweithio mewn partneriaeth â rhoddwyr i ddarparu gwasanaeth rhoddwyr wedi'i bersonoli sy'n ddarbodus, diogel a chynaliadwy i gefnogi triniaethau achub bywyd ar gyfer GIG Cymru a thu hwnt.
- ✓ Gwneud y gorau o'n cyswllt â phobl yng Nghymru drwy ddarparu gweithgareddau megis ymyriadau iechyd a lles y cyhoedd, ochr yn ochr â'n gweithgareddau ar y cyd yn ein cymunedau.

Bodloni'r Galw am Gydrannau Gwaed a Chynhyrchion Gwaed



- ✓ Darparu model cyflenwi cwbl awtomataidd sy'n cael ei arwain gan wybodaeth lle mae casglu gwaed yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion penodol y gwasanaeth iechyd.
- ✓ Arwain a gweithio o fewn cymuned iechyd gwaed GIG Cymru dan arweiniad clinigol gyda defnydd gwirioneddol ddarbodus o gydrannau a chynhyrchion gwaed.

Parhau i Gwrdd â Chanllawiau Dethol a Gofynion Rheoleiddiol Gwaed Llym



- ✓ Darparu gwasanaethau gwaed a thrawsblannu o'r radd flaenaf.
- ✓ Ymgysylltu gweithredol, cyfrannu a chydweithio â rhwydweithiau'r DU ac Ewrop i sganio'r gorwel, cynllunio a dylanwadu ar newidiadau a datblygiadau rheoleiddio.
- ✓ Cefnogi partneriaid trwy ein harbenigedd mewn Arfer Gweithgynhyrchu Da (GMP), sicrhau ansawdd, dilysu a logisteg cadwynni oer.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n Newid



- ✓ Cael ein cydnabod yn rhyngwladol am ein model gwasanaeth sy'n arwain y sector a'n harloesedd o ran ymchwil a gwyddorau bywyd.
- ✓ Gweithio ar y cyd â sectorau patholeg, genomeg, cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch (ATMP) a gwyddorau bywyd a Sefydliadau Addysg Uwch i ddarparu gwasanaethau ac arloesedd gyda'r seilwaith a'r systemau gofynnol i drosglwyddo triniaethau a thechnoleg newydd o'r fainc i erchwyn y gwely yng Nghymru gan greu swyddi sy'n gofyn am sgiliau uwch.
- ✓ Datblygu canolfan ar gyfer rhagoriaeth mewn gwyddor labordy, cefnogi datblygiad proffesiynol cydweithwyr yn y GIG ac addysgu cenhedlaeth nesaf gweithwyr

GWEITHIO I WELLA

Rydym wedi ymrwymo i reoli pryderon, a dysgu oddi wrthynt, yn unol â phroses Gweithio i Wella, neu Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011.

Yn ystod 2022/23, fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 155 o bryderon. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol (-36) ar nifer y pryderon a fynegwyd yn ystod 2021-2022. Mynegwyd 55% o'r pryderon i'r Ymddiriedolaeth trwy e-bost, derbyniwyd 33% ar lafar dros y ffôn, 6% ar lafar yn bersonol, 5% trwy lythyr, ac 1% trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymateb i'r achwynydd o fewn 30 diwrnod i dderbyn ei bryder. Mae dadansoddiad o'r ffigyrau cydymffurfio fesul chwarter wedi'i restru isod ac mae'n dangos gwelliant parhaus o ran cydymffurfedd dros y flwyddyn:

Chwarteri Ch1 – 100% Ch2 – 100%, Ch3 – *45%, Ch4 – 100%

**Oherwydd dilysu cau'r PTR o fewn ffigurau dychwelyd 30 diwrnod gan Gronfa Risg Cymru, canfuwyd anghysondeb lle'r oedd y diwrnod y derbyniwyd pryder PTR yn cael ei ddosbarthu gan yr Ymddiriedolaeth fel "diwrnod sero", pan ddylai hwn fod wedi cael ei ddosbarthu fel "diwrnod un". Mae'r canlyniad wedi golygu mai dim ond 4 o'r 9 pryder PTR sydd wedi'u cwblhau o fewn 30 diwrnod ar gyfer chwarter 3. Fodd bynnag, cwblhawyd pob un o'r 9 pryder PTR o fewn 31 diwrnod gwaith o'u derbyn. Ymdriniwyd â'r mater hwn a bydd yr holl bryderon PTR yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu fel rhai "diwrnod un" ar y dyddiad derbyn.*

Rhodddwyd gradd 1 a 2 i dros 96% o'r pryderon a godwyd, a chafodd 70% eu datrys yn llwyddiannus trwy'r broses 'datrysiaid cynnar' sy'n gynnydd o 11% o gymharu â 2021/22. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod â nifer isel o gwynion wedi'u hail-agor o lai na 6% am y flwyddyn.

Mae 8 cwyn wedi cael eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon a'u cefnogi ganddo yn ystod y flwyddyn. Mae 3 achos Ombwdsmon yn parhau i fod ar agor ar ddiwedd chwarter 4 2022/23 ac mae'r Ymddiriedolaeth yn aros am fwy o gyfathrebu gan yr Ombwdsmon.

Mae pryderon yn ymwneud â Covid wedi parhau yn gyson drwy gydol 2022/23 gyda 13 o bryderon yn cael eu hadrodd o gymharu â 12 yn ystod 2021/22. Mae'r pryderon yn ymwneud â Covid wedi ymwneud â'r effaith ar gleifion canser oherwydd oedi wrth atgyfeirio a thrin ac mewn perthynas â Gwasanaeth Gwaed Cymru, â'r nifer llai o leoliadau oedd ar gael i roi gwaed ar ôl i rai lleoliadau orfod cau yn ystod y pandemig a ddim wedi ailagor.

Roedd y prif themâu ar gyfer pryderon a godwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud ag oedi o ran apwyntiadau cleifion y Gwasanaeth Canser ac agwedd ac ymddygiad staff meddygol at gleifion mewn perthynas â diffyg cyfathrebu a gwybodaeth am opsiynau triniaeth. Nodwyd thema hefyd yn ymwneud ag asesiadau cleifion drwy'r llinell gymorth triniaeth, ac mae adolygiad llawn, cynllun gweithredu a phrosiect gwella wedi'u rhoi ar waith. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i dderbyn pryderon a godwyd gyda rhoddwyr yn cael problemau gyda chynllunio apwyntiadau neu'n cael eu troi i ffwrdd o apwyntiadau a drefnwyd oherwydd eu bod yn cyrraedd yn hwyr i roi gwaed. Mynegodd

rhoddwyr bryderon hefyd ynghylch ymarferoldeb rhoi gwaed sydd wedi arwain at nodi anghenion hyfforddi staff ac adolygu polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.

Rydym yn parhau wedi ymrwmo i annog adborth gan gleifion/gofalwyr fel y gallwn ddysgu o hyn a gwella ein gwasanaethau. Rydym wedi parhau i fireinio ein prosesau rheoli cwynion ac ymchwiliadau i bryderon hyd at ymateb ffurfiol i'r defnyddiwr gwasanaeth, gan sicrhau bod unrhyw gamau gofynnol yn cael eu cymryd yn brydlon a bod dysgu o gwynion wedi'i ymgorffori'n llawn.

DANGOSYDDION CHWARTEROL YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE 2022/23					
Chwarteri	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm y flwyddyn hyd heddiw
PRYDERON					
Datrysiad Cynnar (ER) gan yr Ymddiriedolaeth (wedi'u datrys o fewn 48 awr)					
Datrysiad Cynnar wedi'i agor	40	20	24	24	108
Gweithio i Wella (PTR) yr Ymddiriedolaeth (ffurfiol)					
PTR ar draws yr Ymddiriedolaeth wedi'i agor	13	12	9	11	45
Cydnabuwyd o fewn 48 awr	13	12	9	11	45 4
Caewyd PTR o fewn 30 diwrnod	13	12	4	11	40
Caewyd PTR ar ôl 30 diwrnod	0	0	5	0	5
Pryderon a godwyd drwy gyfathrebu yn y Gymraeg	1	0	0	1	2
Cyfanswm nifer y pryderon (PTR/ER) a dderbyniwyd bob chwarter	53	32	33	35	-
OMBWDSMON (OMBS)					
Achosion OMBS a agorwyd	0	3	0	1	4
Achosion OMBS a agorwyd	3	6	3	3	-
Achosion OMBS a gaewyd	0	0	3	1	4
Cyfanswm yr achosion Ombwdsmon a dderbyniwyd	0	3	0	1	-
GWNEUD IAWN					
Achosion gwneud iawn a agorwyd	1	0	1	2	4
Achosion gwneud iawn a agorwyd	3	4	3	4	2
Achosion gwneud iawn a gaewyd	0	0	1	0	1
Cyfanswm a agorwyd yn ystod y chwarter	1	0	1	2	-

HAWLIADAU					
Hawliadau a agorwyd	0	0	0	1	1
Hawliadau agored	8	7	6	5	3
Hawliadau a gaewyd	0	1	1	2	4
Cyfanswm a agorwyd yn ystod y chwarter	0	0	0	1	-

Gwneud iawn

Yn ystod y cyfnod adrodd, ymchwiliwyd i 7 achos gwneud iawn o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella (PTR):

- Caewyd 1 achos yn dilyn penderfyniad o atebolrwydd cymwys. Derbyniwyd iawndal ariannol, a daeth yr achos i ben ym mis Rhagfyr 2022, ar ôl cymeradwyo ad-daliad gan Gronfa Risg Cymru.
- Nid yw 1 achos wedi nodi rhwymedigaeth gymhwyso ac mae'n parhau i fod ar agor wrth aros am setlo materion ariannol.
- Mae 1 achos yn parhau ar agor ar ôl penderfynu ar atebolrwydd cymwys. Mae iawndal ariannol wedi'i gynnig ac yn aros i'w dderbyn.
- Agorwyd 4 mater Gwneud iawn newydd yn ystod y cyfnod adrodd ac maent yn parhau i gael eu hymchwilio.

Hawliadau

Drwy gydol y cyfnod adrodd, rôl yr Ymddiriedolaeth yw ymdrin â hawliadau er mwyn sicrhau datrysiad teg i bob parti. Lle mae hawliadau'n ddilys, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio setlo. Ond rydym yn amddiffyn hawliadau lle mae digon o achos dros wneud hynny.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mai 2023, ymdriniodd yr Ymddiriedolaeth â 9 hawliad i gyd, yn cynnwys Esgeulustod Clinigol ac Anaf Personol. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Derbyniwyd 1 hawliad esgeulustod clinigol newydd.
- Caewyd 4 hawliad yn dilyn setliadau y tu allan i'r llys (PI a CN).
- Mae 5 hawliad yn parhau i gael eu hymchwilio

Mae nifer yr hawliadau newydd yn erbyn yr Ymddiriedolaeth wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i leihau cyfreitha a'r costau sy'n gysylltiedig ag ef.

Ond nid yw'r gostyngiad mewn ymgyfreitha wedi bod ar draul ymagwedd lai trwyadl at ymchwiliadau, wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i ymateb i'r cyfrifoldebau a'r heriau mewn perthynas â hawliadau a newid cyfreithiol. Mae hyn wedi caniatáu hyblygrwydd

i ymateb i flaenoriaethau newydd heb effeithio'n sylweddol ar gynnydd tuag at nodau strategol yr Ymddiriedolaeth i sicrhau perthnasedd parhaus. Mae hawliadau esgeulustod yn gyfran fach iawn o'r nifer o ddigwyddiadau a chwynion a adroddir o gymharu â'r nifer o gyfnodau unigol o ofal a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth bob dydd. Mae yna lawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y rhesymau pam mae unigolion yn cyflwyno hawliad, gan gynnwys ffactorau yn y farchnad gyfreithiol. Mae yna hefyd oedi sylweddol rhwng digwyddiad yn digwydd a hawliad yn cael ei dderbyn (3.1 mlynedd ar gyfartaledd). Gall hefyd gymryd sawl blwyddyn i setlo hawliad, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â hawliadau gwerth uchel, a gall taliadau a wneir mewn perthynas â'r hawliadau hyn gymryd blynyddoedd lawer i'r dyfodol i'w setlo. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu bod yr hawliadau a symudir ymlaen yn erbyn yr Ymddiriedolaeth yn ddangosydd rhannol iawn o ddiogelwch defnyddwyr gwasanaeth yn y blynyddoedd diwethaf, a hefyd yr hyn y gallwn ddisgwyl ei dalu i setlo'r hawliadau hynny yn y dyfodol.

Mae penderfyniadau a wneir i setlo hawliadau yn erbyn yr Ymddiriedolaeth yn aml yn cael eu gwneud o ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth. Mae'r gallu i amddiffyn hawliadau yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd dogfennaeth yr Ymddiriedolaeth, ei chofnodion a'r penderfyniadau a wnaed, neu na wnaed, ar y pryd.

Lle canfyddir gwersi i'w dysgu o'r hawliadau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i chwarae ei rhan yn y gwaith o leihau cost hawliadau drwy'r camau y mae'n eu cymryd i wella safon y gofal.

Fel rhan o sicrwydd dysgu, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau (LfER) i Gronfa Risg Cymru sy'n dangos pa wersi a ddysgir. Pan fydd achos o dorri dyletswydd wedi'i nodi neu pan wneir cyfaddefiadau, mae'r tîm Ansawdd a Diogelwch yn parhau i weithio gyda chyfarwyddiaethau a gwasanaethau i nodi'r dysgu a'r camau gweithredu sydd eu hangen i fodloni meini prawf Cronfa Risg Cymru a'r ffordd y gellir gweithredu dysgu i leihau'r risg y bydd hyn yn ailddigwydd ac effaith hynny yn y dyfodol. Mae'r camau hyn yn y pen draw yn lleihau cost ymgyfreitha ac yn parhau i hyrwyddo ac annog diwylliant o ddysgu sydd o fudd i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff.

Fel rhan o ofynion Cronfa Risg Cymru, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth dalu'r £25,000 cyntaf o unrhyw hawliad. Gofynnir am ad-daliad gan Gronfa Risg Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 1 Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau i Gronfa Risg Cymru i'w gymeradwyo a chafodd ei gymeradwyo yn dilyn gohiriad ambr a chais am dystiolaeth bellach i gefnogi'r dysgu.

Fel rhan o ddysgu o hawliadau, cyflwynir Briffiau Dysgu o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Perfformiad Ansawdd a Diogelwch. Mae'r briff yn cynnwys:-

- a) Crynodeb o'r digwyddiad
- b) Yr achos sylfaenol
- c) Y dysgu allweddol
- d) Dysgu atodol
- e) Camau a gymerwyd
- f) Camau gweithredu heb eu cyflawni
- g) Adolygu a sicrwydd parhaus

Mae'r Briffiau Dysgu hyn wedi'u cynllunio i atgyfnerthu'r dysgu a'r rhannu ar draws y sefydliad ac yn rhoi gwell sicrwydd o'r camau a gymerwyd i wella ansawdd a gofal diogelwch.

Cyflwynwyd Briffiau Dysgu i'r Pwyllgor Perfformiad Ansawdd a Diogelwch yn ystod y cyfnod adrodd, gan ddangos ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth i wella safonau yn y gwasanaethau a'r gofal a ddarperir i atal digwyddiadau ailadroddus.

Mae'r ffigurau canlynol yn amcangyfrifon a ddarparwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) os bydd hawliad yn llwyddiannus. Y rhwymedigaeth ariannol amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2023 oedd:-

- £924,576
- Atebolrwydd Disgwyliedig yr Ymddiriedolaeth: £119,224

Cwestau

Ymchwiliad i amgylchiadau marwolaeth rhywun yw cwest. Pwrpas y cwest yw darganfod pwy oedd y person ymadawedig a sut, pryd a ble y bu farw er mwyn i'r farwolaeth gael ei chofrestru. I gynorthwyo staff, mae canllawiau wedi'u datblygu yn ystod y cyfnod adrodd sy'n cynnwys:

- Trosolwg o weithrediadau cwest a beth i'w ddisgwyl fel tyst
- Cyngor ar sut i ysgrifennu datganiad ar gyfer y Crwner a
- Datganiad templed diwygiedig i dystion ei ddilyn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rheolwyd 7 cwest gan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys;

- 3 hysbysiad cwest newydd. Cafodd datganiadau tyst gan glinigwyr oedd yn trin y claf eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â chopïau perthnasol o gofnodion meddygol.
- Cynhaliwyd 1 gwrandawriad cwest yn ystod y cyfnod adrodd, lle nodwyd dysgu a all helpu i wella cyfathrebu â darparwyr gofal iechyd. Mae'r achos yn parhau i fod ar agor yn destun adolygiad ar ôl gweithredu.
- Nid oedd unrhyw gwest yn destun Rheoliad 28, Adroddiad Atal Marwolaethau yn ystod y cyfnod adrodd.
- Caewyd 2 gwest yn ystod y cyfnod adrodd.
- Mae 5 cwest yn parhau ar agor ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

CYFLAWNI MEWN PARTNERIAETH

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a'r sector gwirfoddol/elusennol. Nodir ein partneriaid iechyd sylfaenol isod:

Sefydliad	Perthynas:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys	Comisiynydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Comisiynydd
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Darparwr
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Darparwr
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru	Darparwr
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	Darparwr gwasanaethau
Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW)	Darparwr gwasanaethau
Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru	Comisiynydd Arbenigol

Mae cynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru a'r newid diwylliannol sydd ei angen i leihau anghydraddoldebau iechyd, gwella iechyd a llesiant y boblogaeth a chyflawni rhagoriaeth ledled Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'n partneriaid yn y Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod ein strategaethau allweddol yn cyd-fynd, bod set glir o flaenoriaethau a rennir ac i sicrhau y gallwn ddarparu digon o gapasiti a gallu i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir o'r ansawdd uchaf.

Ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i'w dylunio mewn partneriaeth



Mae ymgysylltu effeithiol a pharhaus yn hanfodol wrth ddatblygu ein gwasanaethau ac rydym yn ymdrechu i'w gwneud mor hawdd â phosibl i gleifion a rhoddwyr rannu adborth yn dilyn eu gofal.



Mae nifer o ffyrdd yn cael eu defnyddio i wrando, trafod a dysgu am ein gwasanaethau.

Gwasanaethau Canser Felindre

Mae ein cynlluniau gwasanaeth yn ymateb i adborth gan gleifion a rhoddwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr, staff Felindre, Byrddau Iechyd, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithdai ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn parhau i gynnig teclyn sgwrsio dwyffordd cynhyrchiol gyda'n cymuned ganser ar-lein. Mae hyn yn ein helpu i wrando ac ymateb i ganmoliaeth, ymholiadau a phryderon. Gall ein Gwasanaeth Cyngor a

Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblannu

Mae'r Gwasanaeth Gwaed hefyd yn rhyngweithio bob dydd ag aelodau o'i gymuned o roddwyr. Rydym wedi ymrwmo i wrando ar ein rhoddwyr ac rydym yn gwneud hyn trwy ddsbarthu arolwg cynhwysfawr i bob rhoddwr sy'n dod i mewn i sesiwn rhoi gwaed bob mis.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu canolfan gyswllt benodol i roddwyr sy'n bodoli i hysbysu, addysgu a chynorthwyo rhoddwyr i gyfrannu at iechyd y genedl drwy roi eu gwaed, platennau neu fêr esgyrn. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgysylltu â rhoddwyr presennol a darpar roddwyr drwy ei dîm ymgysylltu â rhoddwyr. Mae'r tîm hwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg, y wefan a sgwrsiau wyneb yn wyneb i hyrwyddo rhoddion gwaed, platennau a mêt esgyrn yng Nghymru.

Mae'r adran ymgysylltu yn bresennol yng nghymunedau Cymru, gan feithrin cysylltiadau agos a phartneriaethau gyda grwpiau cymunedol, timau chwaraeon, busnesau, darparwyr addysg a grwpiau cymdeithasol eraill sydd â dylanwad yn eu hardaloedd. Mae'r tîm ymgysylltu hefyd wedi ymrwmo i fod yn bresennol yn y digwyddiadau cenedlaethol proffil uchel sy'n digwydd bob blwyddyn ledled Cymru, fel yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y GWEITHLU A LLES

Ein nodau cyffredinol ar gyfer ein gweithlu, a fynegir yn ein Strategaeth Pobl, yw:

- Datblygu **Gweithlu Medrus a Datblygedig**, y rhoddir iddynt lwybrau gyrfa clir, ac y rhoir iddynt yr arweinyddiaeth, sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r gofal sydd ei angen ar ein cleifion a'n rhoddwyr nawr ac yn y dyfodol.
- Cefnogi **Gweithlu Iach ac Ymrwymedig** lle mae lles yn allweddol, gan gydnabod a gwerthfawrogi eu hamrywiaeth mewn diwylliant dwyieithog.
- Bod â **Gweithlu wedi'i Gynllunio a'i Gynnal** gyda'r bobl iawn sydd â'r gwerthoedd, yr ymddygiad, y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder iawn i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi lles cleifion a rhoddwyr.

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

Gweithlu Medrus a Datblygedig:

- Wedi gweithio gydag AaGIC, gan gynnal darpariaeth Rhaglen Inspire Management yr Ymddiriedolaeth.
- Datblygwyd gweithgareddau dilynol ymhellach sy'n hyblyg ac yn cefnogi datblygiad 'dim ond i mi, mewn pryd'
- Datblygwyd gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu'r Ysgol Oncoleg a'r Ganolfan Dysgu
- 85% o gydymffurfiaeth â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol

Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig

- Wedi cychwyn ar brosiect 12 mis yn adnewyddu ac yn sefydlu cod gwerthoedd cadarnhaol a pherthnasol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.
- Cytunwyd ar gynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2022-23. Datblygwyd metrigau i olrhain cynnydd cynlluniau.
- Datblygwyd cynllun i sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil a Chynlluniau Gweithredu LHDTTC+ Llywodraeth Cymru
- Seilwaith Iechyd a Lles yn ei le i gefnogi lles corfforol, meddyliol ac ariannol staff

Gweithlu Cynlluniedig a Chynaliadwy

- Ymgorfforwyd ein proses cynllunio a phecyn cymorth y gweithlu ymhellach
- Adolygwyd rolau anodd eu llenwi gan sicrhau cynlluniau recriwtio a chadw cadarn
- Cafodd llwybrau hyfforddi Tîm Amlddisgyblaethol eu mapio i wneud y mwyaf o gyfleoedd i drawsnewid
- Rheolaeth a datblygiad parhaus ar Brentisiaethau a Hyfforddeion Graddedig

Edrych ymlaen at 2023/24

Wrth symud ymlaen, bydd canolbwyntio ar ofalu am ein staff yn allweddol gan gynnwys ymgysylltu parhaus a darpariaethau llesiant. Bydd gweithio gyda phartneriaid yn rhanbarthol yn allweddol i ymdrin â materion recriwtio ac yn lleol i ddatblygu a hyrwyddo'r cyfleoedd y gall gweithio i Ymddiriedolaeth arbenigol eu darparu - sydd i gyd yn canolbwyntio ar gyflawni gweledigaeth Cyflogwr o Ddewis.

TRAWSNEWID DIGIDOL

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Ddigidol newydd - 'Rhagoriaeth Ddigidol | 2023 i 2033' – i ategu strategaeth newydd yr Ymddiriedolaeth, 'Cyrchfan 2033'. Mae'n disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer sut y bydd gwasanaethau digidol yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau cleifion a rhoddwyr, galluogi mynediad ehangach drwy waith ar gynhwysiant digidol, sicrhau a diogelu ein data a sut y byddwn yn defnyddio data a gesglir o bob rhan o GIG Cymru i lywio penderfyniadau a chynllunio ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae disgwyl i'r strategaeth newydd gael ei chyhoeddi ym mis Mai 2023

Dros y 12 mis diwethaf, prif ffocws gweithgarwch Canolfan Ganser Felindre fu darparu'r Cofnod Iechyd a Gofal Digidol – rhaglen i ddisodli'r system TG bresennol 'CANISC' gyda System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) a fersiwn uwch o Borth Clinigol Cymru (WCP). Cafodd y platfform newydd ei symud yn llwyddiannus i Wasanaeth Canser Felindre ym mis Tachwedd 2022. Disgwylir i Borth Clinigol Cymru a System Gweinyddu Cleifion Cymru gael eu huwchraddio ymhellach yn ystod 2023/24, i gefnogi'n well y llifioedd gwaith clinigol a gweithredol ar draws Gwasanaeth Canser Felindre ac i wella symudedd a gwelededd data cleifion ymhellach ar draws ffiniau sefydliadol.

Yn sgil y newid digidol mawr a gyflwynwyd i Wasanaeth Gwaed Cymru, cyflwynwyd platfform cyfathrebu newydd – 'Prometheus' – i Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru (WBMDR), a aeth yn fyw ym mis Tachwedd 2022 hefyd. Disgwylir i'r gwasanaeth hwn helpu i alluogi mwy o weithgarwch drwy Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, gan sicrhau cynnydd yn y pen draw yn nifer y trawsblaniadau bôn-gelloedd i gleifion ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Mae gweithgarwch digidol arall dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Mae'r Ddesg Gwasanaeth Digidol – a sefydlwyd ym mis Mawrth 2021 – yn parhau i reoli galwadau am gymorth TG yn effeithiol. Cafodd dros 20,000 o alwadau eu datrys gan y tîm ym mlwyddyn ariannol 2022/23; o'r rheini, cafodd dros 33% eu trin ar unwaith gan y Tîm Cymorth Llinell 1^{af} ar y ddesg gymorth. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y tîm cymorth yn canolbwyntio ar wella ymatebolrwydd y Ddesg Gwasanaeth Digidol, i gynnwys elfen o awtomeiddio ar gyfer datrys problemau cyffredin – bydd hyn yn gwneud mwy i wella'r amseroedd gweithredu ar gyfer galwadau a godir gyda'r tîm.
- Uwchraddiadau i rai o'r cymwysiaid gweithredol a chlinigol allweddol ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys System Gyfrifiadurol Sefydliad Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru (BECS) a systemau Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR), Porth Clinigol Cymru a ChemoCare a ddefnyddir yng Nghanolfan Ganser Felindre.
- Darparodd tîm y Gwasanaethau Digidol system newydd ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS), i wella'r cymorth i fuddiolwyr y cynllun.

- Mae'r tîm Gwasanaethau Digidol yn parhau i chwarae rhan ganolog yn nyluniad Canolfan Ganser newydd Felindre (nVCC) – sydd i fod i agor yn 2025 – a'r Ganolfan Radiotherapi Ategol yn Nevill Hall, Y Fenni – sydd i fod i agor yn 2024. Mae digidol ar flaen y gad o ran dylunio Canolfan Ganser newydd Felindre, gyda'r bwriad o ddefnyddio amrywiaeth o atebion digidol newydd ac arloesol i wella profiad y claf a gwella amodau gwaith staff sy'n gweithio yn yr ysbyty newydd.
- Cyflwynwyd gwasanaethau ac offer seilwaith TG i gefnogi camau cyntaf rhaglen y Datrysiad Radiotherapi Integredig (IRS) - adnewyddu'r ystafelloedd radiotherapi 'LA6' yng Ngwasanaeth Canser Felindre. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio yn ystod 2023/24 i wella gwasanaethau radiotherapi a pharatoi'r sefydliad ar gyfer sefydlu'r gwasanaethau radiotherapi newydd, gwell yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre, sydd i fod i agor yn 2025, a'r Ganolfan Radiotherapi Ategol yn Nevill Hall, sydd i fod i agor yn 2024.
- Yn olaf, rydym yn parhau i ddatblygu ein systemau a gweithdrefnau seiberddiogelwch lleol ac yn cymryd rhan mewn dulliau gweithredu cenedlaethol i helpu i ddiogelu data cleifion a rhoddwyr a sicrhau gwasanaethau TG hanfodol yr Ymddiriedolaeth. Nododd archwiliad diweddar o safiad yr Ymddiriedolaeth ynghylch seiberddiogelwch, a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, fod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu darparu '**sicrwydd sylweddol**' o ran ein cynllun strategol seiberddiogelwch a'n gweithdrefnau mewnol ar gyfer adrodd a rheoli perfformiad ynghylch seiberddiogelwch.

Er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer portffolio cynyddol o wasanaethau digidol, rydym yn tyfu'r tîm Gwasanaethau Digidol, i gynnwys cyflwyno rolau newydd y bydd eu hangen arnom i ymdrin â heriau'r dyfodol o ran mabwysiadu'r cwmwl, awtomeiddio a mabwysiadu gwasanaethau Microsoft 365.

Gan edrych ymlaen at 2023/24 bydd yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu Rhaglen Ddigidol i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r agenda trawsnewid digidol ar draws yr Ymddiriedolaeth. I gefnogi ein dyheadau digidol, rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) a Chymunedau Digidol Cymru (DCW), i wella ein dull o ddylunio gwasanaethau digidol ar gyfer ein cleifion, rhoddwyr a staff. Mae cynhwysiant digidol yn thema ganolog yn y Strategaeth Ddigidol a bydd yn ffocws allweddol ar gyfer ein holl brosiectau a rhaglenni digidol dros y blynyddoedd i ddod.

STRATEGAETH CYNALIADWYEDD 2022/2023



DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL /CREU SEFYDLIAD CYNALIADWY

Ein hymagwedd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth ac i greu sefydliad cynaliadwy. Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'r rheini ar gyfer Gwasanaethau arbenigol Canser a Gwaed a Thrawsblaniadau ar gyfer 2022 – 2032 wedi'u cymeradwyo ac mae cynaliadwyedd yn greiddiol iddi. Mae'r rhain yn esbonio beth fydd 'da' yn ei olygu ymhen pum mlynedd a'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i gyflawni'r rhagoriaeth yr ydym wedi ymrwymo iddo.

Datblygwyd y strategaethau hyn yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (*y Ddeddf*) wrth i ni geisio gweithredu egwyddorion y Ddeddf yn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn dod yn ganolog i bopeth mae ein staff yn ei wneud yn ddyddiol. Bydd hyn yn cymryd amser, ond rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn trosi bwriadau ac ysbryd y Ddeddf yn fuddion diriaethol a chynaliadwy i bobl ein rhanbarth.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ganolbwyntio ar gyflawni nodau llesiant tymor hir mewn modd cynaliadwy. Er ein bod wedi gwneud cynnydd wrth ymgorffori'r Ddeddf ar draws y sefydliad, gwyddom fod yn rhaid i ni wneud llawer mwy. Mae'r Ddeddf arloesol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyfle cyffrous i Gymru arwain y ffordd yn rhyngwladol ac yn amlinellu ein nodau cynaliadwyedd ac yn yn ei gwneud yn bosibl i ni weithredu go iawn i greu newid cadarnhaol a sylweddol.



Felly, rydym yn gyffrous iawn ein bod yn gallu nodi ein taith tuag at gynaliadwyedd a'r manteision y bydd yn eu gwireddu dros y blynyddoedd nesaf. Fel sefydliad angori yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein sefydliad ein hunain a dod yn esiampl i eraill ddod i ddysgu gyda ni, ac oddi wrthym. Rydym wedi ymrwymo i roi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn ac i wneud y mwyaf o'r manteision y gallwn eu darparu i bobl ledled Cymru.

Mae'r Strategaeth Cynaliadwyedd hon wedi creu map trywydd i ni gyfrannu at ein cymunedau a lleihau ein heffaith ar y blaned wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n rhoddwyr, cleifion a gofalwyr. Dim ond os byddwn yn gwella ein seilwaith presennol, yn addysgu ac yn grymuso ein gweithlu y bydd hyn yn bosibl. Dylai fod gan bob unigolyn a thîm y gallu i weithredu'n gynaliadwy a meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i wneud penderfyniadau sy'n ystyried yr amgylchedd.

Bydd hyn yn gofyn am fwy o ffocws ar gynaliadwyedd a llesiant dros y tair blynedd nesaf wrth i ni geisio ymgorffori egwyddor Datblygu Cynaliadwy ymhellach er mwyn ei gwneud yn rhan 'normal' o bopeth a wnawn. Bydd ein taith gyfredol yn ein gweld yn

gweithredu dull newydd o gynllunio a chyflawni ar draws yr Ymddiriedolaeth a byddwn yn datblygu sefydliad sy'n wahanol, sy'n chwarae mwy o ran ar draws yr ystod o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyhoeddus. Bydd y ffordd gydweithredol hon o weithio yn ein gweld ni'n gweithio ar draws y rhanbarth gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori ym mhopeth a wnawn gyda'n gilydd a'n bod ni'n mynd ati'n weithredol i gyfrannu at y saith nod llesiant.

Bydd arweinyddiaeth yn holl bwysig i newid effeithiol. Mae ein Cadeirydd wedi ymrwmo i arwain yr Ymddiriedolaeth i weithredu fel corff enghreifftiol yn y Sector Cyhoeddus mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio ac i ymgorffori'r egwyddor gynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn fel sefydliad. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd i hwyluso sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol De-ddwyrain Cymru (ac mae'r gwaith cydweithredol rhanbarthol hwn hefyd yn arddel y Ddeddf fel egwyddor ganolog).

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i ni wneud mwy i hyrwyddo ein hagenda lles a datblygu cynaliadwy ni ac un y gymuned ehangach. O fewn ein prif gynlluniau cyfalaf yng Nghanolfan Ganser Felindre a Phrosiect Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau, rydym yn datblygu buddion cymunedol uchelgeisiol a chynhwysol. Byddwn yn ceisio esblygu partneriaethau presennol i raddau mwy o lawer, a hefyd yn datblygu perthnasoedd newydd o fewn y sector iechyd a thu hwnt er mwyn cynyddu ein cyfraniad i'r eithaf a chefnogi pobl eraill i wneud yr un peth.



Ein Nodau Llesiant:

Roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth, a gydnabyddir o dan y Ddeddf fel corff cenedlaethol, ddatblygu a chyhoeddi set o'i hamcanion llesiant ei hun.

Datblygwyd yr amcanion hyn yn dilyn ymgysylltu helaeth a'u bwriad oedd canolbwyntio ar gyfraniad yr Ymddiriedolaeth at wireddu'r nodau llesiant cenedlaethol.

Trefniadau Cyflenwi:

Mae ein hymagwedd yn seiliedig ar gefnogaeth ac arweinyddiaeth bersonol gan y Cadeirydd a'n Bwrdd. Ar lefel Weithredol, y Cyfarwyddwr Trawsnewid, Strategaeth a Digidol sy'n gyfrifol am gynaliadwyedd yn ei

portffolio ac mae'n cyflawni hyn trwy ystod o ddyletswyddau sy'n cael eu cydgyssylltu a'u harwain gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau Masnachol a Strategol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Cymunedol Cynaliadwyedd i hwyluso a chefnogi gwaith ar draws yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Rheolwr Cynaliadwyedd yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon.

Ond mae'n bwysig pwysleisio ein bod yn disgwyl i'n holl weithlu, cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth gyfrannu at y nodau llesiant ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn eu

gweithredoedd a'u hymddygiadau o ddydd i ddydd. Ystyrir bod y Ddeddf yn mabwysiadu 'ffordd o fod' yn hytrach na dim ond arddangos cydymffurfedd â safonau. Yn hyn o beth, wrth ei wraidd, mae'n cael ei ystyried yn ddatblygiad sefydliadol system gyfan ac mae pwyslais yn cael ei roi ar ymsefydlu, addysg a hyfforddiant, rheoli perthnasoedd, cyfathrebu ac iechyd a llesiant y gweithlu.

Bydd y gweithlu, a'r prosesau y maent yn eu defnyddio i weithredu, yn cael eu cefnogi a'u gwella yn y drefn honno fel eu bod: yn adlewyrchu'n glir yr hyn y mae 'tymor hir' yn ei olygu, yn nodi yr hyn sydd wrth wraidd problemau trwy safbwyntiau ar draws y system, yn cefnogi gwaith ar draws ffiniau sefydliadol i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl, yn sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio a rennir. Yn bwysig ddigon, bydd ein gweithredoedd yn cael eu fframio a'u hwyluso gan ein hymagwedd strategol.

Cynnydd yn erbyn Cyflenwi:

Mae nifer o gamau gweithredu yr ydym yn eu datblygu:

Gwneud pethau'n wahanol i sicrhau newid:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried yr egwyddor Datblygu Cynaliadwyedd wrth ddatblygu ei phrif raglenni strategol, yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre a Phrosiect Uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau a'r Ganolfan Radiotherapi Ategol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut y gall esblygu partneriaethau presennol i raddau mwy a datblygu perthnasoedd newydd o fewn y sector iechyd a thu hwnt, i gynyddu ei chyfraniad i Gymru Iachach ac i gefnogi eraill i wneud yr un peth.

Datblygu trefniadau a phrosesau craidd:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Gynaliadwyedd uchelgeisiol ac mae'n bwriadu ei defnyddio i ymgorffori'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n defnyddio'r Nodau Llesiant wrth ei gwraidd.
- Mae'r cyfrifoldeb am gyflawni'r Ddeddf ac ymgorffori'r egwyddor Datblygu Cynaliadwyedd yn rhan o'r Is-adran Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu capasiti cyfredol yn y tîm i gyflawni gofynion y Ddeddf.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried uno neu gysoni ei hamcanion Llesiant a'i nodau strategol yn well, gan sicrhau ein bod yn cyfrannu'n ystyrion at ein hamcanion penodol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu fframwaith cynllunio strategol, sy'n ceisio sicrhau bod y Ddeddf yn wirioneddol wrth wraidd yr holl waith datblygu gwasanaethau a Chynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr holl weithgaredd cynllunio ar draws yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r fframwaith hwn er mwyn sicrhau bod yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi'i hymgorffori'n llawn ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu i bob cynnig buddsoddi ddangos sut mae'n cyd-fynd â'r Ddeddf.
- Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at greu dull mwy systematig o olrhain a monitro cynnydd.

Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n nodi ffyrdd o wella sut mae'n ymgysylltu â dinasyddion, rhanddeiliaid, cleifion a rhoddwyr wrth ddatblygu ei gwasanaethau.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio posibiliadau ar gyfer cydweithredu â chyrrff iechyd eraill i ddatblygu Cymuned Ganser ranbarthol 'system gyfan' ehangach ac agenda hybu iechyd y cyhoedd.

Er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid i ni wneud llawer mwy, mae'n bwysig cydnabod cyflawniadau'r sefydliad hyd yma a'r cryfderau y gall dynnu arnynt wrth inni dyfu yn gymuned gynaliadwy gyda'n gilydd.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wrthi'n datblygu Achos Busnes uchelgeisiol i leihau ôl troed carbon safle Tonysguboriau. Un o amcanion allweddol ac uchelgeisiol y Rhaglen hon yw trosglwyddo i ôl troed carbon niwtral ar gyfer yr adeilad. Cyflawnir hyn trwy roi mwy o ffocws ar ddefnyddio technolegau adnewyddadwy, araeau ffotofoltäig solar, pypiau gwres o'r ddaear a'r aer a boeleri biomas.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod y Rhaglen TCS wedi ymgorffori gofynion y Ddeddf. Mae prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy, megis integreiddio trafndiaeth gynaliadwy i ddyluniad Canolfan Ganser newydd Felindre, ac annog defnyddio teithio cynaliadwy. Rydym wedi nodi sawl cynnig ar gyfer buddion cymunedol wrth ddylunio Canolfan Ganser newydd Felindre. Yn hyn o beth, gellir gweld nifer o gyflawniadau sylfaenol. Mae'r prosiect yn anelu at wneud y canlynol:

Rydym wedi cymhwyso, ac yn parhau i gymhwyso, yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a datblygu model gwasanaeth clinigol Rhaglen TCS a seilwaith ategol. Mae gan fodel gwasanaeth clinigol newydd y Rhaglen TCS ffocws clir ar atal ac mae cyfleoedd i addysgu cleifion a'r gymuned ehangach ynghylch ffyrdd iachach o fyw i helpu i atal canser. Mae gan fodel gwasanaeth clinigol Rhaglen TCS a'r seilwaith ategol ffocws tymor hir cryf hefyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o anghenion y presennol a'r dyfodol.

Rydym wedi gweithio mewn ffordd integredig i ddylunio a datblygu'r Rhaglen TCS a'r seilwaith ategol ac wedi ystyried sut y gall sicrhau buddion ehangach wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Rydym hefyd yn cydweithredu â sefydliadau partner ledled De-ddwyrain Cymru i ddatblygu a gwella gwasanaethau canser.

Yn ogystal, mae gennym amrywiaeth o enghreifftiau strategol a gweithredol o arfer da wrth roi'r Ddeddf ar waith. Rhennir nifer o'r rhain isod:

STRATEGAETH GYNALIADWYEDD YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd gymeradwy yn ceisio sicrhau ein bod yn cyfrannu at fyd gwell i genedlaethau'r dyfodol yn ein cymuned ac ar draws y byd, gan weithredu heddiw, ar gyfer yfory mwy cynaliadwy. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rydym yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni ynghyd â deg thema y byddwn yn canolbwyntio arnynt i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r rhain yn cael eu gyrru gan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd gyda'i gilydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth. Bydd adroddiadau sero net yr Ymddiriedolaeth ar gael ar fewnwyd yr Ymddiriedolaeth.

MAPIAU TEITHIO LLESOL A CHYNALIADWYEDD RHYNGWEITHIOL

Mae Map Teithio Llesol a Chynaliadwyedd rhyngweithiol wedi'i ddatblygu er mwyn hwyluso mynediad i ddewisiadau trafndiaeth egniol a chynaliadwy i staff. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio pobl at: hurio beiciau OVO Bikes; storfa feiciau; llwybrau bysiau lleol; gorsafoedd trenau lleol; a pharcio i'r anabl. Mae ffenestri naid ar y map yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i staff, gan gynnwys sut i gael mynediad i'r Hyb Teithio Llesol a manylion am argaeledd beiciau OVO Bikes. Yn benodol, ar gyfer Gwasanaeth Canser Felindre, bydd y map yn cynnwys gwybodaeth am sesiynau cefnogi staff a chleifion, gan gynnwys Ray of Light a Gerddi Llesiant Staff Noddfa. Yn Nhonysguboriau, mae'n tynnu sylw at y daith natur a lleoliad y cychod gwenyn. Mae'n darparu offeryn ymgysylltu i dynnu sylw staff at waith uwchraddio, er enghraifft mae arwyddion yn tynnu sylw at osod uned atgyweirio beiciau yn yr hyb Teithio Llesol.

GWELLIANNAU MEWN BIOAMRYWIAETH

Fel rhan o'n rhwymedigaethau i wella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n cynyddu fflora a ffawna lleol ar bob safle ac yn annog ac addysgu staff i wneud yr un peth yn eu gerddi. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu 'No Mow May' a 'Let it Bloom June' ac ym mhob safle rydym wedi lleihau torri gwair. Yng Ngwasanaeth Canser Felindre, fe wnaethom blannu llwyni a blodau tymhorol, dros 50 o wahanol rywogaethau o gennin Pedr, a hadau blodau gwyllt. Yn ein safle Tonysguboriau, rydym wedi cael gwared ar rywogaethau ymledol er mwyn galluogi fflora lleol i ffynnu.

ISO14001:2015 ARCHWILIAD ALLANOL

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod gofyniad i holl gyrff y GIG gael eu hachredu gan safon ISO 14001:2015, sef system rheoli amgylcheddol. Yn dilyn yr ailardystiad llwyddiannus, heb unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio ym mis Tachwedd 2021, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth yn yr archwiliad allanol ail-ddilysu ym mis Medi 2022 ac ni chafwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.




PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL GWYRDD

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i bartneru â'r elusen Ray of Light Cancer Support, sy'n darparu grŵp cymorth diogel ac anfeiriadol i gleifion, gofalwyr a theuluoedd y mae diagnosis canser wedi effeithio arnynt, wedi'i leoli yng Nghanolfan Ganser Felindre. Mae Ray of Light yn canolbwyntio eu sesiynau ar fanteision lles natur, gyda llawer o weithgareddau i ddewis ohonynt, gan gynnwys paentio, naddu, ymlacio mewn coedwigoedd a llawer mwy. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi trosi cynhwysydd llongau yng ngerddi Noddfa sydd wedi'i beintio gan artist lleol, ac yno gellir cynnal y sesiynau waeth beth fo'r tywydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i

weithio gyda Down to Earth i gyflwyno gweithdai sgiliau gwaith coed gwyrdd. Bu gwirfoddolwyr yn cynnwys cleifion, teulu, staff ac aelodau'r gymuned leol yn Felindre yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu'r tŷ crwn a'r tai biniau a gosod toeau gwyrdd, byw arnynt yn ogystal â grwpiau o amrywiaeth eang o sefydliadau ar draws de Cymru, gyda chefnogaeth tîm y Prosiect Down to Earth.

WBEEES – GOSOD CYCHOD GWENYN

Rydym wedi gosod cwch gwenyn ar safle Gwasanaeth Gwaed Cymru Tonysguboriau, ac mae gennym grŵp o wirfoddolwyr staff ymroddedig, sydd i gyd wedi cael eu hyfforddi i ofalu am y cwch gwenyn. I ddylunio'r logo ar gyfer ein jariau mêl, fe gynhalion ni gystadleuaeth ledled Cymru (ar gyfer staff a rhoddwyr!). Gwahoddwyd staff i ddewis o'r dyluniadau ar y rhestr fer, a bydd y dyluniad buddugol yn cael ei argraffu ar bob jar unwaith y bydd y mêl yn barod i'w gasglu.



LLEIHAU PLASTIG

Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n lleihau defnydd o blastig untro lle bo modd. Yn dilyn llwyddiant ein prosiect peilot, rydym wedi bod yn cyflwyno cwpanau bioddiraddadwy i bob clinig rhoddwyr ledled Cymru, gan atal bron i 150,000 o gwpanau plastig rhag mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Yn ogystal, rydym wedi rhoi'r gorau i brynu ffyn plastig i droi diodydd ar draws pob safle. Yng Ngwasanaeth Canser Felindre, mae cwpanau coffi bioddiraddadwy a chynwysyddion tecawê wedi'u cyflwyno, gan atal 98,000 o gynwysyddion plastig a 28,000 o gaeadau coffi plastig rhag mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

GWEHYDDU FELINDRE

Fe wnaeth prosiect celf 'Gwehyddu Felindre' wahodd staff i gymryd seibiant creadigol wrth ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol, trwy ddefnyddio hen wisgoedd a deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r ysbyty i wehyddu darn o waith celf sy'n dathlu hanes Canolfan Ganser Felindre. Byddai'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd wedi'u taflu, ond yn hytrach maent wedi'u haildefnyddio i greu darn o waith celf.

JAMBORÏAU CYNALIADWY

Drwy gydol mis Awst, cynhaliwyd 'Jambori Haf Cynaliadwy' yn y Ganolfan Ganser ar gyfer staff, cleifion, teuluoedd a'r gymuned leol. Cynhaliodd Tîm Cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth ynghyd â thîm prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre raglen ddigwyddiadau mis o hyd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu â staff, cleifion a'r gymuned dros yr haf. Roedd amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, yn cysylltu themâu cynaliadwyedd, llesiant a chelf. Oherwydd llwyddiant y digwyddiadau, cynhaliwyd Jamborï Hydref, ynghyd â Jamborï Gwanwyn Cynaliadwy a drefnwyd ar gyfer staff Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru, gyda themâu

bioamrywiaeth a theithio llesol. Mae'r Jamborïau ar ffurf gwyliau bach - yn ymgysylltu â chleifion, teuluoedd, staff a chymunedau trwy gelf a chrefft i ddangos manteision ymgymryd â gweithgareddau creadigol mewn man gwyrdd ac addysgu ar faterion cynaliadwyedd a bioamrywiaeth.

RHEOLIADAU'R GYMRAEG A CHYDYMFFURFEDD

Cyflwyniad:

Hwn fydd pedwerydd adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyflwyno, hyrwyddo a monitro Safonau'r Gymraeg. Mae ffocws yr Ymddiriedolaeth wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn ddiwylliannol, ac o fewn hyn rydym wedi ymrwmo i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol yr iaith fel darparwr gwasanaethau i Gleifion a Rhoddwyr.

Mae ein gwaith o ddarparu Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith 'Mwy na Geiriau...' yn parhau i fod yn sbardun i ni sicrhau cydymffurfedd, ac mae gennym bellach brosesau llywodraethu cryf i fonitro ein perfformiad.

Y llynedd roedd ein ffocws i raddau helaeth ar yr ymrwymiad i strwythurau recriwtio a gwreiddio ethos o ddealltwriaeth ddiwylliannol, ac eleni rydym yn parhau i gryfhau hyn. Mae deall anghenion ieithyddol ein gweithlu wedi ysgogi mesurau syml ond effeithiol i hyrwyddo ein gwasanaethau ac wedi agor trafodaethau gyda chleifion ynghylch cysyniad y 'cynnig rhagweithiol'.

Ein huchelgais yw sicrhau bod ein cleifion a'n rhoddwyr yn ymwybodol o'u hawliau o ran y Gymraeg ac mae ein hymateb i'r ymwybyddiaeth hon yn dod hyd yn oed yn fwy rhagweithiol; ein nod yn y pen draw yw darparu gwasanaethau dwyieithog fel mater o drefn yn hytrach nag fel ateb i gais.

Dathlu Diwylliant Cymru:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i chwilio am ffyrdd o ennyn diddordeb ei staff yn niwylliant Cymru yn ogystal â'i hiaith. Rydym yn cydnabod yr angen i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol ond ein nod yw gwneud mwy na'r hyn sydd ei angen gan fod hyn yn dathlu amrywiaeth ein staff a'n gwasanaethau.

Y flwyddyn adrodd hon rydym wedi drafftio Cynllun Diwylliannol sy'n anelu at gryfhau ein hymgysylltiad â staff ynghylch iaith a diwylliant Cymru a hyrwyddo gwerth cynhwysiant sy'n cwmpasu popeth a gredwn. Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol wedi ymgymryd â rolau sydd â chyfrifoldeb am rai agweddau ar yr agenda Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac mae hyn yn cynnwys rôl Llysgennad sy'n gyfrifol am y Gymraeg.

Nod cynllun Diwylliannol drafft yr Ymddiriedolaeth yw bod mor gynhwysol â phosibl a bydd Llysgennad y Gymraeg yn hyrwyddo ethos y cynllun hwn drwy holl waith y Bwrdd Rheoli Gweithredol.

Cipolwg ar yr uchafbwyntiau:

I gefnogi'r gwaith hwn mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi datblygu tudalen fewnrwyd benodol sy'n ategu gwaith yr Ymddiriedolaeth. Mae gan y gwasanaeth ei ofynion penodol ei hun a themlai fod angen cefnogi staff yn weledol yn ogystal â defnyddio canllawiau ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth yr adran ac yn galluogi staff i weld perthnasedd i'w gwaith o hyrwyddo a chefnogi anghenion rhoddwyr dwyieithog.



Mae Canolfan Ganser Felindre wedi cynyddu presenoldeb ei 'Chynnig Rhagweithiol'. Mae dull gweledol syml wedi rhoi cyfle i gleifion leisio eu hanghenion iaith.

Mae staff wedi sylwi bod cleifion yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg fel rhan o'r broses ofal ac mae hyn wedi sicrhau gwasanaeth dwyieithog wedi'i deilwra i'w llwybr gofal.

Mae mwy o fuddsoddiad mewn cyfieithu eto eleni yn golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi cleifion a rhoddwyr sydd angen gwasanaethau Cymraeg.

Mae gweithio mewn partneriaeth â Rheolwyr y Gymraeg eraill yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a dechrau datblygu system TG a rennir.

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg:

Strwythur llywodraethu

Rydym yn parhau i weithio gyda'n hisadrannau i sicrhau ymagwedd leol at gyflawni'r Safonau. Mae'r grwpiau is-adrannol yn adrodd yn aml i Grŵp Cymraeg yr Ymddiriedolaeth gyfan a chaiff gwybodaeth ei bwydo'n uniongyrchol i'r tîm Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Mae wedi bod yn ffordd hynod lwyddiannus o sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ac mae'n hysbysu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth am unrhyw newidiadau rheoleiddio sydd angen eu trafod ar lefel Bwrdd.

Mae Hyrwyddwr y Gymraeg ein Bwrdd yn parhau i gefnogi a herio ein cydymffurfedd â'r Gymraeg.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydliad cynnal ar gyfer Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydasanaethau GIG Cymru ac mae'r ddau yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi datblygiad safonau'r Gymraeg.

Hyfforddiant

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg ar-lein yn weithredol ac yn y flwyddyn adrodd hon mae wyth aelod staff wedi cwblhau'r cwrs Rhan 1. Llwyddwyd hefyd i sicrhau ein hail gwrs Sylfaen Cymraeg i staff ond yn affodus nid oedd yr aelodau rheng flaen a nodwyd yn gallu cwblhau'r cwrs.

Rydym yn adolygu dull o hyfforddi a byddwn yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth penodol i staff o fis Mai 2023, gan flaenoriaethu staff sy'n ateb y ffôn yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae staff hefyd wedi bod yn mynychu cwrs hyder yn y Gymraeg a gynhelir gan AaGIC a byddant yn cael cynnig y cyfle hwn eto yn dilyn ymateb cadarnhaol. Mae ymagweddau partneriaeth tuag at y cwrs hwn wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Mae'r cwrs ar-lein ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 'Mwy na geiriau...' sydd newydd ei gyflwyno wedi'i groesawu gan yr Ymddiriedolaeth ac mae staff wedi croesawu'r cwrs yn gadarnhaol.

Ers ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2022, gallwn ddangos agwedd gadarnhaol at gydymffurfio.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg - Mwy na geiriau	% y staff erbyn Chwefror 2023
Corfforaethol	50.00
Ymchwil, Datblygu ac arloesi	55.10
Trawsnewid Gwasanaethau Canser	44.44
Canolfan Ganser Felindre	40.72
Gwasanaeth Gwaed Cymru	70.48
Sefydliadau Felindre	50.85

Mae cofnodi lefelau cymhwysedd ein staff yn ESR yn sicrhau bod ein gwaith o gynllunio'r gweithlu yn ystyried anghenion ieithyddol ein gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae dros 86% o'r gweithlu yn cwblhau'r maes cymhwysedd o fewn ESR.

Enw'r Cymhwysedd	Nifer yr Aseiniadau	Angenrheidiol	Wedi'i gyflawni	% Cydymffurfedd
GIG IAITH Gwrando/Siarad Cymraeg	1571	1571	1378	87.71%
GIG IAITH Darllen Cymraeg	1571	1571	1367	87.01%
GIG IAITH Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg - 3 Blynedd	1571	1571	803	51.11%
GIG IAITH Ysgrifennu Cymraeg	1571	1571	1363	86.76%

Cynllunio'r gweithlu

Rydym yn parhau i weithio'n ddiwyd i sicrhau cydymffurfedd ledled yr Ymddiriedolaeth â safonau'r Gymraeg wrth hyrwyddo a chefnogi ethos 'Mwy na geiriau...'

Mae ein strwythur Llywodraethu wedi'i wreiddio'n llwyddiannus ac mae ein dogfen a ddefnyddir i fonitro cydymffurfedd yn dangos lefel gydymffurfio gryfach. Fel Ymddiriedolaeth rydym yn parhau i ddefnyddio hwn fel meincnod ar gyfer darparu ein gwasanaethau Cymraeg.

Fel rhan o'r gweithgaredd Cyflenwi a Llunio, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gasglu asesiad sylfaenol o'n gweithlu. Rhan o hyn yw asesu gallu presennol cydweithwyr i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried sut mae ein gweithlu yn adlewyrchu cyfartaledd y boblogaeth leol, yn ogystal ag edrych ar lefelau gallu cydweithwyr yn y dyfodol (hy, myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau a gomisiynir ar hyn o bryd). Bydd hyn yn rhoi darlun o'r bwlch posibl sy'n ein hwynebu fel sefydliad.

Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn wedyn yn rhoi camau ar waith i leihau'r bwlch hwn a bodloni ein gofynion fel y nodir yn y cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau'.

Cyfieithu

Mae ein cynnydd mewn buddsoddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu ein bod wedi gallu cynyddu ein capasiti cyfieithu. Yn 2023-24 bydd gennym dîm o dri chyfieithydd penodedig yn ogystal â defnyddio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda PCGC.

Yn 2019/20 roeddem yn cyfieithu bron i 380,000 o eiriau. Yn 2022/23 rydym wedi cyfieithu ychydig dros 1,059,053 – cynnydd o 178% yn nifer y geiriau a gyfieithwyd mewn dwy flynedd.

Swydd-disgrifiadau a recriwtio

Mae cyfieithu wedi cefnogi'r amser y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i roi i gryfhau ei hasesiad o anghenion iaith wrth recriwtio. Mae cynllunio'r gweithlu yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi ei chleifion a'i rhoddwyr a'i bod yn rhagweithiol gyda'i blaenoriaethau recriwtio.

Eleni rydym wedi canolbwyntio'n helaeth ar sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn ymwybodol o'r broses recriwtio Gymraeg, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn strwythurau i gefnogi hyn ac mae tîm y gweithlu ochr yn ochr ag adran y Gymraeg bellach wedi gwreiddio'r broses yn gadarn.

Yn 2021-22 deliodd y tîm cyfieithu â chyfieithu 24 o swydd-ddisgrifiadau. Ers buddsoddi yn y broses asesu recriwtio ar gyfer sgiliau Cymraeg, mae hyn wedi cynyddu i 219 o swydd-ddisgrifiadau hyd at ddechrau mis Mawrth 2022-23.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2022-2023

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:	
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	1
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	157
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0
Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.	5
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2022 - 31/03/2023	163

O'r data, gallwn gadarnhau mai'r un swydd a nodwyd fel un 'hanfodol' oedd swydd ffôn rheng flaen. Roedd y 'dim sgiliau yn angenrheidiol' yn ymwneud â swyddi o fewn gwasanaeth labordy clinigol heb unrhyw gyswllt â chlaf na rhoddwr.

Rhwymedigaethau cytundebol yng Nghanolfan Ganser Felindre

Mae integreiddio ein rhwymedigaethau dwyieithog ym mhopeth a wnawn yn hanfodol i 'normaleiddio' defnydd o'r iaith a dealltwriaeth o'n hymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo Safonau'r Gymraeg. Wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau rydym wedi sicrhau bod ein rhwymedigaethau yn cael eu hamlygu ym mhopeth a wnawn.

Yn y Ganolfan Ganser mae adolygiad o gytundebau lefel gwasanaeth wedi ein hannog i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried gan ein cyflenwyr yn ogystal â'n gwasanaethau mewnol. Ffordd syml ond effeithiol o sicrhau ein bod yn cydymffurfio ac yn annog trafodaethau gyda darparwyr. Mae'n amlygu ein disgwyliadau o'r darparwr ac yn cefnogi trafodaeth nas ystyriwyd o'r blaen:

Rhwymedigaethau'r Gymraeg

Mae'r Darparwr yn gwarantu ac yn ymrwmo na fydd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb mewn modd a fydd yn peri i'r Comisiynydd dorri ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, Deddf Llywodraeth Cymru 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.

Ymgynghoriadau clinigol

Adolygwyd ein cynllun ymgynghori clinigol a sefydlwyd strwythur ar gyfer asesu ei gamau gweithredu eleni. Mae'r cynllun yn amlygu'r anawsterau o ddarparu ymgynghoriadau dwyieithog i gleifion a rhoddwyr ond mae hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau dealltwriaeth glir o ba sgiliau sydd eu hangen ac ymhle. Gofynnwyd i'r grwpiau adrannol fonitro'r cynllun gweithredu a byddant yn hysbysu grŵp datblygu'r Ymddiriedolaeth am unrhyw bryderon.

Eleni mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cynnal awdit sgiliau fel y cam cyntaf i gydnabod lle mae sgiliau Cymraeg yn bodoli. Bydd yr archwiliad hwn yn llywio'r broses nesaf o ddeall sut y gallwn ffitio'r angen am sgiliau Cymraeg â rolau, yn enwedig fel rhan o'r broses casglu rhoddwyr a'r angen am gyfathrebu ieithyddol ar y rheng flaen.


Byddwn yn parhau i weithio gyda'r grwpiau is-adrannol i sicrhau bod ein cynllun yn cael ei adolygu a'i lywio gan anghenion ieithyddol ein gwasanaethau.

Yng Nghanolfan Ganser Felindre mae cryfhau'r Cynnig Rhagweithiol wedi arwain at dri chlaf yn symud drwy'r system apwyntiadau, derbyn gofal a dychwelyd am ofal, yn y Gymraeg. Mae systemau TG newydd yn eu lle ac ymrwymiad gan yr adran i'r Cynnig Rhagweithiol wedi galluogi'r adran i ymateb i anghenion penodol y cleifion.

Gwefan

Mae gwefan newydd yr Ymddiriedolaeth wedi'i hymgorffori ac ers mis Tachwedd 2022 rydym bellach yn gallu monitro diddordeb yn y Gymraeg yn ein gwybodaeth.

<p>Saesneg: https://velindre.nhs.wales/</p>	<p>Cymraeg: https://felindre.gig.cymru/</p>
<p>Tachwedd</p> <p>2.3k o ddefnyddwyr 6.9k o ymweliadau tudalennau</p> <p>Rhagfyr</p> <p>8.1k o ddefnyddwyr 24k o ymweliadau â thudalennau</p> <p>Ionawr</p> <p>9.2k o ddefnyddwyr 31k o ymweliadau â thudalennau</p> <p>Chwefror</p> <p>9.1k o ddefnyddwyr 30k o ymweliadau â thudalennau</p>	<p>Tachwedd</p> <p>15 o ddefnyddwyr 53 o ymweliadau â thudalennau</p> <p>Rhagfyr</p> <p>62 o ddefnyddwyr 210 o ymweliadau â thudalennau</p> <p>Ionawr</p> <p>69 o ddefnyddwyr 204 o ymweliadau â thudalennau</p> <p>Chwefror</p> <p>72 o ddefnyddwyr 338 o ymweliadau â thudalennau</p>



Mae'n galonogol nodi bod cynnydd o 537% wedi bod dros bedwar mis mewn ymweliadau â'r safle Cymraeg.

Cyfathrebu dros y Ffôn

Dangosyddion perfformiad ar gyfer canolfan gyswllt rhoddwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru o 1 Ionawr - 16 Mawrth 2023

Galwadau Saesneg: 9,716

Galwadau Cymraeg: 366

Tua 4% o'r galwadau sy'n alwadau Cymraeg

Nid yw galwadau i Ganolfan Ganser Felindre a phencadlys yr Ymddiriedolaeth yn cael eu mesur, ond mae camau gweithredu penodol ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol dros y ffôn wedi'u cyfathrebu. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb penodol hefyd i sicrhau bod staff yn deall eu dyletswyddau.

Hyrwyddo



Rydym yn parhau i dynnu sylw at ddigwyddiadau pwysig yn y calendr Cymraeg. Mae hyn yn golygu cyfle ychwanegol i staff ymgysylltu â diwylliant Cymru yn ogystal â'r iaith.

Eleni mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan mewn nifer o ddiwrnodau codi ymwybyddiaeth gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, diwrnod Shw'mae ac 'mae gen ti hawl'.



Mae gwybodaeth am y digwyddiadau hyn yn cydreddeg â'n cyfathrebiadau rheolaidd, lle rydym yn hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn hynod o brysur eleni gyda'r ddwy is-adran yn cymryd rhan mewn digwyddiadau. Rydym nawr yn cynnig ymagweddau dwyieithog i'n holl fideos hyrwyddo.



Eleni buom hefyd yn ddigon ffodus i arddangos ein hymrwymiad i Ddiwylliant Cymru yng Nghynhadledd HPMA (Healthcare People Management Association). Mae hwn yn ddiwyddiad proffil uchel a dathlwyd diwylliant Cymreig mewn cynhadledd diwrnod o hyd, gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn arddangos ein hymrwymiad.



Pryderon a Chwynion

Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu adborth am ei gwasanaethau. Defnyddir pryderon neu gwynion i sicrhau ein bod yn parhau i ddeall anghenion ein cleifion a rhoddwyr. Mae defnyddwyr y Gymraeg yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r iaith ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaethau hynny hyd eithaf ein gallu. Eleni rydym wedi derbyn pedair cwyn swyddogol ac un ymchwiliad ffurfiol.

Roedd yr ymchwiliad ffurfiol yn canolbwyntio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ateb y ffôn yn ddwyieithog ac i barhau â thrafodaeth yn Gymraeg.

Nid yw'r ymchwiliad wedi'i gwblhau, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhagweithiol a bydd yn darparu hyfforddiant uniongyrchol i godi hyder y rhai sy'n ateb y ffôn.

Ar y cyfan, mae nifer y pryderon a'r cwynion ynghylch darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn fach, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i fonitro ein darpariaeth yn barhaus ac eleni rydym wedi diweddarau ein polisi Pryderon i adlewyrchu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Pigion Adolygiad y Gymraeg 2022/23

Mae Uned y Gymraeg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi parhau i gefnogi is-adrannau a gwasanaethau PCGC gyda chynghor ar gydymffurfio a darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi cefnogi'r sefydliad a Sefydliadau GIG eraill gyda chymorth cyfieithu yn ystod 2022/23. Mae'r galw am wasanaethau cyfieithu yn parhau i gynyddu, ac eleni rydym wedi cyfieithu hyd yn oed mwy o eiriau nag yn 2021/22. Yn 2022/23 mae PCGC wedi cyfieithu cyfanswm o dros 5.2 miliwn o eiriau ar gyfer y sefydliadau canlynol:

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Adroddiad Atebolrwydd
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
- Gwerth mewn Gofal Iechyd
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Cydymffurfio â Safon 106A

Mae Cydwasanaethau GIG Cymru yn categoreiddio swyddi gwag neu swyddi newydd eu creu fel naill ai'r Gymraeg yn hanfodol neu'r Gymraeg yn ddymunol, ac rydym wedi cyflwyno matrices i benderfynu pa gategori sgil sydd fwyaf perthnasol i bob swydd wag.

Rydym wedi dyfeisio protocol a system lle mae'r holl hysbysebion yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar system recriwtio TRAC ac NHS Jobs yn y Gymraeg a'r Saesneg ers mis Mehefin 2022. Rydym yn adolygu'r system yn rheolaidd i nodi unrhyw faterion sy'n codi yn y broses creu hysbysebion swyddi gwag.

Taflenni Gwybodaeth Hawdd eu Deall i Gleifion

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiad llawn o daflenni hawdd eu deall presennol a thafenni newydd ac wedi sicrhau bod y cyfieithiad o'r taflenni hyn yn addas ar gyfer y gynulleidfa y'u bwriadwyd ar ei chyfer.

System Dyfarniadau Myfyrwyr

Adolygwyd yr hen system i sicrhau bod taith y defnyddiwr yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2022/23, rydym wedi comisiynu datblygwr newydd a System Dyfarniadau Myfyrwyr newydd, lle bydd y rhyngwyneb i fyfyrwyr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau am bostio, gohebiaeth a negeseuon a gynhyrchir gan y system. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023/24.

System Adrodd y Gweithlu

Mae'r wefan hon yn darparu Porth Gwe ar gyfer Data Gofal Sylfaenol sydd ar gael i staff practisiau meddygon teulu, Clystyrau a Byrddau Iechyd GIG Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid cymeradwy eraill. Mae'r wefan hon ar gael i ddefnyddwyr cofrestredig yn unig. Fodd bynnag, rydym wedi sicrhau bod y system yn ddwyieithog.

Fideo Cyhoeddus Dyletswydd Gonestrwydd

Rydym wedi cefnogi cynhyrchu fideo wedi'i animeiddio ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru am y ddyletswydd gonestrwydd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Mae'r fideo ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwrs ac Ap Ymwybyddiaeth Atal Twyll

Mae'r Cwrs Ymwybyddiaeth Atal Twyll ar gyfer Staff GIG Cymru Gyfan ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â'r cymhwysiad i Staff y GIG roi gwybod am dwyll neu amheuaeth o dwyll yn GIG Cymru.

Cwrs Ymwybyddiaeth GDPR Cymru Gyfan

Rydym wedi bod yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu Cwrs Ymwybyddiaeth GDPR Cymru Gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd hwn ar gael i'w lansio yn 2023/24.

System Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan ar gyfer Staff GIG Cymru

Mae'r fanyleb yn y broses dendro ar gyfer y system hon wedi cynnwys gofynion manwl i ryngwyneb y system ac unrhyw ohebiaeth/negeseuon ac awgrymiadau postio fod ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bydd gwaith pellach ar y system hon yn parhau yn 2023/24.

Asesiad o gydymffurfedd ar draws ein gwasanaethau

Yn dilyn ymlaen o'r pandemig, rydym wedi ailgyflwyno asesiadau lleol blynyddol ar draws ein gwasanaethau er mwyn nodi meysydd o arfer gorau, a nodi meysydd risg. Mae cynlluniau gwella a gweithredu lleol yn cael eu sefydlu er mwyn cryfhau ein harlwy o wasanaethau Cymraeg ar draws holl wasanaethau a rhaglenni PCGC.

Gellir gweld copi o Adroddiad Blynyddol llawn PCGC ar ein gwefan:

[Safonau'r Gymraeg – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#)

Symud ymlaen

Mae newid diwylliannol yn parhau i fod yn uchel ar ein rhestr blaenoriaethau. Heb ddealltwriaeth ddyfnach o'r angen am wasanaethau dwyieithog, byddwn yn parhau i wella darpariaeth nad oes iddi seiliau cadarn, gan ddibynnu'n helaeth ar barodrwydd staff cefnogol.

Mae rhaglen sefydlu'r Ymddiriedolaeth yn cael ei diweddarau a bydd unwaith eto'n cynnwys pwysigrwydd y Gymraeg, gan eistedd ochr yn ochr â meysydd eraill megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein hymrwymiad i'r meysydd hyn yr un mor bwysig i ni â'n gofynion clinigol, gan ein bod yn gwybod pa mor bwysig ydynt i'n cleifion a'n rhoddwyr. Mae cyfathrebu yn allweddol i ofal diogel.

Bydd y Cynllun Diwylliannol yn cael ei adolygu a bydd cynllun gweithredu wedi'i adnewyddu yn cael ei lunio sy'n amlygu cyfleoedd i staff ymgyfarwyddo â'r iaith a chyfleoedd i ddysgu. Byddwn hefyd yn cysylltu hyn â'r fframwaith 'Mwy na geiriau...' gan fod ein gweithredoedd yn cysylltu'n gadarnhaol â nodau'r fframwaith.

Bydd ein recriwtio a chynllunio'r gweithlu hefyd yn chwarae rhan allweddol. Mae cynllunio gyda'n hanghenion cymunedol mewn golwg, yn sicrhau ymagwedd wedi'i thargedu at recriwtio. Gyda hyn mewn golwg bydd ein proses recriwtio yn cael ei chefnogi gan fonitro cadarn i sicrhau bod y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn cael eu hamlygu'n gywir. Mae hyn yn parhau i fod yn heriol i ni, gan fod natur ein gwasanaethau yn dibynnu ar gronfa fechan o arbenigeddau clinigol ond rydym wedi ymrwymo i'r agenda hon.

CASGLIAD AC EDRYCH YMLAEN

Rydym wedi llunio ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023/24 - 2025/26 ([insert link](#)) sy'n nodi sut y byddwn yn darparu gwasanaethau o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026. Mae'n disgrifio pa wasanaethau y byddwn yn eu darparu, o ble y byddant yn cael eu darparu a sut y byddwn yn parhau i sicrhau diogelwch cleifion, rhoddwyr a staff. Mae hefyd yn amlinellu'r trefniadau sydd gennym ar waith ar gyfer rheoli ein capasiti fel y gallwn fodloni'r cynnydd disgwylidig yn y galw am ein gwasanaethau.

Heb os, bydd y tair blynedd nesaf yn cynnig her a chyfle i raddau cyfartal. Ein bwriad yw gweld yr heriau fel cyfleoedd i roi ansawdd, diogelwch a phrofiad wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chleifion, rhoddwyr a'n partneriaid iechyd a gwasanaethau cyhoeddus i ddeall, dylunio a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n wirioneddol ar yr unigolyn ac sy'n darparu'r profiad a'r canlyniadau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi fwyaf.

Atodiad - Rhestr Termau

IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
IQPD	Cyflenwi Ansawdd a Chynllunio Integredig
IPC	Atal a Rheoli Heintiau
Linac	Cyflymydd Llinol
RT	Radiotherapi
SACT	Therapi Gwrth-ganser Systemig
GCF	Canolfan Ganser Felindre
GGC	Gwasanaeth Gwaed Cymru
CCLG	Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol
nVCC	Canolfan Ganser Newydd Felindre
WCP	Porth Clinigol Cymru
WRP	Cronfa Risg Cymru
LfER	Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau
EAP	Rhaglen Gymorth i Weithwyr
TCS	Trawsnewid Gwasanaethau Canser
CDPS	Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
DCW	Cymunedau Digidol Cymru
WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WTAIL	Labordy Trawsblannu ac Imiwnogeneteg Cymru
BECS	System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed
WNCR	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
HTW	Technoleg Iechyd Cymru
ESR	Cofnod Staff Electronig

Adroddiad Atebolrwydd

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

2022-2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

CYNNWYS

Cwmpas Cyfrifoldeb	3
Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd	6
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	7
i. Adroddiad y Cyfarwyddwyr	8
ii. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	24
iii. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon	25
iv. Y Datganiad Llywodraethu	26
Adroddiad Atebolrwydd Ariannol	74
Adroddiad ar Dâl a Staff	79
Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	94
Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.....	95

CWMPAS CYFRIFOLDEB YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu gwasanaethau arbenigol i bobl Cymru. Rheolir y modd y darperir gwasanaethau'n weithredol trwy Wasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol ar gyfer De-ddwyrain Cymru gan ddefnyddio model prif ganolfan a lloerennau ac yn darparu canolfan driniaeth arbenigol, addysgu, ymchwil a datblygu ar gyfer oncoleg nad yw'n llawfeddygol. Rydym yn trin cleifion gyda chemotherapi, Triniaethau Gwrth-Ganser Systemig (SACTs), radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig, ynghyd â gofalu am gleifion ag anghenion gofal lliniarol arbenigol.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o ddarparu gofal iechyd ac yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae'n gweithio i sicrhau bod gwaed y rhoddwr yn cael ei drawsnewid yn gyfansoddion gwaed diogel ac effeithiol, sy'n caniatáu i GIG Cymru wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Rydym yn darparu gwasanaeth sgrinio cyn-geni i sawl ysbyty ac yn cynnig gwasanaethau labordai arbenigol i'r holl ysbytai sy'n gwsmeriaid i ni er mwyn cynorthwyo gydag ymchwilio i broblemau serolegol cymhleth. Mae Labordy Trawsblannu ac Imiwnogenetig Cymru yn rhan o Wasanaeth Gwaed Cymru ac yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i ddarparwyr lleol Gwasanaethau Trawsblannu Arennol a Bôn-gelloedd. Mae hefyd yn cynnal Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, sef panel cenedlaethol o roddwyr bôn-gelloedd gwaed posibl, nad ydynt yn perthyn.

Yn ystod cyfnod adrodd 2022-2023, bu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn lletya dau sefydliad hefyd, a amlinellir isod.

PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

Ar 11 Mai 2012, cyflwynwyd Rheoliadau Pwyllgor Cydwasaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012 Rhif 1261 (W.156) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a daethant i rym ar 1 Mehefin 2012. Rôl benodol PCGC yw cefnogi cyrff statudol GIG Cymru, drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Lletyir PCGC gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre trwy Gytundeb Lletya ffurfiol, wedi'i lofnodi gan bob sefydliad statudol yn GIG Cymru. Mae gan Gyfarwyddwr PCGC statws Swyddog Atebol, ac mae ganddo Ddatganiad Atebolrwydd ar wahân gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd yn Llywodraeth Cymru. Mae Cyfarwyddwr PCGC yn llunio ac yn lofnodi ei Ddatganiad Llywodraethu ei hun i gefnogi Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth wrth lofnodi Datganiad Llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

TECHNOLEG IECHYD CYMRU

Derbyniodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre arian grant i barhau i gynnal Technoleg Iechyd Cymru. Mae Technoleg Iechyd Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Effeithlonrwydd trwy Dechnoleg. Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru i hwyluso mabwysiadu technolegau iechyd clinigol a chost-effeithiol yng Nghymru yn amserol, gan weithio gyda GIG Cymru, ond yn annibynnol arno. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r holl dechnolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau. Gallai hyn fod yn ddyfeisiau meddygol, llawdriniaethau, telefonitro, therapïau seicolegol, adsefydlu neu unrhyw ymyriad iechyd nad yw'n feddyginiaeth.

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn asesu'r dystiolaeth ryngwladol orau sydd ar gael ynghylch effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd technoleg iechyd. Adolygir y dystiolaeth hon gan arbenigwyr a Phanel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru er mwyn rhoi'r dystiolaeth mewn cyd-destun Cymreig. Mae Technoleg Iechyd Cymru'n cydlynu proses Drws Ffrynt hefyd, er mwyn cefnogi datblygwyr technoleg iechyd i lywio GIG Cymru. Yn ogystal â'i swyddogaethau Drws Ffrynt ac arfarnu, mae gan Dechnoleg Iechyd Cymru rolau ym meysydd sganio'r gorwel, dadansoddi defnydd a thynnu buddsoddiad allan o dechnolegau, ac mewn rhoi cyngor i ddatblygwyr technoleg iechyd. Mae'n gwneud hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru er mwyn sicrhau nad oes unrhyw waith yn cael ei ddyblygu, a bod adnoddau asesu medrus prin yn cael eu rhannu. Mae'r Cyfarwyddwr yn llofnodi Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu i gefnogi Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth i arwyddo Datganiad Llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

CWMPAS ATEBOLRWYDD YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE (gan gynnwys SEFYDLIADAU A LETYIR)

Mae Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gyfrifol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol ar gyfer y gwasanaethau hynny a reolir yn uniongyrchol a'r rhai a reolir trwy drefniadau lletya. Fel y Swyddog Atebol, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, ynghyd â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru. Mae Cyfarwyddwyr y Sefydliadau a Letyir yn rhwym wrth Ddatganiad Cydymffurfio Llywodraethu, (neu eu Datganiad Llywodraethu eu hunain yn achos Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru), gyda Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ac yn unol â'r cytundebau lletya unigol gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi parhau i weithio'n fewnol a chyda phartneriaid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau wrth iddi symud y tu hwnt i gyfnod adfer y pandemig COVID-19. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn adrannau'r Adroddiad Atebolrwydd, ond y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo modd. Felly mae angen adolygu adrannau eraill yn Adroddiad Blynyddol ehangach Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ochr yn ochr â'r Adroddiad Atebolrwydd hwn.

Drwy gydol 2022-2023, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a GIG Cymru wedi parhau i addasu ein fframwaith llywodraethu i sicrhau ein bod yn parhau i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, gan gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o bob cam o'r pandemig COVID-19. Ceir rhagor o fanylion am sut y gwnaethom gynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod 2022-2023 yn y Datganiad Llywodraethu sydd yn yr Adroddiad Atebolrwydd hwn.

CWMPAS YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynhyrchu Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer cyfnod adrodd ariannol 2022 - 2023.

Pwrpas yr Adroddiad Atebolrwydd, sy'n rhan o gyfres o ddogfennau Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, yw adrodd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gofynion atebolrwydd allweddol.

Bydd yr Adroddiad Atebolrwydd yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan y Prif Weithredwr, Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ac mae'n cynnwys y pedair adran ganlynol:

- I. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
- II. Adroddiad Atebolrwydd Ariannol
- III. Adroddiad ar Dâl a Staff
- IV. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Pwrpas yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yw egluro cyfansoddiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'i strwythurau llywodraethu, a sut mae'r rhain yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr
- Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol
- Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon
- Y Datganiad Llywodraethu

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth am Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan gynnwys yr Aelodau Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, ac elfennau eraill o'i strwythur llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn cynnwys y datgeliadau a gofynion adrodd sy'n ofynnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â gweithrediadau busnes beunyddiol yr Ymddiriedolaeth.

Mae Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth, ac Aelodau Annibynnol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, a benodwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan y Gweinidog trwy broses penodiadau cyhoeddus agored a chystadleuol. Prif rôl y Bwrdd yw ychwanegu gwerth at y sefydliad trwy arfer arweinyddiaeth a rheolaeth gref, gan gynnwys: gosod cyfeiriad strategol y sefydliad; sefydlu a chynnal fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd y sefydliad, gan gynnwys ei gwerthoedd a'i safonau ymddygiad, a sicrhau y cyflawnir nodau ac amcanion y sefydliad trwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ar draws pob maes gweithgaredd.

CADEIRYDD AC AELODAU ANNIBYNNOL YR YMDDIRIEDOLAETH 2022-2023



Yr Athro Donna Mead, OBE,

Penodiad fel Cadeirydd:

Penodwyd yr Athro Mead yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Mai 2018.

Meysydd Arbenigedd:

Addysg Uwch, Ymchwil, y GIG ac Addysg, Partneriaethau a Chydweithio.

Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Cyngori a Fforymau

Mae'r Athro Mead yn Cadeirio Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Pwyllgor Tâl, y Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Ymgynghorol, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, y Bwrdd Partneriaeth Academiaidd a Bwrdd Rhaglen y Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi. Mae'r Athro Mead hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Pwyllgor Datblygu Strategol a'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Mae'r Athro Mead yn mynychu Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol.

Cefnogir yr Athro Mead gan chwe Aelod Annibynnol arall.



Mr. Stephen Harries, Is-Gadeirydd ac Aelod Annibynnol

Penodiad:

Penodwyd Mr Harries yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2017. Ym mis Tachwedd 2018, penodwyd Mr Harries yn Is-Gadeirydd Dros Dro yr Ymddiriedolaeth ac fe'i penodwyd yn barhaol ym mis Ebrill 2022.

Meysydd Arbenigedd:

Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mr Harries yw Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Strategol a'r Is-bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Canser. Mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Wasanaethau Digidol ac Iechyd Meddwl.



Mr. Gareth Jones, Penodiad fel Aelod

Annibynnol:

Penodwyd Mr. Jones yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Rhagfyr 2019.

Maes Arbenigedd:

Cyfreithiol.

Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae Mr. Jones yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol, Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, Is-bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Canser a Phwyllgor Archwilio PCCG.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Wybodaeth i Gleifion a'r Gymraeg.



Mrs Hilary Jones, Penodiad fel Aelod

Annibynnol:

Penodwyd Mrs Hilary Jones yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Mawrth 2020.

Maes Arbenigedd:

Ystadau a Chynllunio

Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Cynghori a Fforymau

Mae Mrs Jones yn aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, yr Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau, Bwrdd Rhaglen y Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi ac Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Canser.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Ymgysylltu â Chleifion a Phrofiad y Claf, Datblygu Cynaliadwy a Dylunio.



Mrs. Vicky Morris, Aelod Annibynnol

Penodiad:

Penodwyd Mrs Morris yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Tachwedd 2021.

Maes Arbenigedd:

Ansawdd a Diogelwch.

Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mrs. Morris yw Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, Pwyllgor Archwilio PCGC a'r Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Atal Heintiau, Gwendid a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol.



Mr. Martin Veale, Ynad Heddwch, Aelod Annibynnol

Penodiad:

Penodwyd Mr. Veale yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2017.

Maes Arbenigedd:

Cyllid, Archwilio a Llywodraethu

Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mr Veale yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, Pwyllgor Archwilio PCGC a'r Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau. Mae Mr. Veale yn aelod o'r Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Sefydliadau a Letyr a'r Fframwaith Perfformiad.



Yr Athro Andrew Westwell, Aelod Annibynnol

Penodiad:

Penodwyd yr Athro Westwell yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Awst 2021.

Maes Arbenigedd:

Cynrychiolydd y Brifysgol.

Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Grŵp Cyngori a Fforymau

Yr Athro Westwell yw Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, ac mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol, Bwrdd Rhaglen y Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi a'r Bwrdd Partneriaeth Academaidd.

Rôl Hyrwyddwr:

Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL (AELODAU'R BWRDD)



**Mr. Steve Ham, Prif Weithredwr
Swyddog Atebol**

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth,
Grŵp Cyngori a Fforymau**

Mae Mr. Ham yn aelod o Bwyllgor y Cronfeydd Elusennol ac o Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol Mae Mr Ham yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Pwyllgor Datblygu Strategol, y Fforwm Partneriaeth Lleol, y Pwyllgor Tâl, yr Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a'r Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Ymgynghorol.



**Dr. Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol
Gweithredol**

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth,
Grŵp Cyngori a Fforymau**

Dr. Abraham yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Pwyllgor Datblygu Strategol, yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Ymgynghorol.

Prif Swyddogaeth: Cyfarwyddwr Meddygol ac Ymchwil



**Mr. Matthew Bunce, Cyfarwyddwr
Gweithredol Cyllid**

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth,
Grŵp Cyngori a Fforymau**

Mae Mr. Bunce yn aelod o Bwyllgor y Cronfeydd Elusennol ac yn mynychu Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol, y Pwyllgor Datblygu Strategol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, yr Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd, Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Canser, Pwyllgor Archwilio (yr Ymddiriedolaeth), Pwyllgor Archwilio (PCGC) a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Prif Swyddogaeth: Cyllid, Cronfeydd Elusennol a Llywodraethu Gwybodaeth.



**Carl James, Cyfarwyddwr Gweithredol
Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol**

Aelodaeth o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae Mr. James yn mynychu'r Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac Is-bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

Prif Swyddogaeth: Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Digidol ac Ystadau.



**Ms. Sarah Morley, Cyfarwyddwr Gweithredol
Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu**

**Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth,
Grŵp Cyngori a Fforymau**

Mae Ms. Morley yn Gyd-Gadeirydd y Fforwm Partneriaeth Lleol ac yn mynychu'r Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Pwyllgor Tâl a'r Is-Bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

Prif Swyddogaeth: Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol



**Mrs. Nicola Williams, Cyfarwyddwr
Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr
Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor
Iechyd**

Aelodaeth o Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth:

Mrs. Williams yw Swyddog Gweithredol arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ac mae'n mynychu'r Pwyllgor Datblygu Strategol, Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol a'r Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd ac Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau Canser.

Swyddogaethau Arweiniol: Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd.

AELODAU'R TÎM GWEITHREDOL (HEB FOD YN AELODAU O'R BWRDD)



Mrs. Lauren Fear,
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a
Phennaeth Staff

Prif gynghorydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r sefydliad cyfan ar bob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, ac yn gyfrifol am sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni'r safonau llywodraethu da sydd wedi cael eu gosod ar gyfer y GIG yng Nghymru.



Mrs. Cath O'Brien, Prif Swyddog Gweithredu

Yn gyfrifol am oruchwylio a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan:

- Cyflwyno Gwasanaeth Gweithredol
- Gwella Gwasanaethau
- Arlwyo
- Rheoli/Gwella Perfformiad Is-adrannol
- Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Gwybodaeth Busnes
- Parhad Busnes
- Cynllunio at Argyfwng
- Dyfeisiau Meddygol

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Adolygiad o'i Effeithiolrwydd, Gweithgaredd y Pwyllgorau, y System Rheolaeth Fewnol a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn adran Datganiad Llywodraethu'r adroddiad hwn sy'n dechrau ar dudalen 26 ac yn **Atodiad 1** ar dudalen 60.

DATGANIAD BUDDIANT CYHOEDDUS

Mae pob Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi datgan ar bapur ei fod wedi cymryd pob cam priodol fel Cyfarwyddwr i wneud archwilyr y GIG yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol.

Mae pob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a phob Uwch-reolwr yn yr Ymddiriedolaeth (gan gynnwys Cyfarwyddwyr yr holl Sefydliadau a Letyir) wedi datgan unrhyw fuddiannau mewn cwmnïau a allai wrthdaro â'i gyfrifoldebau rheolaethol. Nid oes unrhyw fuddiannau perthnasol wedi cael eu datgan yn ystod 2022-2023. Os gofynnwch, gallwch gael copi llawn o'r buddiannau ar gyfer 2022-2023 oddi wrth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Staff.

DATGANIADAU DATGELU

Llywodraethu Gwybodaeth:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth (IG) sy'n sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni ei rhwymedigaethau Gorfodol a Statudol a safonau eraill mewn perthynas â deddfwriaeth berthnasol. Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i ddeddfwriaeth sy'n cefnogi egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Rhyddid 2012, Deddf Diogelu Data 2018 (yn cynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE 679/2016 (UK GDPR) a gedwir), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad a Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1990.

Cefnogir y ddeddfwriaeth hon gan ganllawiau anneddfwriaethol megis Cod Ymarfer Camerâu Diogelwch 2021, Egwyddorion Caldicott a'r Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 sydd ynddo'i hun yn seiliedig ar God Ymarfer Rheoli Gwybodaeth Adran 46 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

- **Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth:**

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr Ymddiriedolaeth yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am risg gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Fel Corff y GIG, mae gan yr Ymddiriedolaeth Warcheidwad Caldicott, sef Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae gan ddwy brif adran yr Ymddiriedolaeth hefyd Warcheidwad Caldicott yn gweithredu. O safbwynt Digidol, mae Prif Swyddog Digidol yr Ymddiriedolaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r SIRO, Gwarcheidwaid Caldicott a Phennaeth Llywodraethu Gwybodaeth (HoIG) yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn mabwysiadu ymagwedd gyflawn at Lywodraethu Gwybodaeth. Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yw'r HoIG.

Rôl yr HoIG yw sicrhau bod rheolaethau a mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau Gorfodol a Statudol yn ogystal â chefnogi gallu staff trwy ddarparu Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth i gydymffurfio ag egwyddorion a gweithdrefnau sylfaenol Llywodraethu Gwybodaeth.

- **Risg Gyffredinol Llywodraethu Gwybodaeth:**

Ers y Datganiad diwethaf mae risg cyffredinol wedi lleihau. Cefnogir yr asesiad risg hwn gan gwblhau Archwiliad Mewnol yn Chwarteri 3 a 4 a roddodd "sicrwydd rhesymol" yn gyffredinol gydag asesiadau yn y pedwar maes a ganlyn:

- Trin gwybodaeth sensitif – Rhesymol
- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth - Rhesymol
- Cofnodi achosion o dorri rheolau data - Sylweddol
- Llywodraethu a throsolwg - Sylweddol

Roedd y farn sicrwydd rhesymol gyffredinol yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd i'w gwella gan yr archwiliad eisoes wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mewn perthynas â thrin gwybodaeth sensitif, roedd y SIRO a'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth wedi nodi ym Mlwyddyn Ariannol (BA) 2021/22 fod diffyg Cofrestrau Asedau Gwybodaeth (IAR) ymarferol yn golygu nad oedd y modd yr ymdriniwyd â gwybodaeth sensitif mor gadarn ag y gallai fod, ac mae hyn wedi ei nodi o fewn y cynllun gwaith yn y tymor hir, ac ategwyd yr asesiad hwn gan yr archwiliad. Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru (WBS) Gofrestrau Asedau Gwybodaeth (IAR's) ar waith mewn 100% o'i feysydd gwaith. Ar hyn o bryd nid oes gan Wasanaeth Canser Felindre a'r Is-adrannau Corfforaethol Gofrestrau Asedau Gwybodaeth gweithredol yn eu maes gweithredu (0%). Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer 2022/23 a 2023/24 ill dau wedi nodi hyn fel gofyniad. O ran y llwybr i gydymffurfio, dechreuodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoli Cofnodion (a sefydlwyd o ganlyniad i'r Digwyddiad Storio Oddi Ar y Safle) gyfarfod yn Ch1 2023/24. Mae ganddo amcan trosfwaol i gychwyn gweithredu a chynnal Cofrestrau Asedau Gwybodaeth (IAR's) fel Busnes fel Arfer (BAU) a fydd yn cynnwys archwiliadau cyfnodol gan y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth erbyn diwedd Ch4 2023/24. Mae Cynllun Gweithredu Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yn nodi'r gofyniad i gyflawni cydymffurfedd erbyn diwedd Ch4 2023/24.

Darperir hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth wyneb yn wyneb (naill ai gan dimau neu wyneb yn wyneb) i'r holl staff clinigol sy'n ymuno â'r Ymddiriedolaeth. Darperir gweithdai hefyd pan fydd digwyddiad wedi digwydd i sicrhau bod unigolion a thimau yn deall eu rhwymedigaethau mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth. Derbynnir adroddiadau bob mis sy'n galluogi'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth i dargedu grwpiau ac unigolion lle mae cydymffurfedd yn isel. Roedd SIRO a'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth wedi nodi ym mlwyddyn ariannol 2021/22 y dylai pob aelod o staff dderbyn yr un hyfforddiant sefydlu. Ategwyd y dull hwn gan yr archwiliad, nododd yr archwiliad fod cydymffurfedd â'r Cofnod Staff Electronig (ESR) yn is na 75% mewn rhai meysydd ar adeg yr archwiliad. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cymryd camau i ymdrin â'r asesiad o'r archwiliad, mae gwiriad diweddar (diwedd Mai 23) wedi dangos bod y maes dan sylw wedi cynyddu cydymffurfedd o 65.38% ym mis Ebrill 2023 i 72.55%, a chyflawnwyd hyn drwy raglen hyfforddiant wedi'i thargedu a ddarparwyd gan y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth. Mae sesiynau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer Gorffennaf 2023 i gyfyngu cyfraddau cydymffurfio ymhellach.

Yn ychwanegol at weithgarwch yr archwiliad mewnol, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (Pecyn Cymorth (LIG/ IG) i fesur ei lefel o gydymffurfedd yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol. Cwblheir y pecyn cymorth yn flynyddol ac mae'n darparu tystiolaeth o'r meysydd i'w gwella a gyflawnwyd ac yn nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn cwblhau'r pecyn cymorth yn flynyddol, sy'n cael ei adolygu a'i ddiwygio gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella wedi bod yn sail i gynllun gwaith Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer 2022/23 a byddant yn parhau i fod yn sail iddo ar gyfer 2023/24.

Dangosir tystiolaeth o gynnydd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y cynllun gwaith yn yr Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth chwarterol, a gyflwynir er sicrwydd i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Cyflwynir yr adroddiad uchafbwyntiau sy'n deillio o'r adroddiad manwl i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad i'w nodi. Mae'r Aelod Annibynnol o'r Bwrdd y mae ei bortffolio'n cynnwys Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth yn derbyn copi o'r adroddiad llawn a'r adroddiad uchafbwyntiau, mae hyn yn eu galluogi i geisio sicrwydd ychwanegol pe bai angen gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a chyflwyno'r sicrwydd hwnnw i'r Bwrdd. Aseswyd bod y broses hon yn rhoi sicrwydd sylweddol i'r Bwrdd yn Archwiliad Mewnol Llywodraethu Gwybodaeth Chwefror 2023.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i brosesu data personol gan ddefnyddio'r dull "Preifatrwydd trwy Ddyluniad" wrth gaffael systemau newydd a chynnal rhai presennol lle mae data personol yn cael ei brosesu. Mae "Preifatrwydd trwy Ddyluniad" yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ystyried risg trwy ddefnyddio proses Asesu Effaith Diogelu Data gorfodol Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth. Mae'r broses yn helpu i ddadansoddi, nodi a lleihau risgiau diogelu data systemau (cofnodion electronig a llaw). Mae Erthygl 35 o GDPR y DU yn nodi bod Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer prosesu data sy'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn cynghori bod cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn arfer da wrth brosesu data personol. Nid oes rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ddileu pob risg ond dylai helpu i leihau a phenderfynu a yw lefel y risg yn dderbyniol dan yr amgylchiadau.

Yn y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023, cymeradwywyd 43 Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ac mae 16 arall ar y gweill. Mae'r DPIAs sy'n dal i fynd rhagddynt yn gysylltiedig â phrosiectau hirdymor parhaus.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i ofyn am wybodaeth a gedwir gan yr ymddiriedolaeth o dan y Broses Cais Gwrthrych am Ddata mewn perthynas â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR). Yn y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth bob chwarter fel a ganlyn:

Chwarter	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol	Canran cydymffurfedd
1	43	23	53.49%
2	58	47	81.03%
3	36	23	63.89%
4	58	54	93.10%
Cyfanswm ar gyfer BA (FY) 22/23	195	147	75.38%

Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth geisiadau am wybodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol bob chwarter fel a ganlyn:

Chwarter	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol	Canran cydymffurfedd
1	1	1	100%
2	2	2	100%
3	0	0	100%
4	0	0	100%
Cyfanswm ar gyfer BA (FY) 22/23	3	3	100%

Mewn perthynas ag ymatebion Rhyddid Gwybodaeth, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth 1 Adolygiad y gofynnwyd amdano gan aelod o'r cyhoedd. Cynhaliwyd yr Adolygiad o ganlyniad i gwŷn sawl haen yn ymwneud â phum maes penodol, mae'r meysydd a chrynodeb o ymateb yr Ymddiriedolaeth ar gyfer pob maes wedi'u mynegi:

Bu oedi o 92 diwrnod gwaith cyn ymateb

Canfu'r Adolygiad mai'r rheswm am yr oedi oedd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei chadw ar adeg y cais. Canfu'r adolygiad y gellid bod wedi trafod yr oedi gyda'r sawl oedd yn gwneud y cais yn fwy effeithiol.

Roedd y ddogfen a ddarparwyd heb ei dyddio a heb ei llofnodi

Cadarnhaodd yr Adolygiad y gwyn ynghylch dyddiad y ddogfen a chymerodd y digwyddiad fel pwynt dysgu. Ni chadarnhaodd yr Adolygiad y gwyn yn yr achos hwn oherwydd canfuwyd bod dogfennau heb eu llofnodi yn gwbl gywir mewn perthynas â'r busnes dan sylw yn yr Ymddiriedolaeth.

Roedd pob tudalen yn y ddogfen a ddarparwyd yn cynnwys y "drafft" gyda llythrennau anodd eu darllen

Canfu'r Adolygiad fod y penderfyniad gwreiddiol i rannu'r wybodaeth gyda'r ceisydd yn gywir ar ôl ystyried niwed i Fuddiant y Cyhoedd.

Gofynnodd y ceisydd am gopi o'r adroddiad terfynol, wedi'i lofnodi a'i ddyddio

Canfu'r Adolygiad fod y ddogfen wedi'i chwblhau ers hynny a rhannwyd copi gyda'r ceisydd fel rhan o'r Adolygiad.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am yr oedi o 92 diwrnod gwaith

Canfu'r Adolygiad fod yr oedi wedi'i fynegi'n ddigonol o fewn y broses Adolygu, ac ymddiheurodd yr Ymddiriedolaeth am yr oedi wrth ddarparu'r wybodaeth i'r ceisydd.

Estynnwyd yr Adolygiad i ddigwydd o fewn yr amserlen 40 diwrnod lle mae'r adolygiad yn gymhleth, a chyflawnwyd hyn yn llwyddiannus.

Ar 15 Mehefin 2022, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth hysbysiad gan yr ICO mewn perthynas â chwyn gan aelod staff o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth yr un gwyn yr un pryd gan yr un unigolyn. Roedd y gwyn yn ymwneud ag estyn terfyn amser mewn ymateb llawn i Gais Gwrthrych am Wybodaeth a wnaed gan yr aelod staff. Roedd angen yr estyniad oherwydd bod y cais yn gymhleth ac yn fawr o ran maint. Ysgrifennodd yr Ymddiriedolaeth at yr achwynydd ar sawl achlysur yn egluro'r materion iddynt a'r rhesymeg dros ymestyn yr amserlen.

Ni chadarnhawyd cwyn yr aelod o staff gan yr ICO, ac roedd canfyddiad yr ICO ar 22 Mehefin 2022 fel a ganlyn:

*“Yn yr achos hwn, rydych wedi dangos arfer da o ran eich rhwymedigaethau diogelu data a chyhyd â'ch bod wedi datrys materion **golygwyd** ni welaf fod unrhyw gamau pellach ar gyfer yr achos hwn yn angenrheidiol”.*

Mewn perthynas â Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth (SAR) a wnaed o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth y nifer canlynol o geisiadau:

Cofnodion Meddygol

Chwarter	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol	Canran cydymffurfedd
1	59	59	100%
2	34	34	100%
3	45	39	86.60%
4	45	45	100%
Cyfanswm ar gyfer BA (FY) 22/23	183	177	96.72%

Anghlinigol

Chwarter	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol	Canran cydymffurfedd
1	2	2	100%
2	1	1	100%
3	0	0	100%
4	1	0	0%
Cyfanswm ar gyfer BA (FY) 22/23	4	3	75%

Ystyrir bod y Cais Gwrthrych am Wybodaeth nad yw wedi'i gwblhau eto ar gyfer Ch4 2022/23 yn gais afresymol oherwydd y diffyg eglurder i ddiffinio'r data y gofynnwyd amdano. Mae deialog gyda'r ceisydd yn parhau.

Yn ystod 2022/23 adroddodd yr Ymddiriedolaeth am 1 achos o dorri rheolau data personol i'r ICO, a dechreuodd y toriad hwn ar 20 Chwefror 2022. Cyflwynwyd yr hysbysiad o fewn yr amserlen adrodd am dorri rheolau diogelwch o 72 awr. Roedd y toriad yr adroddwyd amdano yn ddigwyddiad difrifol a cheir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad hwn.

Yn ystod 2022/23, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n briodol â'r ICO fel rhan o'i dyletswydd i gynnal ymgynghoriad ymlaen llaw ar gyfer prosesu arfaethedig o dan Erthygl 36 GDPR y DU. Mae'r ymgynghoriad wedi bod yn ddefnyddiol o ran nodi a lliniaru risg lle gallai'r prosesu arfaethedig arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid gwrthrychau data. Yr enghraifft yn yr achos hwn oedd ystyried arfer gorau lle gallai'r Ymddiriedolaeth benderfynu gweithredu fel Prosesydd i Ymgynghorwyr o ganlyniad i ddiddymu Canolfan Trin Canser breifat sy'n gweithredu ledled y DU.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymgysylltu â'r ICO yn anffurfiol i geisio cyngor ac arweiniad priodol amserol ar faterion gweithredol, megis:

- Defnydd posibl o gamerâu a wisgir ar y corff ac offer teledu cylch cyfyng yn Ysbyty newydd Felindre a chydymffurfio â Chod Ymarfer Camerâu Gwylidwriaeth 2021
- Defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol at ddibenion codi arian, yn enwedig asesu'r ystyriaeth o Fuddiant Cyfreithlon fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu
- Safbwynt y rheolyddion ar y defnydd o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan gwmnïau sy'n ceisio gwaith contract mewn Cyrff Cyhoeddus
- Safbwynt y rheolyddion ar amllder ceisiadau gan yr un ceisydd a wnaed i'r Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Monitro gweithwyr yn y gweithle ac ystyriaethau preifatrwydd

Adroddwyd Chwefror 2022 - Adroddodd Prosesydd Data o dan gontract i'r Ymddiriedolaeth am ddifrod difrifol i safle storio dogfennau. Adroddwyd hyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 24 Chwefror 2022. Cynhaliodd y Comisiynydd Gwybodaeth ymchwiliad i'r digwyddiad o dan Erthygl 5(1)(f) y DU GDPR sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth fel Rheolydd Data sicrhau bod data personol:

“wedi'i brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol gan gynnwys amddiffyniad rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol gan ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol”

Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar weithgarwch yr Ymddiriedolaeth o ran rheoli'r contract gyda'r cyflenwr ac a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'n briodol.

Daeth yr ymchwiliad i ben ar 15 Medi 2022 a phenderfynwyd nad oedd angen cymryd camau rheoleiddio mewn perthynas â'r digwyddiad, a hynny oherwydd bod y risg o niwed clinigol i wrthrychau'r data yn isel, a bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod y safle'n briodol ar gyfer storio cofnodion drwy gynnal proses manylebau caffael. Yn y broses hon gosododd yr Ymddiriedolaeth ofynion penodol o ran y cyfleuster a'r amodau ar gyfer storio'r cofnodion.

Yn ogystal, roedd Telerau ac Amodau Cymru Gyfan (a ddiwygiwyd ar 18 Mai) ar waith sy'n nodi sut y dylid trin gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Croesawodd y Comisiynydd Gwybodaeth y camau adferol a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn sgil y digwyddiad.

Gwnaeth y Comisiynydd Gwybodaeth argymhellion clir, sef:

1. Yr Ymddiriedolaeth i ystyried faint o wybodaeth sydd ganddi ar hyn o bryd, gan gynnwys gwybodaeth a gedwir mewn storfa trydydd parti, ac asesu a yw'n dal yn angenrheidiol i'w chadw at y dibenion a fwriedir ar gyfer prosesu. Os nad oes angen y wybodaeth hon mwyach, cymryd camau gweithredol i sicrhau ei bod yn cael ei harchifo'n briodol, neu ei dinistrio'n ddiogel, a
2. Sicrhau, wrth symud ymlaen, bod pob contract storio trydydd parti yn mynd drwy broses gaffael ffurfiol; gan gynnwys ymweliad safle i sicrhau bod y cyfleuster yn briodol ac yn ddiogel at ddibenion storio.

Mewn ymateb i Argymhelliad 1, mae'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â llawer o gyrff eraill y GIG, wedi cael mandad i gadw data cleifion o ganlyniad i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig parhaus yn y DU, ond mae'n llunio achos i ddinistrio cofnodion cleifion sydd wedi marw, lle mae'r cleifion hynny wedi marw am o leiaf wyth mlynedd, a lle mae cofnodion electronig yn bodoli. Mae'r dull hwn yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion GIG Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022.

Mewn ymateb i Argymhelliad 2, mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod yr holl gaffael lle mae'n ymwneud â phrosesu data personol yn cynnwys y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth a lle bo'n briodol y cynhelir yr asesiadau risg angenrheidiol cyn dechrau prosesu.

Yn ogystal ag adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, cynhyrchir Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch y flwyddyn flaenorol i'r Bwrdd gan roi sicrwydd fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fodloni ei chyfrifoldebau Gorfodol a Statudol mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth.

Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog:

Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cynnal asesiad yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn berthnasol i sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru. Seiliwyd yr asesiad hwn ar asesiad yr Ymddiriedolaeth o lywodraethu a gyflawnwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Ebrill 2023 (a amlinellir ar Dudalen 50), a thystiolaeth archwiliadau mewnol ac allanol. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i adolygu'n barhaus a cheisio rhagoriaeth wrth sicrhau llywodraethu da. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen waith sydd ar y gweill i adolygu a chryfhau ansawdd/manylion y wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd er sicrwydd. Yn ogystal, mae pob un o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal Adolygiad Blynyddol o'i Effeithiolrwydd, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad a gwelliant parhaus gan sicrhau y cynhelir llywodraethu da. Er mwyn cefnogi llywodraethu da a chryfhau sicrwydd i'r Bwrdd, mae'r Cadeirydd hefyd wedi sefydlu Grŵp Aelodau Annibynnol sy'n cyfarfod yn fisol, y mae ei ddiben yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) brofi cadernid ac effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod lle bo'n berthnasol, yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol, ac yn cyflawni ei busnes yn agored ac mewn modd tryloyw yn unol â'r Cod. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Llywodraethu hwn, ond adroddir arnynt yn llawnach yn Adroddiad Blynyddol ehangach yr Ymddiriedolaeth. Ni adroddwyd am unrhyw wriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Cynaliadwyedd:

Mae Strategaeth yr Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2032' yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod; darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn darparu gwerth ehangach i'n cymunedau. Mae hon yn her gyffrous i ni a fydd yn gofyn i ni barhau i fynd ar drywydd rhagoriaeth yn ein gwasanaethau clinigol gan gyfrannu hefyd at gyfoeth, iechyd a ffyniant ar draws y wlad. Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd wedi creu map trywydd i ni gyfrannu at ein cymunedau a lleihau ein heffaith ar y blaned wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'n rhoddwyr, cleifion a gofalwyr. Mae gan y Strategaeth 10 thema, a dynnwyd o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent wedi'u cynllunio i gyflawni Amcanion Llesiant ein Hymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i gyflawni'r ysgogwyr deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r uchelgais hwn yn cyd-fynd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ysgogwyr deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio a chofleidio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau â'i gwaith ar fonitro ôl troed carbon yn unol â Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru, ac i wireddu'r uchelgais hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu camau gweithredu diriaethol mewn Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio manwl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau uchelgeisiol, yn strategol trwy Strategaeth Gynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth ac yn weithredol i addasu i newid hinsawdd ac ymateb i risg hinsawdd trwy ddatblygu Canolfan Loeren Radiotherapi Canolfan Ganser newydd Felindre a phrosiect uwchraddio Seilwaith Tonysguboriau. Caiff cynlluniau cyfalaf eu dylunio gan ddefnyddio data hinsawdd rhagamcanol i sicrhau bod y dyluniad yn darparu ar gyfer cynhesu byd-eang a aseswyd o fewn oes yr adeiladu. Mae'r dull hwn yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod ffabrigau a systemau a ddefnyddir i reoli cysur mewnol yn parhau i fod yn addas i'r diben. Ochr yn ochr â'r cynlluniau cyfalaf mawr hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n addysgu ein staff i ysgogi newid ymddygiad ystyrion, drwy ddigwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth. Mae Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2022/2023 a dderbyniwyd ym Mhwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad mis Gorffennaf, yn amlinellu ymhellach sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei llywio gan ei Strategaeth Gynaliadwyedd ac mae wedi parhau i fod yn uchelgeisiol gyda'i nodau strategol yn y cyd-destun hwn a bydd yn parhau i weithio i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion adrodd am Addasiadau. Bydd cynnydd yn erbyn hyn yn cael ei adrodd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

Cynllun Pensiwn y GIG:

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau'r cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn cyd-fynd â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r cyfnodau amser sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau.

CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

Mae rhestr o Gyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 01 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023 ar gael [yma](#). Er bod Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn cael eu derbyn gan Fyrddau Iechyd, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu'r rhai sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth fel y bo'n briodol yn ystod y cyfnod adrodd a cheir manylion amdanynt yn **Atodiad 3** ar Dudalen 72. Yn ychwanegol, mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu logio gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol a'u neilltuo i Arweinydd/ Arweinyddion Gweithredol i asesu'r effaith ar yr Ymddiriedolaeth, ac i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol fel sy'n briodol. Mae cofrestr a log gweithredu yn cael eu cynnal gan y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 01 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023 yr ystyrid eu bod yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth hefyd i'w gweld yn **Atodiad 3** ar Dudalen 72.

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR
FEL SWYDDOG ATEBOL
YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE**

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth y GIG/AIA (SHA). Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r crebwyll sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan:



Mr. Steve Ham
Prif Weithredwr

Dyddiad: 27/07/2023

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd Lleol Ymddiriedolaeth y GIG ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth y GIG am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd Arwyddwyd:



Mr. Stephen Harries
Cadeirydd Dros Dro

Dyddiad:
27/07/2023



Mr. Steve Ham,
Prif Weithredwr

Dyddiad:
27/07/2023



Mr. Matthew Bunce,
Cyfarwyddwr Gweithredol
Cyllid

Dyddiad:
27/07/2023

DATGANIAD LLYWODRAETHU

FFRAMWAITH LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn cynnwys manylion y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i reoli adnoddau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a'r sefydliadau y mae'n eu lletya, yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023.

Oherwydd statws unigryw Cyfarwyddwr Rheoli'r Bartneriaeth Cydwasanaethau fel Swyddog Atebol, gofynnwyd am Ddatganiad Llywodraethu ar gyfer PCGC, ac fe'i cyflwynwyd gan Gyfarwyddwr PCGC i Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth. Os gofynnwch, gallwch gael copi o'r datganiad hwn oddi wrth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Staff ac mae'r datganiad hwn yn helpu i fod yn sail i'r adroddiad hwn.

Mae Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru (yr ail gorff a letyir gan yr Ymddiriedolaeth) hefyd wedi llofnodi a chyflwyno '*Datganiad Cydymffurfedd Llywodraethu*', yn nodi ac yn datgan cydymffurfedd â threfniadau llywodraethu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae hwn wedi'i gyflwyno i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i roi sicrwydd y cydymffurfir â pholisi, systemau a phrosesau'r Ymddiriedolaeth i gefnogi llywodraethu da.

CYFLAWNI CYFRIFOLDEBAU

Sefydlwyd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i gydymffurfio â Gorchymyn (Sefydlu) Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1993 Rhif 2838 a'r Gorchymynion Diwygio dilynol (1995 Rhif. 2492, 1999 Rhif.808, 1999 Rhif 826, 2002 Rhif 442 (W.57) a 2002 Rhif 2199 (W.219 2009 Rhif 2059, 2012 Rhif 1261, 2012 Rhif 1262, 2015 Rhif 22, 2017 Rhif 912, 2018 Rhif 887). Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sydd wedi'u cyflwyno yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni nifer o swyddogaethau hyrwyddo hefyd, ac yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion hyn (y manylir arnynt ar dudalennau 8-11)

Mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy ei Bwyllgorau (a restrir yn y tabl isod) a'i gynllun dirprwyo a nodir yn ei Reolau Sefydlog.

Mae naw Pwyllgor/Fforwm Partneriaeth yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n cael eu cefnogi gan is-bwyllgorau/grwpiau i gyflawni eu swyddogaethau a amlinellir isod:

Pwyllgor, Grŵp Cyngori a Fforymau	Is-bwyllgor
Bwrdd Partneriaeth Academaidd	DDIM YN BERTHNASOL
Pwyllgor Archwilio (Ymddiriedolaeth)	DDIM YN BERTHNASOL
Pwyllgor Archwilio (Ar gyfer Pwyllgor Cydwasanaethau GIG Cymru)	DDIM YN BERTHNASOL
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau
Fforwm Partneriaeth Lleol	DDIM YN BERTHNASOL
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (ar gyfer gweithgaredd Ymchwil a Datblygu) • Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (ar gyfer cyflwyno rhaglenni) • Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cyngorol
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	DDIM YN BERTHNASOL
Pwyllgor Datblygu Strategol	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (ar gyfer gweithgaredd Strategol / Arloesi) • Is-Bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (ar gyfer gosod cyfeiriad i'r dyfodol)

Ar lefel leol, mae gan yr Ymddiriedolaeth Reolau Sefydlog y cytunwyd arnynt i reoleiddio ei gweithrediadau a'i busnes.

Mae *Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth*, wedi cael eu mabwysiadu o Reolau Sefydlog Model Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ac maen nhw wedi caei eu dylunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn *Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (1990/2024)* yn arferion gweithredu beunyddiol. Ynghyd â mabwysiadu cyfres o benderfyniadau wedi'u neilltuo i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, cynllun o faterion sy'n cael eu dirprwyo i swyddogion ac eraill, a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, mae'r Gorchmynion Sefydlog yn darparu'r fframwaith rheolaethol ar gyfer cynnal busnes yr Ymddiriedolaeth, ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau sydd wedi cael eu gosod gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn llunio'r Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd. Mae'r Rheolau Sefydlog wedi cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd i gyfrif am newidiadau yn ystod y flwyddyn; mae manylion yn ymwneud â'r adolygiadau yn cael eu hamlinellu ar dudalen 34.

Nodir y dyddiadau y cyfarfu Bwrdd a Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2022-2023 yn **Atodiad 1** ar dudalen 60.

Ers dyfodiad y pandemig, mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu a gwneud newidiadau i'w threfniadau llywodraethu yn barhaus i gwrdd â'r heriau a wynebwyd gan COVID 19. Mae'r ymateb gofynnol yn ystod pob cam o'r pandemig wedi golygu bod y sefydliad cyfan wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn yn fewnol a chyda'n staff, partneriaid a rhanddeiliaid, a bu'n rhaid adolygu'r ffordd y mae fframwaith llywodraethu a gweithredol y Bwrdd wedi'i chyflawni.

Cydnabyddir, yn yr amseroedd digynsail yn dilyn dyfodiad pandemig COVID 19, a phob un o'i gamau dilynol, fod cyfyngiadau wedi bod ar allu Byrddau a Phwyllgorau i gwrdd yn ffisegol lle nad yw hyn yn angenrheidiol ac y gellir ei gyflawni drwy ddulliau eraill. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r sefydliad gwrdd yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bu cyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus ac felly ni fu'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein Bwrdd a'n Pwyllgorau ers 24 Mawrth 2020. Er nad yw hyn yn cydymffurfio â'n Rheolau Sefydlog o ran caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ers hynny, er mwyn sicrhau bod busnes yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw ag y bo modd, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cymryd ac yn parhau i fod yn eu lle ar gyfer y cyfnod adrodd:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwahodd pawb sy'n mynychu ei Fwrdd Cyhoeddus a'i Phwyllgorau yn rheolaidd i fynychu drwy atebion technolegol.
- Mae'r cyfarfodydd yn sesiynau caeedig h.y. ni wahoddir y cyhoedd i ymuno â'r cyfarfodydd yn bersonol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Ymddiriedolaeth weithredu yn unol â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd. O fis Gorffennaf 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei chyfarfod rhithwir o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyhoeddus. Gall y cyhoedd arsylwi'r cyfarfod o'r plattfform fideo-gynadledda Zoom sydd ar gael yn eang. Sicrhawyd bod recordiad fideo o'r cyfarfodydd hefyd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth. O fis Mawrth 2021, cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae aelodau'r cyhoedd yn parhau i allu arsylwi'r cyfarfod drwy blatfform fideo-gynadledda Zoom. Mae cyfarfodydd pwyllgor wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir ar gyfer y cyfnod adrodd. Bwriedir ailddechrau anfon gwahoddiadau i'r cyhoedd ymuno â'i gyfarfodydd

Bwrdd a Phwyllgorau Cyhoeddus yn bersonol lle bo modd o fis Ebrill 2023-2024 ymlaen.

- Cyhoeddir papurau cyn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yr Ymddiriedolaeth a bydd y cofnodion yn dilyn eu cymeradwyo'n ffurfiol fel cofnod cywir yn y cyfarfod dilynol.

Ar ddechrau'r pandemig sefydlodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre strwythur Gorchymyn a Rheoli digwyddiadau penodedig. Roedd y strwythur yn darparu llwybr uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ffurfiol i hwyluso gwaith cynllunio a pharatoadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y pandemig COVID-19 byd-eang newydd ac roedd yn gyson â'r strwythur Gorchymyn a Rheoli tair haen a gydnabyddir yn genedlaethol. Sefydlwyd trefniadau effeithiol fel rhan o'r strwythur Gorchymyn a Rheoli ar gyfer sicrhau bod cofnodion penderfyniadau'n cael eu cynnal a'u hadrodd yn briodol. Er bod y strwythur hwn wedi'i dynnu'n ôl yn ffurfiol oherwydd y lleihad mewn trosglwyddiadau COVID-19, cafodd ei adolygu'n barhaus yn ystod 2022-2023 ac fe'i hadferwyd wedi hynny mewn ymateb i'r gweithredu diwydiannol yn ystod chwarter 3 a chwarter 4. Mae amllder cyfarfodydd GORCHYMYN AUR yn ystod y cyfnod hwn wedi'i asesu'n barhaus a'i ystwytho yn unol ag anghenion y gweithredu diwydiannol a'i ryngwyneb gyda GORCHMYNION ARIAN Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Canser Felindre.

GWEITHGAREDD Y PWYLLGORAU

Yn unol â Rheolau Sefydlog, mae pob Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ei waith yn ystod y flwyddyn, gan roi manylion y busnes, y gweithgareddau, presenoldeb a'r prif faterion y gwnaeth y pwyllgor ymdrin â nhw yn y flwyddyn adrodd. Mae copïau o Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2022-2023, sy'n amlinellu gweithgarwch pob un o'r Pwyllgorau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Mae pob cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad ar y prif bwyntiau hefyd, sy'n tynnu sylw at y materion a'r gweithgarwch a ystyriwyd ac y cyfeiriwyd atynt gan bob Pwyllgor yn eu cyfarfod diwethaf. Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses lle mae Pwyllgorau yn trefnu i oedi ar ddiwedd pob cyfarfod i drafod y prif faterion maen nhw'n dymuno eu codi gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy'r broses adrodd ar y prif bwyntiau o dan y penawdau canlynol:

RHYBUDD / UWCH-GYFEIRIO
RHOI CYNGOR
SICRHAU
HYSBYSU
ATODIADAU (yn ôl yr angen)

Cyflwynir Adroddiad Uchafbwyntiau pob Pwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor. Yn yr un modd, mae Adroddiad Uchafbwyntiau pob Pwyllgor ar gael ym mhapurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Gwelliant pellach i'r fframwaith llywodraethu fu sefydlu cyfarfod misol y Grŵp Aelodau Annibynnol sy'n rhoi cyfle i bob un o Gadeiryddion y Pwyllgorau ynghyd â Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff, drafod triogli gwybodaeth ar draws y strwythur Pwyllgorau a'r Ymddiriedolaeth ehangach.

Mae Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol, yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, neu'n amlach os yw'r Pwyllgor neu'r Bwrdd yn penderfynu bod angen hynny. Mae Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Mae'r prif bwyntiau a'r materion a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Bwyllgorau yn ystod 2022-2023 yn cael eu cynnwys yn **Atodiad 1** y Datganiad Llywodraethu ar **dudalen 60**.

Mae cofnodion a phapurau holl gyfarfodydd Cyhoeddus a Phwyllgorau'r Bwrdd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Yn ystod 2022-2023, roedd prif agweddau ar fusnes a materion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio er ystyriaeth a chyngor, gan gynnwys y camau a gymerwyd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cytuno ar y Cynlluniau Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer y flwyddyn.
- Derbyn Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, a monitro cynnydd wedi hynny yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Archwilio. Mae'r Cynllun Gweithredu Archwilio, sy'n tracio gweithredu argymhellion Archwiliadau, yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau monitro ac olrhain presennol ar ddechrau 2022-2023 i gryfhau'r broses hon mewn partneriaeth ag Archwilio Mewnol.
- Cytuno ar y Cynllun Atal Twyll Blynyddol a monitro gweithgareddau atal twyll.
- Gwneud adolygiad o'r Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau ac Anrhegion, Lletygarwch, Nawdd a Honoraria.
- Monitro datblygiad Adroddiad Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth.
- Monitro Trefniadau Llywodraethu ar draws y sefydliad, gan gynnwys cyrff a letyir.
- Monitro'r broses rheoli risg gyffredinol drwy adolygu Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth ymhob cyfarfod.

Ceir rhagor o fanylion am weithgarwch y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2022-2023 yn llawn ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD

Er mwyn darparu trosolwg cyfannol ac osgoi dyblygu, cyfeiriwch at yr **Adran Risg** ar Dudalen 40 y **Datganiad Llywodraethu** hwn lle mae **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** wedi'i nodi'n llawn yng nghyd-destun Fframwaith Rheoli Risg ehangach yr Ymddiriedolaeth.

YMGYSYLLTU Â'R FFRAMWAITH PARTNERIAETH LLEOL

I gefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd, a gyfarfu bum gwaith yn ystod 2022-2023, gyda Chyd-gadeiryddion a enwebir o blith cynrychiolwyr Undebau Llafur a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Rôl y Fforwm Partneriaeth Lleol yw cyflenwi'r prif fforwm (ond nid yr unig un) o fewn yr Ymddiriedolaeth, lle gall Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth a Chynrychiolwyr yr Undebau Llafur drafod gyda'i gilydd a datblygu cyfarwyddiadau ac ymatebion penodol i bob mater mawr yn ymwneud â datblygu gwasanaethau a newid rheolaeth.

Mae esiamplau o ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2022-2023 yn cael eu hamlinellu yn **Atodiad 1** ar dudalen 60.

DATBLYGIAD AC EFFEITHIOLRWYDD BWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH

Yn ystod 2022-2023 mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn chwe sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn cwmpasu nifer o feysydd allweddol gan gynnwys y canlynol:

Ebrill 2022

- Dangos a Dweud Gwasanaeth Canser Felindre
- Celfyddydau, Iechyd a Lles
- Aseiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd Integredig
- Gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 - Diweddariad ynghylch Parodrwydd
- Cyflwyniad am y Gwasanaethau Ymbelydredd
- Diweddariad am Strategaeth Ymgysylltu â Chleifion CCF: Taith Hyd Yma

Mehafin 2022

- Dylunio Sefydliadol
- Gweithio Gyda'n Gilydd - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) a'r Ymddiriedolaeth
- Ystyriaethau ynghylch Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru

- Ysgrifennu, Prosesau a Thempledi ar gyfer y Bwrdd
- Arddull ac Ymagwedd – Dull Saith Cam o Werthuso Sicrwydd
- Diweddariad y Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Hyfforddiant y Fframwaith Rheoli Risg
- Ymagwedd Canolfan Ganser newydd Felindre at Ddewis Cynigwyr

Hydref 2022

- PREVENT/Hyfforddiant Cystadleuaeth
- Arddangosfa Atal a Rheoli Heintiau a chinio gyda'r Bwrdd
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Sesiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) – Ffocws ar Hil

Tachwedd 2022

- Adnewyddu Archwaeth Risg y Bwrdd
- Adnewyddu Risgiau Strategol Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth

Rhagfyr 2022

- Achos Busnes Llawn Canolfan Ganser newydd Felindre
- Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth
- Arddangosfa Contractio a Chomisiynu Cyllid
- Dyletswydd Gonestrwydd ac Ansawdd
- Taith Recriwtio – Rolau a Chyfrifoldebau
- Adeiladu ein Dyfodol Gyda'n Gilydd

Chwefror 2023

- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Gweithdy Eiddo Deallusol
- Trafodaeth am Ganolfan Ganser newydd Felindre
- Cynllun Tymor Canolig Integredig a Llythyr y Swyddog Atebol

Yn ogystal â threfniadau Datblygu'r Bwrdd a amlinellir uchod, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi parhau i dderbyn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd a hwyluswyd yn allanol i gefnogi'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i gwrdd â'r heriau y mae'n eu hwynebu yn yr amgylchedd sy'n esblygu'n barhaus y mae'n gweithredu ynddi. Mae'r Rhaglen yn cynnwys nifer o rannau ac mae wedi ymdrin â'r meysydd datblygu allweddol a ganlyn (*er heb fod yn gyfyngedig iddynt*):

- Adeiladu tîm arwain sy'n perfformio'n dda.
- Galluoedd gwneud penderfyniadau strategol a blaenoriaethu.
- Meithrin capasiti a gallu sefydliadol gan gynnwys datblygu cnewyllyn o uwch reolwyr hynod effeithiol sy'n canolbwyntio ar fusnes.
- Meysydd heriol o arddulliau ac ymddygiad sy'n gwrthdaro.
- Datblygu strategaethau clir ar gyfer harneisio gwahaniaethau unigol i alluogi'r Tîm Gweithredol i weithio fel cyfanwaith cydlynol.

- Dealltwriaeth well o ddeinameg sefydliadol er mwyn gwella gweithio drwy fatrics ac ymgorffori'r gallu i reoli newid ar draws sefydliad amrywiol a gwasgaredig.

Mae ymweliadau Aelodau Gweithredol ac Annibynnol ('proses Her 15 Cam') â'n staff hefyd wedi aildechrau wrth i gyfyngiadau COVID-19 leddfu er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwaith amlochrog a wneir gan ein staff ar draws yr Ymddiriedolaeth, a hefyd deall yn well y gwahanol fathau o bwysau a wynebwr yn ddyddiol. Roedd yr Ymddiriedolaeth i fod i ddechrau treialu'r defnydd o'r 'proses Her 15 Cam' ym mis Mawrth 2020, ond cafodd y cynllun peilot ei ohirio i ddechrau oherwydd y pandemig.

Mae'r broses a ddatblygwyd yn seiliedig ar broses Her 15 Cam GIG Lloegr a ddyluniwyd yn 2017 ar gyfer lleoliadau cleifion allanol a chlinigau a'r bwriad yw ei defnyddio fel fframwaith gan ddefnyddio methodoleg gwella Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (PDSA) o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Canser Felindre.

RHEOLAU SEFYDLOG A CHYFARWYDDIADAU ARIANNOL SEFYDLOG

Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth set ddiwygiedig o Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes i sicrhau bod y materion a ganlyn yn cael sylw:

- **Ionawr 2023** – Diwygiadau i Reolau Sefydlog Atodlen 3.0 yr Ymddiriedolaeth, yn deillio o'r Adolygiad Blynyddol o'r Cylch Gorchwyl a'r Trefniadau Gweithredu mewn perthynas â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.
- **Chwefror 2023** – Diwygiad i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth (drwy Gamau Brys Cadeiryddion) *ynghylch* aelodaeth ddiwygiedig Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn unol â [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltiad\) \(Cymru\)](#) i gynnwys un Cyfarwyddwr Gweithredol ychwanegol.

PENODIADAU I FWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH YN YSTOD 2022 - 2023

Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y penodiadau/ailbenodiadau canlynol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2022-2023:

Aelodau Annibynnol

- Penodwyd Mr Stephen Harries yn Aelod Annibynnol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2017. Ym mis Tachwedd 2018, penodwyd Mr Harries yn Is-Gadeirydd Dros Dro yr Ymddiriedolaeth ac fe'i penodwyd yn barhaol ym mis Ebrill 2022.

Aelodau o'r Tîm Gweithredol

- Ym mis Chwefror 2023, diwygiwyd portffolio'r Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol i fod yn bortffolio Cyfarwyddwr Gweithredol, yn dilyn aelodaeth ddiwygiedig o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), i gynnwys yr Is-Gadeirydd ac un Cyfarwyddwr Gweithredol ychwanegol.

Nid oedd unrhyw leoedd gwag yn aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2022-2023, felly nid oedd unrhyw effaith andwyol ar gydbwysedd y Bwrdd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd.

Ceir rhagor o fanylion am benodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Adroddiad ar Dâl yr Ymddiriedolaeth ar **dudalen 84**.

PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu ehangach a osodwyd ar gyfer GIG Cymru, a'i bod yn ymgorffori'r safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer GIG Cymru (fel y'u diffinnir yn yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru), ynghyd â'i fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad.

Dangosir crynodeb cyffredinol o Fframwaith Atebolrwydd a Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth isod:

Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth

Statudol, Cyhoeddus					
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth					
Pwyllgorau					
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (Deufisol)	Pwyllgor Datblygu Strategol (Deufisol)	Pwyllgor Archwilio (Chwarterol)	Pwyllgor Archwilio (PCGC) (Chwarterol)	Pwyllgor Tâl (Deufisol)	Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol (Chwarterol)
Trefniadau Comisiynu Cydymffurfedd a Safonau Rheoli Risg Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth Cynllun Blymyddol/Monitro'r Cynllun Tymor Canolog Integredig Gwraido a Dysgu Gweithlu Cyflenwi Digidol	Strategaeth ar gyfer Comisiynu Arloesedd Gosod Cyfeiriad y Dyfodol ac gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Cancer a Rhaglenni Mawr eraill Strategaethau'r Ymddiriedolaeth Datblygu'r Cynllun Tymor Canolog Integredig Partneriaethau (Byd academaidd/dwyddiant/Trydydd Sector) Datblygiadau Digidol Datblygiad Sefydliadol	Llywodraethu a Risg Cyfrifon Archwilio Mewnol Archwilio Allanol Gwerth-dwyll Traciwr Archwilio	Pwyllgor Partneriaeth rhwng Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Aimcanion Gweithredwyr Perfformiad Gweithredol Gohebiaeth Anhysbys Cynllun Rhyddfais Cynnar Gwirfoddol (VERS)	Llywodraethu a Risg Strategaeth a Pherfformiad Adroddiadau Ariannol Buddsoddi Gweithgaredd Codi Arian Radiotherapi Uwch Bwrdd Rhaglen
Is-bwyllgor: Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cancer Adroddiad Uchafbwyntiau Risglau a Materion Adroddiad Cau Proiect	Is-bwyllgor: Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cancer Gosod Cyfeiriad Trawsnewid Gwasanaethau Cancer ar gyfer y Dyfodol Camau Gweithredu Arfaethedig i'w cyflwyno				Is-bwyllgor: Adolygu Perfformiad Buddsoddi'r Cronfeydd Elusennol
Is-bwyllgor: Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Adroddiad Uchafbwyntiau Cymryd yn erbyn yr Ymddiriedolaeth Cynllun Gweithredol Blymyddol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	Is-bwyllgor: Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Diweddariadau Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi'r Ymddiriedolaeth Diweddariadau'r Grŵp Uywel				Is-bwyllgor: Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Cysoni â'r Strategaeth a Chyllid
Grwpiau a Fforymau Cyngori: Fforwm Partneriaeth Lleol / Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Ymgynghorol / Bwrdd Partneriaeth Academaidd / Grŵp Aelodau Annibynnol					
Cenhadaeth: Partneru pobl i fyw'n dda Gweledigaeth: Erbyn 2025, byddwn wedi helpu mwy o bobl i fyw bywydau hirach, gwell a bod y sefydliad y mae eraill yn dod i ddysgu oddi wrtho.					

LLYWODRAETHU'R CRONFEYDD ELUSENNOL

Penodwyd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn Ymddiriedolwr Corfforaethol y Cronfeydd Elusennol yn rhinwedd Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) Rhif 2838 a ddaeth i fodolaeth ar 1 Rhagfyr 1993, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu fel ei asiant yn y broses o weinyddu'r cronfeydd elusennol a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth.

Fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu, mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yr Ymddiriedolaeth yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau fel Aelodau o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac fel Ymddiriedolwyr Corfforaethol Elusen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol, sy'n atebol yn y pen draw am Gronfeydd Elusennol a roddir i Elusen Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Er mwyn hwyluso'r broses o weinyddu a rheoli'r cronfeydd hyn, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (PCE) i roi cyngor ac argymhellion i'r Bwrdd. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor bob tri mis ac fel arall, yn ôl cyfarwyddyd Cadeiryddion y Pwyllgorau. Mae'n rhaid i o leiaf dau aelod ddod i'r cyfarfodydd, i sicrhau bod digon o bobl yn bresennol yn y Pwyllgorau.

Cefnogir y CFC gan Grŵp Uwch Arweinwyr y Cronfeydd Elusennol sy'n cyfarfod bob mis.

Mae'r CFE hefyd yn cael ei gefnogi gan Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau, i oruchwylio'r buddsoddiadau a wneir gan yr Elusen.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cronfeydd Elusennol ar gael yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

SYSTEMAU RHEOLAETH FEWNOL A SICRWYDD SEFYDLIADAU A GYNHELIR

Mae sefydliadau a letyir yn defnyddio Strwythur Pwyllgorau presennol yr Ymddiriedolaeth (Fframwaith Atebolrwydd a Llywodraethu) a ddangosir ar dudalen 36 y Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae cyfarfod Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cael ei gynnal ar wahân, i ystyried materion sy'n ymwneud yn benodol â PCGC, gyda'r un Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol â Phwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae gwybodaeth yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu yn PCGC yn cael ei chynnwys yn Natganiad Llywodraethu'r Cyfarwyddwr i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sydd ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Staff ar gais.

Mae gan PCGC 'Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru' a sefydlwyd yn 2012 i gydymffurfio â Rheoliadau Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cymru) 2012 (2012/1261 (W156)). Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Felindre) gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau (y Pwyllgor Partneriaeth). Mae Rheolau Sefydlog Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau hwn yn ffurfio Atodiad i Reolau Sefydlog Felindre ei hun ac yn cael effaith fel pe baent wedi'u hymgorffori ynddynt. Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cymru) 2012 (2012/1261 (W.156)) a Rheol Sefydlog 3 Felindre yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Mae gan Bwyllgor PCGC aelodau o bob corff statudol o fewn GIG Cymru, a chaiff ei gadeirio gan Gadeirydd Annibynnol. Mae Pwyllgor PCGC yn adrodd i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac i bob Bwrdd corff ieched arall yng Nghymru drwy ei aelod cynrychioladol ar y Pwyllgor. Mae gan PCGC ei Reolau Sefydlog ei hun sy'n cael eu hatodi i Reolau Sefydlog Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.


Ar hyn o bryd, gall sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gysylltu â Phwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Grwpiau Rheoli lle bo hynny'n briodol i sicrhau bod sicrwydd yn cael ei roi ynghylch y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys cydymffurfedd statudol ar gyfer y meysydd sy'n aros o fewn maes cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth.

Ym mis Mai 2021, cynhaliwyd adolygiad gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn partneriaeth â PCGC i ystyried trefniadau ar gyfer llywodraethu Ansawdd a Diogelwch mewn perthynas â Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y diwylliant a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Fwrdd Felindre yn dilyn creu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2020. Yn ogystal, ystyriodd hefyd y dulliau gweithredu gyda sefydliadau eraill a letyir i gefnogi wrth ystyried modelau gwahanol a'r hyn a allai weithio orau i gyflawni'r diben y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau – sef “cynghori a sicrhau Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a'r Swyddog Atebol ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer ansawdd a diogelwch” (yn unol â Rheolau Sefydlog cymeradwy PCGC). Ynghyd â hyn, sicrhawyd bod Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, fel y sefydliad sy'n lletya a'r corff statudol, hefyd yn cael sicrwydd priodol i gyflawni ei atebolrwydd yn hyn o beth. Argymhellodd yr adolygiad y dylid ychwanegu adran ychwanegol at ddechrau pob un o Bwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth i ymdrin â busnes Ansawdd a Diogelwch

PCGC. Ystyrir bod y dull hwn yn ddigonol ar gyfer maint y busnes ar hyn o bryd, ac yn chwarter 4 Blwyddyn Ariannol 2022-23 mae wedi bod yn destun adolygiad pellach wrth i fodel busnes PCGC barhau i ddatblygu. Adlewyrchwyd hyn yng Nghylch Busnes Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth, ac adroddwyd arno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023.

Yn unol â threfniadau Pwyllgor Archwilio Felindre ar gyfer Cydwasanaethau, cynhyrchir adroddiad uchafbwyntiau ar wahân ar gyfer yr adran hon o'r Pwyllgor a rhennir hwn â Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd. Rhoddir trosolwg cryno o'r trefniadau hyn isod:

Trefniadau Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch (A&D) ar gyfer Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (SSPC)



Mae adolygiad o'r trefniadau adrodd presennol ynghylch llywodraethu sydd ar waith ar gyfer Technoleg Iechyd Cymru hefyd wedi'i gychwyn yn chwarter 4 o Flwyddyn Ariannol 2022-23 i'w ddatblygu a'i roi ar waith yn ystod cyfnod adrodd 2023-2024 ac ymlaen. Bydd hyn yn destun adolygiad parhaus pellach wrth i'r trefniadau adrodd ar sicrwydd llywodraethu barhau i ddatblygu ac aeddfedu a sicrhau ei effeithiolrwydd.

GALLU I DRIN RISG

Mae'r sefydliadau a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnal ac yn rheoli eu cofrestrau risg eu hunain ac yn cydymffurfio â phrosesau uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o unrhyw risgiau sylweddol perthnasol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth yn ôl yr angen.

Dim ond pan fydd materion sy'n cael effaith amlwg ac uniongyrchol ar yr Ymddiriedolaeth y bydd risgiau sy'n ymwneud â sefydliadau a letyir yn cael eu huwchgyfeirio i gofrestr risg Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a pherfformiad yn fater i gyrff a letyir eu derbyn, eu rheoli a'u huwchgyfeirio i'r corff noddi perthnasol yn ôl yr angen.

Ceir gwybodaeth am y risgiau a gafodd eu rheoli a'u lliniaru yn ystod 2022-2023 yng Nghofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a dderbynnir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

RHEOLI RISG

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Risg a Sicrwydd cymeradwy a pholisïau cysylltiedig ar waith. Mae'r polisïau'n manylu ar broses gadarn o asesu risg i nodi, asesu a rheoli risgiau sefydliadol, a adroddir ar gofrestr risg i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn unol â lefelau parodrwydd i dderbyn risg a bennir gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r egwyddorion risg sylfaenol a gymhwysir drwy'r fframwaith hwn yn gyson ag egwyddorion trosfwaol Llyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi *'Management of Risk – Principles and Concepts'*, 2020; ac ISO 31000: 2018 *'Risk Management – Guidelines'*. Mae'r fframwaith hefyd yn cefnogi Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 a *'Guidance on Risk Management, Internal Control and Related Financial and Business Reporting'* y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae Polisi Rheoli Risg trosfwaol yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2022, yn darparu dogfen drosfwaol ac ar lefel strategol ar gyfer y fframwaith rheoli risg yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

“Prif amcan y Polisi yw cefnogi staff ar draws yr Ymddiriedolaeth i nodi a rheoli'r risgiau a allai atal y gwaith o gyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cynnwys asesu risgiau i ddiogelwch cleifion a rhoddwyr, cydymffurfiaeth ar draws ein fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol a risgiau sy'n gysylltiedig â'n dibyniaethau allweddol, prosesau craidd, a disgwyliadau rhanddeiliaid ac wrth wneud hynny, cyflawni Strategaeth yr Ymddiriedolaeth. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio mai ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ansawdd a diogelwch yw'r 'edau aur' drwy'r sefydliad cyfan a chydabod y rôl allweddol sydd gan ddiwylliant rheoli risg cryf yn hynny o beth. Fel gyda phopeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud, cyflawnir hyn trwy roi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn, gan weithio tuag at yr ansawdd, y diogelwch a'r profiad gorau posibl a dysgu a gwella'n barhaus.”

Nod y Polisi yw darparu dull amlddisgyblaethol pragmatig ac effeithiol o reoli risg a ategir gan strwythur atebolrwydd clir drwy'r sefydliad. Mae'n cydnabod yr angen am systemau a phrosesau cadarn i gefnogi natur barhaus a chyfnewidiol risg. Mae'r Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion drwy'r Ymddiriedolaeth wreiddio rheoli risg yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a chefnogi gwell penderfyniadau trwy ddealltwriaeth ddyfnach a mewnwleidiad i risgiau a'u heffaith bosibl."

Ochr yn ochr â'r Polisi Rheoli Risg, mae Gweithdrefn Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth, sydd:

"...yn cefnogi gweithrediad y Polisi Rheoli Risg ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'n rhoi manylion am sut y dylai staff ar draws yr Ymddiriedolaeth gymhwyso'r broses rheoli risg ar draws yr Ymddiriedolaeth i nodi a rheoli'r risgiau sy'n atal y gwaith o gyflawni nodau ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw wedi'i dylunio i fod yn ddogfen ar ei phen ei hun, a rhaid ei darllen ar y cyd â'r Polisi Rheoli Risg, sy'n disgrifio'r cyd-destun pam mae rheoli risg yn bwysig a sut mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn gweithredu ar draws yr Ymddiriedolaeth."

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg a bydd yn sicrhau bod ein dull rheoli risg yn briodol drwy ystyried a yw Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r prif feysydd risg yn erbyn amcanion a bod strategaethau lliniaru risg digonol wedi'u cynllunio a'u gweithredu i reoli pob un o'r prif risgiau a nodwyd. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith fel y sicrhawyd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'n gosod y 'cywair ar y top' ar gyfer diwylliant rheoli risg drwy osod archwaeth risg ac ystyried risg yn benodol wrth ddatblygu neu ddiweddarau'r strategaeth, neu wrth ystyried perfformiad a/neu raglenni newid mawr.

Mae gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad gylch gwaith i adolygu risgiau, fodd bynnag, yn ystod 2022-23 bu ffocws y pwyllgor yn fwy ar sicrhau bod y wybodaeth yn y gofrestr risg yn gywir a darparu'r manylion priodol i alluogi sicrwydd effeithiol. Yn ystod 2023-24 bydd ffocws y pwyllgor ar graffu ar risgiau yn y gofrestr. Mae'r pwyllgor yn rhoi: sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod y gofrestr risg yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad, trwy lens Ansawdd a Diogelwch; bod y fframwaith rheoli sydd ar waith yn briodol o ran dyluniad ac effeithiolrwydd gweithredu; a bod camau i reoli risg yn symud ymlaen yn briodol i gyrraedd y sgôr risg targed.

Mae Pwyllgorau eraill y Bwrdd yn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod adrannau penodol Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth: yn adlewyrchu'n briodol y risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad, yn unol â'u cwmpas; bod y fframwaith rheoli sydd ar waith yn briodol o ran dyluniad ac effeithiolrwydd gweithredu; a bod camau i reoli risg yn symud ymlaen yn briodol i gyrraedd y sgôr risg targed.

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli Gweithredol yn cefnogi ac yn hyrwyddo rheoli risg. Maent yn sicrhau bod rheoli risg yn cael ei integreiddio i bob gweithgaredd, ac yn dangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad trwy sicrhau:

- bod eu portffolios (adran/is-adran) yn gweithredu'r Polisi Rheoli Risg;
- bod risg yn cael ei hystyried wrth osod eu hamcanion/drafftio eu cynllun busnes a'u trafod ochr yn ochr â'u perfformiad ac mewn unrhyw gyfarfodydd rheoli lleol;
- bod yr holl risgiau, rheolaethau a materion rheoli risg o dan eu rheolaeth yn cael eu cydlynu,

eu rheoli, eu monitro, eu hadolygu a'u hadrodd/uwchgyfeirio yn ddigonol yn unol â gofynion y fframwaith hwn;

- bod adnoddau angenrheidiol yn cael eu dyrannu i reoli risg/eu bod yn nodi unigolion sydd â'r atebolrwydd a'r awdurdod i reoli risg o dan eu rheolaeth (h.y. perchnogion risg).

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer fframwaith risg yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr Arweinydd Gweithredol yn berchen ar y fframwaith rheoli risg a gweithdrefnau rheoli risg cysylltiedig ar lefel yr Ymddiriedolaeth ac mae'n atebol am ddatblygiad strategol rheoli risg sefydliadol. Gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

- Cynnal a diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau rheoli risg priodol;
- Sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth Gofrestr Risg gynhwysfawr a deinamig trwy weithio gyda thimau rheoli gweithredol ac is-adrannol i sicrhau eu bod yn deall eu hatebolrwydd a'u cyfrifoldebau am reoli risgiau yn eu meysydd;
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu hadrodd, a'u herio'n briodol, drwy strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.

I grynhoi, mae fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth:

- yn hyrwyddo cysondeb a thryloywder drwy fynegi fframwaith trosfwaol ar gyfer rheoli risg a sefydlu iaith risg gyffredin ar draws yr Ymddiriedolaeth;
- yn esbonio sut mae'r tair llinell amddiffyn yn gweithredu;
- yn esbonio sut mae rheoli risg yn cyd-fynd â'r strwythurau llywodraethu ar draws y sefydliad;
- yn diffinio rolau a chyfrifoldebau rheoli risg ar gyfer unigolion a thimau o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;
- yn sicrhau bod prosesau rheoli risg yn cefnogi ac yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, y mae ein hymrwymiad i ansawdd a diogelwch yn llinyn aur drwyddi, gan sicrhau ein bod yn rhoi ein cleifion a'n rhoddwyr wrth wraidd popeth a wnawn;
- yn cydnabod bod monitro, adolygu, cyfathrebu ac adrodd ar risg yn amserol ac yn gywir yn hanfodol i ddarparu:
 - mecanweithiau rhybuddio cynnar ar gyfer rheoli digwyddiadau risg yn effeithiol
 - sicrwydd i'n cleifion a'n rhoddwyr
 - sicrwydd drwy strwythurau llywodraethu i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac i'n partneriaid/rhanddeiliaid megis Rheoleiddwyr a chyrff Arolygu
 - llwyfan cadarn ar gyfer gwytnwch sefydliadol
 - yn cefnogi gwneud penderfyniadau trwy wybodaeth yn seiliedig ar risg;
 - ac yn cefnogi datblygiad parhaus diwylliant lle mae rheoli risg yn rhagweithiol wedi'i integreiddio i holl fusnes yr Ymddiriedolaeth.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o waith yr Ymddiriedolaeth wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Cefnogir hyn trwy ystyried ac asesu cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â chanllawiau clinigol allweddol, gan gynnwys:

- Canllawiau a gwerthusiadau technoleg gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE).
- Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (NSFs).
- Ymholiadau Cenedlaethol, er enghraifft Ymchwiliadau Cyfrinachol
- Rhybuddion Diogelwch Cleifion
- Canllawiau Proffesiynol, er enghraifft gan y Colegau Brenhinol
- Canllawiau neu safonau gan gyrff cenedlaethol/lleol eraill.
- Archwiliad lleol a chenedlaethol
- Ymchwil a Datblygu.
- Cymryd rhan mewn treialon clinigol
- Safonau lechyd a Gofal (Cymru).

COFRESTRAU RISG YR YMDDIRIEDOLAETH

Gellir gweld proffil risg y sefydliad trwy Gofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth. Mae'r risgiau'n cael eu nodi ar ddechrau gweithgareddau newydd neu'r rhai sy'n cael eu diwygio a thrwy adolygu risgiau presennol yn barhaus. Cynhelir asesiadau risg i asesu'r effaith ar y gwasanaeth ac ar randdeiliaid eraill. Mae Rhanddeiliaid Cyhoeddus yn rhan o'r broses asesu risg drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, cynrychiolaeth ar y Grŵp Cyswllt â Chleifion a'r Cyngor lechyd Cymuned yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgorau, yr adborth a dderbynnir mewn perthynas â'r arolygon o Brofiadau Cleifion a Fforymau Rhoddwyr, a thrwy ddysgu o'r Pryderon a dderbynnir gan gleifion, rhoddwyr, perthnasau a/neu ofalwyr.

Mae pob risg yn cael ei hasesu ac yn cael sgôr, sy'n ymwneud â'r effaith y gallai'r risg ei chael a'i thebygolrwydd. Mae risgiau'n cael eu huwchgwyfeirio, ac mae'r risgiau ar y lefel uchaf yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'w gwerthuso cyn eu cynnwys ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth a'u hadrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgor/Pwyllgorau perthnasol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae pob risg sy'n cael ei rhoi ar y gofrestr risg yn cael sgôr 'targed', yn dibynnu ar y parodrwydd i dderbyn risg, sef lefel y risg y mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn fodlon ei derbyn cyn y bernir bod angen cymryd camau i'w lleihau. Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau fel sail i flaenoriaethu'r camau a'r adnoddau sydd eu hangen i liniaru risgiau ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth. Y system ar gyfer cofnodi a rheoli risg yw Datix. Diweddarodd yr Ymddiriedolaeth y modiwl a ddefnyddiwyd yn Datix a'r ffurflenni diwygiedig yn 2022.

Ceir mynediad i risgiau newydd drwy'r cylch llywodraethu; mae risgiau newydd yn cael eu hadolygu gan Uwch Dimau Arwain/Uwch Dimau Rheoli is-adrannol, pan fydd risg yn cael ei derbyn, ei gwrthod neu ei chau. Arweinir rheolaeth o'r pwynt hwnnw gan yr arweinydd risg, ar y cyd â pherchennog y risg, a lle mae'r lefel yn gyfryw (graddfa risg dros 15 neu dros 12 ar gyfer risgiau diogelwch) rhoddir gwybod am y risg drwy'r cylch llywodraethu a nodir isod.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth dair lefel o hyfforddiant risg:

- **Lefel 1** – Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei wneud gan holl staff yr Ymddiriedolaeth trwy gyfrwng e-ddysgu. Mae'r hyfforddiant yn nodi sut i adnabod risg ac adrodd am risg, trwy'r system Datix trwy'r ffurflen fewnbwn gyntaf.
- **Lefel 2** – Mae hyfforddiant wedi'i anelu at arweinwyr risg, gan ddarparu gwybodaeth am reoli risg, i ddechrau drwy ail ffurflen fewnbynnu, gan gynnwys asesiadau risg, pam a sut rydym yn rheoli risg, disgrifiadau o risg a graddfeydd risgiau. Prif amcan hyfforddiant lefel tri yw rheoli risg a dilyn y cylch risg, mesurau lliniaru, cynlluniau gweithredu a rheolaeth reolaidd. Mae offer wedi'u cynnwys yn y pecyn hyfforddi. Darperir yr hyfforddiant hwn ar-lein trwy Teams, mae hon yn sesiwn gwbl ryngweithiol, gan gynnwys senarios i brofi dealltwriaeth.
- **Lefel 3** – Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar lywodraethu a rolau unigol Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr o ran risg. Mae cyfrifoldeb arweinyddiaeth yn allweddol i'r lefel hon o hyfforddiant. Darperir yr hyfforddiant drwy gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol a sesiynau Datblygu'r Bwrdd.

Cafodd y Polisi a'r Weithdrefn Risg eu hadolygu a'u cymeradwyo ym mis Medi 2022 yn dilyn adolygiad parhaus drwy 2022. Cafodd yr holl gyfleoedd gwella a nodwyd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol yn 2021/22 eu cwblhau'n llawn a'u rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2023.

Mae'r risgiau a gafodd y sgôr uchaf ar ddiwedd mis Mawrth 2023, a lywiwyd drwy Bwyllgor mis Mawrth a chylch Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi'u crynhoi isod. I gael gweld manylion llawnach, gan gynnwys camau gweithredu a rheolaethau lliniaru, adolygwch Bapur Risg Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Mawrth 2023 [yma](#).

Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Diogelwch	Corfforaethol	Mae yna risg i ddiogelwch o ganlyniad i straen sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n arwain at niwed i staff ac i'r gwaith o ddarparu gwasanaeth.	12
Diogelwch	Corfforaethol	Diffygion mewn adrannu (adeiladu sy'n gwrthsefyll tân, drysau tân a damperi tân) - Canolfan Ganser Felindre	12
Diogelwch	Corfforaethol	Rheoli heintiau - Mae risg y gallai staff gael COVID-19 yn eu hamgylchedd gwaith o ganlyniad i ymbellhau cymdeithasol neu hylendid gwael.	12
Diogelwch	Canolfan Ganser Felindre	Risg na fydd cleifion sydd â llwybrau anadlu wedi'u newid yn cael gofal priodol gan dîm clinigol y tîm amlddisgyblaethol sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol oherwydd amlder y staff sy'n gorfod defnyddio'r cymwyseddau hyn a'u gallu i hyfforddi a chynnal.	12
Ansawdd	Gwasanaeth Gwaed Cymru	Mae risg i ansawdd / cwynion / archwiliad / GxP o ganlyniad i ddefnyddio hen systemau etifeddol, gan arwain at risg uwch o ganlyniadau profion a chyngor clinigol anghywir.	16

Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Trawsnewid Gwasanaethau Canser	Mae perygl y bydd angen symud y brif bibell ddŵr pwysedd uchel yn Asda, sydd wedi cael ei darganfod yn ddiweddar, a allai arwain at oedi o rai misoedd i waith Asda.	16
Diogelwch	Canolfan Ganser Felindre	Mae risg y gallai parhad gofal cleifion diogel gael ei effeithio'n andwyol gan arwain at niwed o ganlyniad i wallau technegol yn y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (DHCR)	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Mae risg, os na chaiff gwasanaeth y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) newydd ei ddefnyddio'n llawn cyn i'r contract ar gyfer y LIMS presennol ddod i ben ym mis Mehefin 2025, y gallai hynny effeithio'n ddifrifol ar ddarpariaeth weithredol gwasanaethau patholeg gan arwain at oedi posibl mewn triniaethau, gan effeithio ar ansawdd a diogelwch sbectrwm eang o wasanaethau clinigol a'r posibilrwydd o gael effaith ariannol ac effaith ar y gweithlu.	20
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Cofnod Gofal Iechyd Digidol 118(R) - Mae risg na fydd cofnodion cleifion yn System Gweinyddu Cleifion Cymru yn cael eu diweddarau'n gywir neu o gwbl. Achoswyd hyn gan lefel is o wybodaeth am y digwyddiadau gwirioneddol sydd wedi digwydd a diffyg mynediad at gofnodion meddygol e.e. nodiadau papur, systemau clinigol arbenigol i wneud y penderfyniad priodol ynghylch yr hyn y dylid/na ddylid ei wneud yn y cofnod. Yr effaith yw cofnodion cleifion anghywir a gwallau posibl yn llwybrau cleifion.	20
Cydymffurfio	Corfforaethol	Mae risg i gydymffurfedd o ganlyniad i ddileu blychau post e-bost yn barhaol ar gyfer staff Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (YGIGPF) sydd wedi gadael y GIG yn llwyr ers mis Medi 2021, gan arwain at broblem bosibl pe bai angen y negeseuon e-bost hynny gan ymchwiliad trydydd parti - e.e. ymholiad COVID.	15
Cynaliadwyedd Ariannol	Trawsnewid Gwasanaethau Canser	Cyfraddau Llog - Mae risg y bydd cyfraddau llog uwch cyn y terfyn ariannol yn arwain at y ffaith y bydd costau'r prosiect yn fwy na'r amlen fforddiadwyedd.	16
Y Gweithlu	Canolfan Ganser Felindre	Bylchau Gweithlu yn y Gwasanaeth Oncoleg Aciwt (AOS). Mae risg nad oes gan y Gwasanaeth Oncoleg Aciwt yn Ysbyty Felindre ddigon o adnoddau.	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Cofnod Gofal Iechyd Digidol 062(R) - Mae risg y bydd cleifion yn dal yn fyw yn Canisc ar ddiwedd y cyfnod rhedeg deuol o 12 wythnos, a achosir gan nifer cynyddol o achosion o oedi/gohiriadau o ran triniaeth cleifion. Bydd effaith negyddol ar gapasiti gwasanaeth gyda'r angen ychwanegol i fudo â llaw ffurflenni IRMER sydd bron yn gyflawn neu'n gwbl gyflawn. Gallai hyn gael effaith negyddol pellach ar weithgareddau Busnes fel Arfer, megis uwchraddio Mosaiq.	15

Math o Risg	Is-adran	Teitl	Sgôr (Cyfredol)
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Nifer y negeseuon e-bost y mae meddygon yn eu derbyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â thasgau clinigol. Oherwydd y newid yng nghynnwys y swydd hyfforddi i gynnwys oncoleg aciwt, mae Canolfan Ganser Felindre wedi bod yn aflwyddiannus wrth sicrhau hyfforddeion, ac mae hyn yn arwain at fylchau sylweddol yn y rota hyfforddi. Mae prinder cenedlaethol ar gyfer y rolau hyn	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Mae risg i berfformiad a chynaliadwyedd gwasanaeth o ganlyniad i newid y cwricwlwm hyfforddi i gynnwys oncoleg aciwt sy'n arwain at anallu i sicrhau'r nifer gofynnol o Hyfforddeion Gofal Lliniarol.	15
Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau	Canolfan Ganser Felindre	Mae risg bod lefelau staffio o fewn gwasanaethau Brachytherapi yn is na'r rhai sydd eu hangen ar gyfer gwasanaeth diogel a gwydn.	15

Mae dolen i bapurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod i'w weld [yma](#).

DATGANIAD PARODRWYDD I DDERBYN RISG

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu ystod eang o risgiau sy'n adlewyrchu ei chyfrifoldebau. Gall y risgiau sy'n deillio o'i chyfrifoldebau fod yn sylweddol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli trwy brosesau manwl sy'n pwysleisio pwysigrwydd uniondeb, ymholiad deallus, cynnal staff o safon uchel ac atebolrwydd i'r cyhoedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod adnoddau ar gael i reoli risgiau gweithredol hyd at lefelau derbyniol, ac rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl neu'n wir yn ddymunol o reidrwydd, dileu rhai o'r risgiau sy'n rhan hanfodol o'n gweithgareddau. Yn aml, mae angen derbyn rhywfaint o risg er mwyn meithrin arloesedd o fewn y gwasanaethau yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Cafodd Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yr Ymddiriedolaeth ei adolygu a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2023, ac mae'n ystyried y risgiau mwyaf sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt. Mae'n rhoi amlinelliad o'r dull o reoli'r risgiau hyn. Mae'n rhaid i bob cynllun strategol a busnes ar gyfer meysydd gweithredol fod yn gyson â'r Datganiad hwn. O ystyried ystod gweithgareddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth, nid yw'n briodol gwneud un datganiad trosfwaol am agwedd yr Ymddiriedolaeth at risg. Yn hytrach, mae ystod o ddatganiadau am barodrwydd i dderbyn risg sy'n codi o wahanol feysydd ein gwaith wedi cael eu datblygu a'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y meysydd canlynol: Mae'r dull o gategoreiddio Parodrwydd i Dderbyn Risg wedi'i seilio ar Fatrics Derbynioldeb Risg ar gyfer Sefydliadau'r GIG y Sefydliad Llywodraethu Da (GGI).

- Diogelwch - 1 - Minimol
- Ansawdd - 2 - Gochelgar
- Cydymffurfedd - 2 - Gochelgar
- Ymchwil a Datblygu - 3 - Agored
- Enw Da a Hyder y Cyhoedd - 2 - Gochelgar
- Perfformiad a Chynaliadwyedd Gwasanaethau - 2 - Gochelgar

- Cynaliadwyedd Ariannol - 2 - Gochelgar
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol - 3 - Agored
- Partneriaethau ac Arloesi - 4 - Ceisio
- Llywodraethu Gwybodaeth – 2 – Gochelgar
- Amgylcheddol – 3 - Agored


FFRAMWAITH SICRWYDD YR YMDDIRIEDOLAETH (TAF)

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrwydd Dros Dro'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Cytunwyd i enwi'r ddogfen hon a phrosesu Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth (TAF) i adlewyrchu'n gyntaf y ffaith y dylai'r broses fod o werth i'r Ymddiriedolaeth gyfan ac yn ail i adlewyrchu uchelgais y fframwaith hwn i gysylltu'n effeithiol, ymhen amser, â'r fframweithiau Ansawdd a Diogelwch a Pherfformiad.

Mae Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn galluogi'r Bwrdd i nodi a deall y prif risgiau i gyflawni ei amcanion strategol; cael sicrwydd bod rheolaethau addas ar waith i reoli'r risgiau hyn, a lle mae angen gwelliannau, bod cynlluniau gweithredu addas ar waith ac yn cael eu cyflawni; a darparu asesiad o'r risg i gyflawni'r amcan cysylltiedig.

Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n cysylltu Amcanion Strategol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre â risg a sicrwydd, fel y dangosir yn **Ffigur 1**:

Ffigur 1: Llifoedd gwybodaeth rhwng Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth



Ni ddisgwylir y bydd symudiad sylweddol o ran mynegi prif risgiau'r Ymddiriedolaeth yn y tymor byr, yn hytrach byddai'r rhain yn cael eu hadolygu a'u datblygu yn unol â chylchoedd datblygu strategol y sefydliad neu mewn ymateb i newidiadau allanol sylweddol.

Mae ffocws rheolaeth Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn ddeublyg:

- I. Gosod y rheolaethau allweddol, nodi unrhyw fylchau mewn rheolaethau a chymryd camau i ymdrin â'r rhain;
- II. Nodi'r ffynonellau sicrwydd, o'r llinell gyntaf, yr ail a'r drydedd linell o ffynonellau amddiffyn, ac yna olrhain y mewnwleidiad y mae pob un o'r ffynonellau sicrwydd hyn yn ei ddangos yn erbyn pob un o'r risgiau. Yn ogystal, nodi unrhyw fylchau mewn sicrwydd a chymryd camau i ymdrin â'r rhain. I egluro'r telerau hyn:
 - **Y llinell amddiffyn gyntaf** – yw ffynonellau sicrwydd o'r swyddogaethau sy'n berchen ar y risg ac yn ei rheoli.
 - **Ail linell amddiffyn** - yw ffynonellau o'r swyddogaethau sy'n goruchwyllo'r gweithrediadau o ddydd i ddydd - e.e. Ansawdd a Diogelwch, Llywodraethu Corfforaethol / Clinigol.
 - **Trydedd linell amddiffyn** – yw ffynonellau o swyddogaethau sy'n rhoi sicrwydd annibynnol – e.e. Archwilio Mewnol/Allanol, Rheoleiddwyr, Archwilio Cymru.

Mae gan bob un o'r risgiau Berchennog Gweithredol, sy'n gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella effeithiolrwydd y rheolaethau allweddol a sicrwydd yn barhaus. Mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda phob un o'r perchnogion Gweithredol i ddiweddarau Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth bob deufis er mwyn rhoi adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu Strategol, y Pwyllgor Diogelwch a Pherfformiad a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu, aeddfedu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth ymhellach. Cafodd ei wella ymhellach drwy adolygiad rheolaidd, anffurfiol gan Archwilio Mewnol, a ategwyd gan archwiliad mewnol ffurfiol o argymhellion adroddiad Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth 2021/22, a nododd fod cynnydd da yn cael ei wneud. Bydd cyfleoedd i wella a nodwyd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol, a bydd cynnydd parhaus yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio trwy graffu ar Gynllun Gweithredu'r Archwiliad.

SAFONAU IECHYD A GOFAL I GYMRU

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal sydd mewn grym yn ystod 2022/23 wedi bod ar waith ar draws GIG Cymru ers 2015 ac ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu proses i helpu i sefydlu'r Safonau'n fwy cadarn ym musnes craidd Is-adrannau a thimau corfforaethol. Mae gwaith wedi'i gwblhau i gynnwys cryfhau atebolrwydd a chyfrifoldebau a rolau grwpiau goruchwyllo rheolwyr wrth fonitro cydymffurfedd â safonau.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i hybu gwelliant ansawdd trwy 2022/23 trwy adolygu'r Safonau Iechyd a Gofal yn ffurfiol bob chwarter gan sicrhau bod pob Safon yn parhau i fod wedi'i gwreiddio'n gadarn ym musnes craidd y Timau Is-adrannol a Chorfforaethol. Mae'r timau Is-adrannol a Chorfforaethol wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'u cydymffurfedd â'r safonau Iechyd a Gofal yn ystod pob chwarter yn 2022/2023, ac maent hefyd wedi sicrhau bod y

Cynllun Gwella wedi'i ddiweddarau. Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad wedi derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol. Roedd y meini prawf ar gyfer sgorio asesu yn cynnwys: cydymffurfio; cydymffurfedd rannol neu ddiffyg cydymffurfio â'r meini prawf sgorio cenedlaethol a nodir isod:

Graddfa Hunan-asesiad					
Lefel Asesu	1 Nid oes gennym ddealltwriaeth glir, gytûn eto o ble rydym ni (na sut rydym yn gwneud) a beth / lle mae angen i ni wella	2 Rydym yn ymwybodol o'r gwelliannau y mae angen eu gwneud ac rydym wedi eu blaenoriaethu, ond nid ydym yn gallu dangos camau gweithredu ystyrlon eto	3 Rydym yn datblygu cynlluniau a phrosesau a gallwn ddangos cynnydd gyda rhai o'n meysydd gwella allweddol	4 Mae gennym gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda a gall prosesau ddangos gwelliant cynaliadwy ar draws y sefydliad/ busnes	5 Gallwn ddangos arfer da parhaus ac arloesedd sy'n cael eu rhannu drwy'r sefydliad / busnes, ac y gall eraill ddysgu oddi wrthynt

Mae adolygiad cenedlaethol o'r Safonau Iechyd a Gofal wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu Cymru (2020) a gofynion y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol (2021). Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ar 1 Ebrill 2023, felly, mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u tynnu'n ôl a'u disodli gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal i gyd-fynd â chyflwyno gofynion y Ddyletswydd Ansawdd.

Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn darparu strwythur ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd, gan ganiatáu i'r safonau integreiddio â systemau iechyd ehangach yr Ymddiriedolaeth.



ASESIAD LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD EFFEITHIOLRWYDD BWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynnal hunanasesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd. Y dull a ddefnyddiwyd eleni oedd dwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol a fyddai'n cefnogi'r Bwrdd wrth ystyried ei lefel aeddfedrwydd gyffredinol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â llywodraethu da ac effeithiolrwydd y Bwrdd. Yng nghyfarfod blynyddol Asesu Llywodraethu ac Effeithiolrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 18 Ebrill 2023, aethpwyd ag aelodau'r Bwrdd drwy'r broses a daethpwyd i'r casgliad bod hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth o'r lefel aeddfedrwydd gyffredinol ar gyfer 2022-2023 yn Lefel (4). Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu fel rhan o'i adolygiad parhaus o effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd a ffynonellau sicrwydd, wrth geisio rhagoriaeth, ac felly nid yw wedi'i gyfyngu i'r broses adolygu flynyddol.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd - Hunanasesu	1. Nid ydynt yn deall, nac yn cytuno eto, ble maen nhw arni (nac ychwaith pa mor dda maent yn ei wneud) na'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wella a ble.	2. Maent yn ymwybodol o'r gwelliannau y mae angen eu gwneud ac wedi rhoi blaenoriaeth iddynt, ond nid ydynt eto'n gallu dangos camau gweithredu ystyrion.	3. Maent yn datblygu cynlluniau a phrosesau, a gallant ddangos cynnydd o ran rhai o'u meysydd allweddol i'w gwella.	4. Mae ganddynt gynlluniau a phrosesau sydd wedi'u datblygu'n dda, a gallant ddangos gwelliant cynaliadwy ar draws y sefydliad/busnes.	5. Maent yn gallu dangos arfer da ac arloesedd parhaus y gall eraill ddysgu ohono, ac mae hyn i'w weld ar draws y sefydliad / busnes.
Sgôr				✓	

Llywiwyd yr asesiad uchod gan gyfraniadau gan Bennaeth Dros Dro a Dirprwy Bennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol. Roedd y ddau yn bresennol i gyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-2023, ac i gefnogi unrhyw ymholiadau oedd yn codi o hyn. Rhoddwyd cyfle i roi sylwadau ar unrhyw arsylwadau a wnaed ynghylch cynnydd ers canfyddiadau eu hadolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Canfu archwiliad dilynol o'r argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig ar draws y ddau faes fod cynnydd da wedi'i wneud o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith, gyda dim ond mân feysydd i'w gwella i'w gweithredu. Mae'r canfyddiadau hefyd wedi helpu i gefnogi ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth i welliant parhaus.

ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD (FFYNONELLAU SICRWYDD YCHWANEGOL)

Fel Swyddog Atebol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae adolygiad y Prif Weithredwr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac adroddiadau asesu a sicrwydd eraill gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwrando ar farn y Bwrdd ynghylch cryfderau a chyfleoedd yn y system rheolaeth fewnol, ac mae gwaith y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill a sefydlwyd gan y Bwrdd wedi llywio ei farn.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau personol hyn, mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /Prif Weithredwr GIG Cymru.

Yng Nghyfarfod Blynyddol Asesu Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd (a grybwyllir uchod), penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth mai'r lefel aeddfedrwydd gyffredinol ar gyfer 2022-2023 fyddai lefel (4); sy'n cael ei ddiffinio fel bod ganddynt 'gynlluniau a phrosesau sydd wedi'u datblygu'n dda, a'u bod yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy ar draws y sefydliad'. Mae craffu ar y trefniadau hyn wedi'i seilio'n rhannol ar y mecanweithiau mewnol y cyfeiriwyd atynt eisoes, a hefyd drwy'r farn annibynnol a diduedd a fynegwyd gan ystod o gyrff allanol i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Comisiynydd Plant
- Cynghorau Iechyd Cymuned
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyrff achrededig eraill
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Archwilio Mewnol (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)
- Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

BARN ARCHWILIO FEWNOL A SGORIAU AR GYFER 2022 - 2023

Mae archwilio mewnol yn ffynhonnell o sicrwydd i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Archwilio gyda llif o sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol. Cytunodd y Prif Weithredwr a'r Archwiliad Mewnol ar raglen o waith archwilio, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, ac a gyflwynwyd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Wasanaeth Archwilio a Sicrwydd GIG Cymru, sy'n rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cynlluniwyd y rhaglen o waith archwilio i ganolbwyntio ar risgiau sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol. Y meysydd a ddefnyddiwyd i fframio proses cynllunio archwilio mewnol 2022/23 oedd:

1. Llywodraethu Corfforaethol, Risg a Chydymffurfedd Rheoleiddio
2. Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd
3. Llywodraethu a Rheoli Ariannol
4. Ansawdd a Diogelwch Llywodraethu Clinigol
5. Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth
6. Gwasanaeth Gweithredol a Rheolaeth Swyddogaethol
7. Rheoli'r Gweithlu
8. Cyfalaf ac Ystadau

Mae'r farn gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau.

Amlinellir crynodeb o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'u canlyniadau yn y tabl trosodd. Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn ymdrin â chyfleoedd gwella a nodwyd o'r canfyddiadau, a bydd cynnydd parhaus yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio drwy graffu ar y Traciwr Gweithredu Archwilio.

Sicrwydd Sylweddol	Sicrwydd Rhesymol
<ul style="list-style-type: none">• Cofnod Iechyd Digidol – Gweithredu• Ymchwil a Datblygu• Seiberddiogelwch	<ul style="list-style-type: none">• Blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth• Systemau Cyfalaf• Archwilio Clinigol• Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith• Cyllid a Chynaliadwyedd Gwasanaethau• Llywodraethu Gwybodaeth• Gwaith Galluogi Canolfan Ganser newydd Felindre (gohiriwyd o 2021/22)• Profiad y Claf a'r Rhoddwr• Fframwaith Rheoli Perfformiad• Dilyniad i'r Argymhellion Blaenorol

Sicrwydd Cyfyngedig	Cynghorol/Heb Farn
<ul style="list-style-type: none"> • Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre 	<ul style="list-style-type: none"> • Llesiant Staff • Contract Diogelwch Gwaith Galluogi CGnF (nVCC) • Datgarboneiddio
Dim sicrwydd	
DDIM YN BERTHNASOL	


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn dau argymhelliad blaenoriaeth uchel yn ystod y cyfnod adrodd, a manylir ar y rhain ym Marn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-2023.

BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER (2022 –2023)

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon fod digon o waith archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus.


Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod. Cafodd y farn gyffredinol ei rhestru fel Sicrwydd Rhesymol.

Sicrwydd rhesymol	 <p style="text-align: center;">- + Melyn</p>	<p>Gall y Bwrdd fod yn weddol sicr bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.</p>
--------------------------	---	--

Wrth ddod i'r casgliad yma, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod yr holl adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, a bod trefniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd. O'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd Sicrwydd Sylweddol i dri a dyrannwyd Sicrwydd Rhesymol i ddeg ohonynt. Dyrannwyd Sicrwydd Cyfyngedig i un adroddiad ac ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau 'dim sicrwydd'. Adroddwyd ar gyfanswm o 17, yn cynnwys 14 o archwiliadau sicrwydd a 3 adolygiad cynghorol (dim barn) yn ystod y flwyddyn. Mae'r siart isod yn

cyflwyno'r sgoriau sicrwydd a nifer yr archwiliadau a gafwyd ar gyfer pob un. Mae barn sicrwydd a diffiniadau o sgoriau risg cynlluniau gweithredu i'w gweld [yma](#).

Crynodeb o'r sgoriau archwilio



ASESIAD STRWYTHUREDIG ARCHWILIO CYMRU 2022 - 2023

Cynllunnir gwaith Asesiad Strwythuredig Archwilyr Allanol yr Ymddiriedolaeth, Archwilio Cymru er mwyn helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Cynhaliwyd gwaith Asesiad Strwythuredig 2022 Archwilio Cymru ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn parhau i ymdrin â'r heriau parhaus a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig, ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau.

Mae prif ffocws y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill.

Mae prif gasgliadau gwaith Asesiad Strwythuredig 2022 Archwilio Cymru wedi'u crynhoi isod:

- Yn gyffredinol, caiff yr Ymddiriedolaeth ei harwain a'i llywodraethu'n dda ar y cyfan, gyda gwledigaeth a blaenoriaethau strategol clir, systemau sicrwydd sy'n gwella, a threfniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei chyllid ac adnoddau eraill.
- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol ac maent yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn weithredol i ysgogi gwelliant. Erys cyfleoedd i wella'r modd y sicrheir bod papurau a dogfennau allweddol ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Ymddiriedolaeth.
 - Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, mae wedi cynghori Archwilio Cymru ei bod wedi gweithredu tracio i sicrhau bod bwndeli agenda pwyllgorau a phapurau llywodraethu allweddol eraill yn cael eu cyhoeddi'n gyflawn ac yn amserol yn hyn o beth.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â Thîm Gweithredol a strwythur sefydliadol sefydlog. Mae wedi adolygu a chryfhau ei systemau sicrwydd a ddylai alluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i asesu a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd sefydliadol pan fyddant yn gwbl weithredol. Byddai'n elwa o adfer y log ar gyfer tracio argymhellion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau a wneir gan gyrff arolygu a rheoleiddio allanol.
 - Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, mae wedi nodi / hysbysu Archwilio Cymru y bydd y Traciwr Gwella Ansawdd a Diogelwch yn cael ei dderbyn ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad o fis Mai 2023 ymlaen, ynghyd â'r Cynllun Gwella cysylltiedig gan ddefnyddio templed y 7 lefel o sicrwydd. Cadarnhaodd ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth hefyd fod Cofrestr Cydymffurfedd Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yr Ymddiriedolaeth gyfan eisoes wedi'i sefydlu ac wedi'i derbyn yn llawn gan Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o ran cynllunio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae ganddi weledigaeth strategol glir, wedi'i hategu gan nodau ac amcanion, y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu mynegi yn ei strategaeth ddeng mlynedd newydd (Cyrchfan 2032), strategaethau galluogi, a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru (Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25) . Fodd bynnag, er bod blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth fel y'u nodir yn Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 yn benodol, yn fesuradwy ac wedi'u cyfyngu gan amser, nid ydynt yn nodi'r canlyniad a fwriedir. Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, mae wedi nodi / cynghori Archwilio Cymru y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i:
 - (i.) wella elfennau CAMPUS yr amcanion
 - (ii.) eu cysoni â dangosyddion perfformiad allweddol mesuradwy o ran canlyniadau/allbwn o fewn y Fframwaith Rheoli Perfformiad (cam 2).
- Er bod adroddiadau ar gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 yn dda, mae cyfleoedd i gryfhau adroddiadau i roi mwy o fanylion ynghylch a yw'r canlyniad a fwriadwyd wedi'i gyflawni.

- Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, mae wedi nodi/cynghori Archwilio Cymru y bydd ei Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-2026 yn amlinellu effaith / manteision y camau a gymerir ac mae'r broses ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cynnwys asesiad o gamau gweithredu y dylid eu cyflwyno hyd at 2023 – 2026 wedi'u hadrodd drwy strwythur llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei hadnoddau ariannol ac mae'n parhau i fodloni ei dyletswyddau ariannol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ei bod yn wynebu risgiau i gynnal cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae rheolaethau ariannol yn effeithiol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynhyrchu adroddiadau ariannol clir a hygyrch i gefnogi monitro a chraffu effeithiol.
- Mae lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth. Ond mae angen cryfhau ei threfniadau ar gyfer mesur ac adrodd ar effeithiolrwydd ymyriadau llesiant.
 - Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, nodwyd/ cynghorwyd Archwilio Cymru y bydd hyn yn cael sylw yn adroddiad y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol a dderbyniwyd ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ym mis Mai 2023 a hefyd fel y bo'n briodol trwy Gylch Busnes Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau uchelgeisiol ar waith i harneisio potensial digidol i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau, ond erys rhai cynlluniau heb eu costio. Ymhellach, mae angen cryfhau trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar fanteision digidol.
 - Yn ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, nodwyd / cynghorwyd Archwilio Cymru y bydd datblygiad pellach ar fuddion digidol yn cael ei wneud mewn sawl ffordd:
 - (i) ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol yr adroddir arnynt i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol.
 - (ii) gwella eglurder buddion mewn prosiectau/achosion busnes fesul achos.
 - (iii) gweithredu'r mesurau a nodir yn y strategaeth ddigidol a chynlluniau gwasanaethau allweddol (e.e., metrigau ansawdd) a fydd yn dangos effaith gwasanaethau digidol ar ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau ac yn cynnwys % cyffredinol sy'n cael ei wario ar dechnoleg ddigidol.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth glir ar gyfer ei stadau a chynaliadwyedd amgylcheddol ac mae ganddi drefniadau da ar waith i sicrhau bod y Bwrdd yn goruchwyllo ac yn craffu ar risgiau a materion allweddol sy'n ymwneud ag ystadau.

Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn ymdrin â chyfleoedd gwella a nodwyd o waith Asesiad Strwythuredig 2022, a bydd cynnydd parhaus yn cael ei fonitro drwy Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth drwy graffu ar y Cynllun Gweithredu Archwilio.

PARHAD BUSNES A PHARODRWYDD AM ARGYFYNGAU

Parhad Busnes a Pharodrzydd ar gyfer Argyfyngau:

Rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau brys a threfniadau parhad busnes ar waith sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a'r Canllawiau Cynllunio at Argyfwng a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre gyflwyno Adroddiad Cynllunio at Argyfwng blynyddol sy'n nodi'n fras eu lefel o gydymffurfedd o ran bodloni'r gofynion hyn a hefyd gyflwyno copi o'u cynllun digwyddiadau mawr/argyfyngau cyfredol i'w archwilio. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau brys a parhad busnes effeithiol ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023, yn unol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a'r Canllawiau Cynllunio at Argyfwng a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdani i Lywodraeth Cymru ac mae'n parhau i wneud cynnydd sylweddol yn ei fframwaith Parhad Busnes a Pharodrzydd am Argyfwng, sy'n cynnwys cynllunio amlochrog, wedi'i ategu gan drefniadau rheoli risg cadarn. Mae'r amgylchedd newidiol o risg yn golygu bod y strategaethau a'r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn unol â Chofrestrau Risg Cenedlaethol a Chymru gyfan. Mae bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gwella strategaethau lliniaru risgiau a mecanweithiau ymateb y sefydliad. Mae'r cynlluniau hyn yn gymesur â lefel y risg y mae'r Ymddiriedolaeth yn tybio y bydd yn agored iddi.

Cydweithrediad a Rhannu Gwybodaeth:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid ar draws nifer o themâu amrywiol, wedi'u hintegreiddio â GIG Cymru, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, ei phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaethau Gwaed eraill y DU i wella ymhellach y trefniadau o estyn cymorth rhwng gwasanaethau i gynnal parhad a diogelwch y gadwyn cyflenwi gwaed.

Hyfforddiant ac Ymarfer Corff:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu â Grŵp Cyngori Cynllunio at Argyfwng Llywodraeth Cymru a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ynghylch strategaethau allweddol ar gyfer llwythi gwaith, gan gynnwys hyfforddiant ac ymarfer mewnol ac allanol. Mae cymryd rhan mewn ymarferion amlddisgyblaethol yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gwmpasu'r gwersi a ddysgwyd a chysoni â chynlluniau ar gyfer argyfyngau iechyd ehangach gyda'r nod o wella'r gweithdrefnau presennol ymhellach.

Rhaglen Waith 2023/2024:

Yn ystod 2023/2024, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu a gwella ei system rheoli parhad busnes yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn cysoni â chanllawiau arfer gorau cyfredol a sicrhau

bod yr Ymddiriedolaeth yn barod ar gyfer unrhyw drefniadau cynllunio ar gyfer argyfyngau a pharhad busnes yn y dyfodol.

CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2023/2024 –2025/2026

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol, sy'n ymdrechu i ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn eithriadol gan y bobl sy'n eu defnyddio, y bobl sy'n gweithio ynddynt, a chan sefydliadau sydd yn gweithio gyda ni.

Diben Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw 'gwella bywydau' ac mae gennym weledigaeth o 'ofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a phobl iachach'.

Mae ein hegwyddorion arweiniol wedi'u seilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cefnogir ein pwrpas a'n gweledigaeth gan gyfres glir o bum Nod Strategol i'w cyflawni drwy gyfres benodol o gyflawniadau allweddol, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer ein Cynllun Tymor Canolig Integredig dros y tair blynedd nesaf:



Cyrchfan 2032: Ein Golwg ar y Dyfodol

Ein Pwrpas: Gwella Bywydau

Ein Gweledigaeth: Gofal Ardderchog, Dysgu Ysbrydoledig, Pobl Iachach

Ein Nodau Strategol

Eithriadol o ran ansawdd, diogelwch a phrofiad

Darparwr gwasanaethau clinigol eithriadol o fri rhyngwladol sydd bob amser yn bodloni disgwyliadau ac yn rhagori arnynt yn rheolaidd

Sefydliad disglair ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn ein meysydd blaenoriaeth

Ymddiriedolaeth 'Prifysgol' sefydledig sy'n darparu gwybodaeth a dysgu a werthfawrogir yn fawr i bawb

Sefydliad cynaliadwy sy'n chwarae ei ran i greu dyfodol gwell i bobl ledled y byd

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Velindre University NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Cyrchfan 2032

Mae GIG Cymru yn system wedi'i chynllunio ac mae angen i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth feddu ar Gynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gyllido'n llawn am gyfnod treigl o dair blynedd. Yn unol â'r ddyletswydd statudol a osodwyd, rydym wedi cyflwyno ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, ar gyfer y cyfnod 2023/24 – 2025/2026, i Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd hyn gan Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 30 Mawrth 2023.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod holl oblygiadau'r sefydliad o dan ddeddfwriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu bodloni.

Mae'r mesurau rheoli'n cynnwys:

- Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blyneddol yr Ymddiriedolaeth
- Adroddiadau Cydraddoldeb I'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ar Amcanion a Chamau Gweithredu'r Ymddiriedolaeth o ran Cydraddoldeb
- Adroddiadau i ymholiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Adroddiad i Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.
- Darparu tystiolaeth i'r Archwiliad Safonau Gofal Iechyd, yn benodol Safon 2.
- Aseiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb

CASGLIAD

Fel y nodwyd drwy'r datganiad hwn, bydd yr angen i barhau i ddatblygu ac esblygu wrth inni symud ymlaen o'r pandemig COVID-19, gyda'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach drwy gydol 2023-2024 ac ymlaen. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn, wrth barhau hefyd i wneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd wedi codi mewn ymateb i gamau amrywiol y pandemig.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon 2022-2023.

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethu o bwys yn ystod y cyfnod hwn.

Llofnodwyd gan:



Mr. Steve Ham
Prif Weithredwr

Dyddiad: 27/07/2023

**ATODIAD 1 - DATGANIAD LLYWODRAETHU
GWEITHGAREDD BWRDD, PWYLLGORAU, GRŴP YMGYNGHOROL A
FFORYMAU'R YMDDIRIEDOLAETH
2022 -2023**

Mae'r tabl isod yn amlinellu rhywfaint o'r prif bwyntiau a'r gweithgarwch a ystyriwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i Phwyllgorau yn ystod 2022-2023. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr.

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
<p>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p> <p>https://velindre.nhs.wales/about-us/trust-board/public-trust-board-meetings/</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 26.05.2022 • 14.06.2022 • 28.07.2022 • 29.09.2022 • 24.11.2022 • 31.01.2023 • 30.03.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Crynodebau/penawdau lefel uchel o bynciau allweddol a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2022-2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau Diweddarau gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr • Adroddiadau Camau Brys y Cadeirydd • Ymrwymiad o Wariant sy'n uwch na Therfyn y Prif Weithredwr • Adroddiadau Diweddarau Polisi • Dogfennau Adroddiadau 'Wedi'u Selio' • Adroddiadau Uchafbwyntiau ac Adroddiadau Blynyddol Pwyllgor y Bwrdd • Briffiau Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys • Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth y Cydwasanaethau • Adroddiadau Perfformiad • Adroddiadau Ariannol • Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 • Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth a Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth • Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ac Adroddiadau Cyflawni Cynnydd • Cyfarfodydd Arddangos Llysgenhadon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant • Datblygu Cyfeiriad Strategol Ein Dyfodol 2022 – 2032: strategaethau

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<p>galluogi (cynaliadwyedd, pobl, digidol ac ystadau)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre • Adrodd ar yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig • Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cefnogi Gwaed Heintiedig Cymru (Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru) • Achos Busnes Llawn Datrysiaid Radiotherapi Integredig • Achos Busnes Llawn Canolfan Loeren Radiotherapi
<p>Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol</p>	<p>Cynhaliwyd Paneli:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14/06/22 • 20/07/22 • 23/02/23 	<p>Mae'r Pwyllgor Penodi Ymgynghorwyr Cynghorol yn cyfarfod yn ôl yr angen i reoli'r trefniadau ar gyfer penodi i swyddi Ymgynghorwyr y GIG o fewn yr Ymddiriedolaeth.</p>
<p>Pwyllgor Archwilio Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 05.04.2022 • 29.06.2022 • 13.07.2022 • 11.10.2022 • 24.01.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Derbyniwyd Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio PCGC yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022 ac mae ar gael yma.</p>
<p>Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p> <p>https://velindre.nhs.wales/about-us/audit-committee/</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 03.05.2022 • 13.06.2022 • 19.07.2022 • 04.10.2022 • 12.01.2023 • 25.04.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Diben y Pwyllgor Archwilio yw:</p> <p>Cynghori a sicrhau'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith – trwy gynllunio a gweithredu system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth – i'w cefnogi wrth iddynt wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu hatebolrwydd i sicrhau y cyflawnir amcanion y sefydliad, yn unol â safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer GIG Cymru.</p> <p>Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei system sicrwydd ymhellach.</p>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio sy'n amlinellu gweithgarwch y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 gan y Pwyllgor Archwilio ar 12 Ionawr 2023 ac mae ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma :
<p>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 17.05.2022 • 20.09.2022 • 19.01.2022 • 21.03.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Penodwyd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn Ymddiriedolwr Corfforaethol y Cronfeydd Elusennol yn rhinwedd Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) Rhif 2838 a ddaeth i fodolaeth ar 1 Rhagfyr 1993, ac mae'r Bwrdd yn gwasanaethu fel ei asiant yn y broses o weinyddu'r cronfeydd elusennol a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth.</p> <p>Pwrpas y Pwyllgor "yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Elusennol yr Ymddiriedolaeth".</p> <p>Bydd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol ar gyfer 2022/23, sy'n amlinellu gweithgarwch y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023, yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor i'w gymeradwyo ym mis Mehefin 2023.</p> <p>Mae Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol hefyd yn derbyn Adroddiad Uchafbwyntiau gan Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol.</p>
<p>Y Fforwm Partneriaeth Lleol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 05/05/2022 • 05/07/2022 • 06/09/2022 • 08/11/2022 • 07/03/2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas y Fforwm Partneriaeth Lleol yw:</p> <p>Darparu mecanwaith ffurfiol lle mae'r Ymddiriedolaeth, fel cyflogwr, ac undebau llafur/cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli gweithwyr yr Ymddiriedolaeth (a elwir o hyn ymlaen yn sefydliadau staff) yn gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau iechyd ar gyfer y dinasyddion a wasanaethir gan yr</p>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<p>Ymddiriedolaeth – a gyflawnir trwy broses ymgynghori, negodi a chyfathrebu reolaidd ac amserol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Fforwm Partneriaeth Lleol gynrychioli gweithlu'r Ymddiriedolaeth yn effeithiol.</p> <p>Yn y Fforwm, bydd yr Ymddiriedolaeth a'r sefydliadau staff yn dod ynghyd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd; ac i lywio barn ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol ar faterion iechyd.</p> <p>Yn benodol, gallai'r Ymddiriedolaeth geisio cyngor ac adborth gan y Fforwm Partneriaeth Lleol ar unrhyw agwedd ar ei busnes, a gallai'r Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd gynnig cyngor ac adborth hyd yn oed os nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gofyn amdanynt. Gallai'r Fforwm Partneriaeth Lleol roi cyngor i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mewn cyngor ysgrifenedig neu, ○ Mewn unrhyw ffurf a nodir arall gan y Bwrdd. <p>Mae Adroddiad Blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol ar gyfer 2022/23, sy'n amlinellu gweithgaredd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023 i fod i gael ei dderbyn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023.</p>
<p>Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 12.05.2022 • 14.07.2022 • 15.09.2022 • 10.11.2022 • 17.01.2022 • 16.03.2022 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yw darparu:</p> <p>Cyngor amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau o ran: ansawdd, diogelwch a pherfformiad gofal iechyd; pob agwedd ar y gweithlu; cyflwyno digidol a llywodraethu gwybodaeth; a</p> <p>Sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer</p>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<p>diogelu a gwella ansawdd, diogelwch a pherfformiad gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr gwasanaeth, materion y gweithlu, darpariaeth ddigidol a llywodraethu gwybodaeth yn unol â'i amcanion datganedig, cyfrifoldebau deddfwriaethol a'r gofynion a'r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru.</p> <p>Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2023 yn cael ei gymeradwyo ym Mhwyllgor Gorffennaf 2023.</p>
<p>Pwyllgor Datblygu Strategol</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 16.05.2022 • 07.07.2022 • 13.10.2022 • 08.12.2022 • 07.02.2023 • 24.03.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas y Pwyllgor Datblygu Strategol yw darparu:</p> <p>Cyngor amserol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeiriad strategol • cynllunio strategol a materion cysylltiedig • datblygu sefydliadol • gwasanaethau digidol, ystadau a gwasanaethau galluogi eraill • datblygu cynaliadwy a gweithredu strategaeth drwy ysbryd a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • buddsoddiad yn unol â gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth <p>Sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â gwneud penderfyniadau strategol, gan sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi gan ddealltwriaeth gadarn o risgiau mewn perthynas â chyflawni nodau sefydliadol ac amcanion strategol.</p> <p>Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei system sicrwydd ymhellach.</p>

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Datblygu Strategol sy'n amlinellu gweithgaredd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022 yn cael ei gymeradwyo yn ei bwyllgor ym mis Gorffennaf 2023.
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • 28/04/2022 • 22/09/2022 • 25/10/2022 • 09/02/2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas y Pwyllgor Tâl yw darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyngor i'r Bwrdd ar daliadau a thelerau gwasanaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru; a • sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer tâl a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau dan gontract, ar gyfer ystaff i gyd, yn unol â'r gofynion a'r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. <p>A chyflawni rhai swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd.</p>
Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma :	<ul style="list-style-type: none"> • 07.04.2022 • 21.07.2022 • 15.11.2022 • 28.02.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas yr Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yw darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Goruchwyllo strategaeth a pholisi ar gyfer gweithgareddau Arloesi ac Ymchwil yn yr Ymddiriedolaeth, a chynghori ar berfformiad a'i fonitro yn y meysydd hyn. • Hyrwyddo ac annog ethos a diwylliant Arloesi ac Ymchwil sy'n greiddiol i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth. • Rhoi cyngor amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chwrdd â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch gweithgareddau Arloesi ac Ymchwil. O ran ymchwil, mae hyn yn cynnwys gweithgarwch a gwblhawyd yn yr Ymddiriedolaeth, a hynny fel noddwr

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<p>ymchwil a sefydliad a letyir.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Treialon Clinigol yr UE 2004 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd. Meithrin cydweithrediad a gwneud argymhellion ar fabwysiadu a rhyddhau. Ystyried materion perthnasol mewn perthynas â'r paramedrau a nodwyd ar gyfer parodrwydd i dderbyn risg o ran ymchwil, datblygu ac arloesi, fel y mae'r Bwrdd yn ei osod.
<p>Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser Is-bwyllgor</p> <p>Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma:</p>	<ul style="list-style-type: none"> 04.05.2022 19.05.2022 21.06.2022 19/07/2022 22.09.2022 18.10.2022 17.11.2022 26.01.2023 23.03.2023 <p>Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Pwrpas yr Is-bwyllgor Craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TCS) yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi sicrwydd bod y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn ddigon cadarn i gyflawni canlyniadau a buddion y rhaglen. Craffu ar gynnydd y rhaglen a rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod y gweithrediad yn effeithiol, yn effeithlon ac o fewn y gyllideb sydd ar gael. Ymgymryd ag unrhyw weithgarwch craffu arall sy'n ymwneud â'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth neu'r Uwch Berchennog Cyfrifol. Ceisio cyngor ac arweiniad gan Gyngorwyr Technegol priodol yn ogystal â'r Trafodwr MIM (os yw'n ymwneud â Phrosiect nVCC) i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'u gwaith craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar bob agwedd ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser mewn perthynas â chymeradwyaeth a

Cyfarfod:	Dyddiadau Cyfarfodydd:	Gweithgaredd:
		<p>geisir ar bob penderfyniad a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd llawn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn yr holl adolygiadau archwilio, porth a sicrwydd sy'n ymwneud â'r rhaglen neu ei phrosiectau cyfansoddol a rhoi sicrwydd (neu fel arall) i'r Ymddiriedolaeth bod y rhaglen yn cael ei darparu yn unol â holl safonau proffesiynol ac ariannol yr Ymddiriedolaeth a safonau'r Ymddiriedolaeth. • Rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a chefnogaeth i'r Uwch Swyddog Cyfrifol wrth nodi gweithgareddau cau Trawsnewid Gwasanaethau Canser unwaith y bydd wedi cyflawni ei amcanion. • Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Swyddog Atebol ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei system sicrwydd mewn perthynas â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser ymhellach.

ATODIAD 2 - Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd
Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Pwyllgorau, Grŵp Cyngori a Fforymau 2022- 2023

ENW	SWYDD A MAES CYNRYCHOLAETH	AELODAETH Y BWRDD, PWYLLGORAU, GRŴP YMGYNGHOROL A FFORYMAU A CHOFNOD O BRESENOLDEB	RÔL HYRWYDDWR	MEYSYDD ARBENIGEDD
Yr Athro Donna Mead, OBE	Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cadeirydd) 7/7 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) 4/4 • Cadeirydd y Pwyllgor Tâl (Cadeirydd) 4/4 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 5/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 4/6 • Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 4/4 • Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 8/9 	Hyrwyddwr yr Ymddiriedolaeth dros y Lluoedd Arfog a Chynfilwyr, Ymddiriedolaeth y Brifysgol	Addysg Uwch, Ymchwil, y GIG ac Addysg, Partneriaethau a Chydweithio.
Stephen Harries	Is-gadeirydd	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 6/7 • Pwyllgor Datblygu Strategol (Cadeirydd) 5/6 • Is-Bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (Cadeirydd) 7/10 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 5/6 • Pwyllgor Tâl 4/4 	Digidol ac Iechyd Meddwl	Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

ENW	SWYDD A MAES CYNRYCHOLAETH	AELODAETH Y BWRDD, PWYLLGORAU, GRŴP YMGYNGHOROL A FFORYMAU A CHOFNOD O BRESENOLDEB	RÔL HYRWYDDWR	MEYSYDD ARBENIGEDD
Gareth Jones	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 6/7 • Pwyllgor Datblygu Strategol 5/6 • Pwyllgor Archwilio 5/5 • Pwyllgor Archwilio PCGC 4/4 • Pwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 7/10 	Gwybodaeth i Gleifion a'r Iaith Gymraeg.	Cyfreithiol
Hilary Jones	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 6/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 4/4 • Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol 2/2 • Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 9/10 	Ymgysylltu â Chleifion a Phrofiad y Claf, Datblygu Cynaliadwy a Dylunio	Ystadau a Chynllunio
Vicky Morris	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 5/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (Cadeirydd) 5/6 • Pwyllgor Archwilio 5/5 • Pwyllgor Archwilio PCGC 4/4 • Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 4/4 	Atal Heintiau, Gwendid a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol	Ansawdd a Diogelwch
Martin Veale	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 5/7 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 4/4 • Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol (Cadeirydd) 2/2 • Pwyllgor Archwilio 4/5 • Pwyllgor Tâl 3/4 • Pwyllgor Archwilio PCGC (Cadeirydd) 4/4 	Sefydliadau Lletyol a Fframwaith Perfformiad	Cyllid, Archwilio a Llywodraethu
Yr Athro Andrew Westwell	Aelod Annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 7/7 • Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (Cadeirydd) 4/4 • Pwyllgor Datblygu Strategol 5/6 	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.	Cynrychiolydd y Brifysgol

ENW	SWYDD A MAES CYNRYCHOLAETH	AELODAETH Y BWRDD A'R PWYLLGORAU A CHOFNOD O BRESENOLDEB	PRIF SWYDDOGAETH
Steve Ham	Prif Weithredwr	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 4/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 5/6 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 3/4 • Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol 0/2 • Pwyllgor Tâl 3/4 • Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 1/4 • Is-bwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 4/10 • Fforwm Partneriaeth Lleol 1/5 	Prif Weithredwr Swyddog Atebol
Carl James	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 7/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 5/6 • Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 9/10 • Pwyllgor Archwilio (Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro) 1/5 • Pwyllgor Tâl (Prif Weithredwr Dros Dro) $\frac{1}{4}$ 	Trawsnewid Strategol, Cynllunio, Digidol ac Ystadau.
Jacinta Abraham	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 7/7 • Is-Bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 4/4 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 2/10 • Pwyllgor Datblygu Strategol 4/6 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 2/4 • Pwyllgor Archwilio 3/5 	Cyfarwyddwr Meddygol ac Ymchwil

ENW	SWYDD A MAES CYNRYCHOLAETH	AELODAETH Y BWRDD A'R PWYLLGORAU A CHOFNOD O BRESNOLDEB	PRIF SWYDDOGAETH
Matthew Bunce	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 7/7 • Pwyllgor Archwilio 5/5 • Pwyllgor Archwilio PCGC 4/4 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 5/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 6/6 • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 4/4 • Pwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 7/10 • Is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Buddsoddiadau'r Cronfeydd Elusennol 2/2 • Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 3/4 • Fforwm Partneriaeth Lleol 2/5 	Cyllid a Chronfeydd Elusennol
Sarah Morley	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 6/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 5/6 • Pwyllgor Tâl 4/4 • Fforwm Partneriaeth Lleol (Cadeirydd) 5/5 	Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu
Nicola Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd yr Ymddiriedolaeth 5/7 • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad 4/6 • Pwyllgor Datblygu Strategol 4/6 • Is-bwyllgor Craffu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 2/10 • Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi 3/4 • Fforwm Partneriaeth Lleol 1/5 	Ansawdd a Diogelwch, Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd.

ATODIAD 3 –Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
Cyfarwyddiadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 20222	8 Rhagfyr 2022	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
Cyfarwyddiadau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn adrodd ar gyflwyno meddyginiaethau newydd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2023	24 Mawrth 2023	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/09) Blaenoriaethu cynnodau cleifion COVID-19 gan adrannau codio clinigol GIG Cymru	04 Ebrill 2022	Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol a Phrif Swyddog Gweithredu.	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/015) Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV	01 Mehefin 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/016) Raglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag Fflw 2022 i 2023.	01 Mehefin 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/002) Cynllun archwilio clinigol cenedlaethol ac adolygu canlyniadau 2022 i 2023	14 Mehefin 2022	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/12) Cynllun rhoi a thrawsblanu 2022-2026	16 Mehefin 2022	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/18) Llwybr lle'r amheuir cancer : canllawiau	30 Mehefin 2022	Prif Swyddog Gweithredu	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/020) Digwyddiadau 'Byth' – polisi a rhestr digwyddiadau, Gorffennaf 2022	22 Gorffennaf 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Arweinydd/ion Gweithredol:	Statws
(WHC/2022/021) Y llwybrau cenedlaethol gorau ar gyfer canser	28 Gorffennaf 2022	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredu, Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol.	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/023) Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV (WHC/2022/023)	09 Medi 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/011) Fframwaith profi cleifion COVID-19	22 Medi 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/026) Dull gweithredu o ran feirysau anadlol: canllaw technegol ar gyfer cynllunio gofal iechyd	11 Hydref 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/031) Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer rhaglen frechu rhag fflw tymhorol (ffliw) y GIG 2023 i 2024	08 Rhagfyr 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2022/035) Ymarfer 'mopio i fyny' y rhaglen frechu rhag y fflw 2022 i 2023 (WHC/2022/035)	22 Rhagfyr 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.
(WHC/2023/04) Brechlyn atgyfnerthu COVID-19 y gwanwyn 2023	08 Mawrth 2023	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Iechyd	Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn wedi'i ddeddfu.

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD ARIANNOL

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol fel pob sefydliad yn GIG Cymru, a barhaodd i fod yn anodd yn 2022/2023 gan fod cynnydd sylweddol mewn costau ynni ac roedd dod dros pandemig COVID-19 yn dal i olygu bod angen gwariant ychwanegol sylweddol. Ond er gwaetha'r heriau hyn, mae Cyfarwyddwyr, timau cyllid a staff ar draws y sefydliad yn ceisio dod o hyd i gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd ac i ganfod ffyrdd o gwtogi ar gostau cylchol wrth barhau i gynnal a gwella gwasanaethau lle bynnag y bo'n bosibl.

Yn ystod 2022/23 aeth Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth i wariant ychwanegol i sefydlu capasiti ychwanegol, cefnogi brechu torfol, darparu PPE, cynnal gwell glanhau ac ati yn ei ymateb i'r pandemig. Rhoddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr trwy incwm twf gweithgaredd LTA gwarchoddedig gyllid i'r Ymddiriedolaeth i dalu am y materion hyn yn ymwneud â COVID-19 a sicrhodd nad oeddent yn effeithio ar yr Ymddiriedolaeth yn cyrraedd y targed allweddol o sicrhau nad oedd ei gwariant refeniw yn fwy nag incwm.

Er gwaethaf yr heriau hyn, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni pob un o'r tri tharged ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022/2023. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cynllun ariannol cytbwys ar gyfer 2023/2024 i 2025/2026 sy'n cynnwys swm sylweddol o risg, felly bydd yn anodd cyflawni'r targed allweddol o wariant refeniw sy'n aros o fewn incwm yn 2023/2024, a'r dyfodol rhagweladwy, wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i ymateb i'r ôl-groniad o alw wrth ddod dros y pandemig, ac ariannu costau ynni sylweddol uwch a chwyddiant cyffredinol mewn prisiau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel o werth ac ansawdd uchel gyda'r canlyniadau gorau posibl i'w chleifion, wrth ymdrechu i gyflawni hyn trwy wasanaethau effeithlon ac effeithiol, ac felly bydd parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd a nodi gostyngiadau rheolaidd mewn costau yn ffocws blaenoriaeth i'r sefydliad.

TARGEDAU ARIANNOL

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bodloni pob un o'i thri tharged ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:

- Dyletswydd adennill costau - Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged refeniw o £0.076m yn 2022/2023 (2021/2022: gwarged o £0.041m; 2020/2021: gwarged o £0.038m), gan arwain at warged o £0.155m dros gyfnod o dair blynedd. Felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd ariannol statudol i sicrhau ei bod yn adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd.
- Dyletswydd i baratoi cynllun integredig 3 blynedd - Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gynllun integredig 2022-2025 yn unol â'r fframwaith cynllunio ac felly mae wedi cyflawni ei dyletswydd statudol i gael cynllun ariannol cymeradwy.

- Taliadau credydwyr – Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw olaf). Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth y targed hwn, gan dalu 95.6% (2021/2022: 95.7%) o fewn yr amser gofynnol.

Fel rheol, byddai gan yr Ymddiriedolaeth bedwar targed ariannol i'w cyflawni: Terfyn Adnoddau Allanol (EFL) fyddai'r pedwerydd targed. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu'r targed hwn dros dro yn 2019/2020, mewn ymateb i'r pandemig, a disgwylir iddi ei ailgyflwyno yn 2023/2024.

FFIOEDD A THALIADAU - TÂL ARCHWILWYR

Cyfanswm y ffioedd a dalwyd i Archwilio Cymru am eu gwaith archwilio statudol a pherfformiad yn ymwneud â 2021 - 2022 oedd £260,000 gan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y £17,000 ar gyfer archwilio Elusen yr Ymddiriedolaeth.

RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL O BELL PERTHNASOL

Mae'r Ymddiriedolaeth yn lletya Cronfa Risg Cymru (CRC) fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae ffurflenni Cronfa Risg Cymru oddi wrth Sefydliadau Iechyd Cymru yn amcangyfrif bod gan yr Ymddiriedolaeth rwymedigaethau digwyddiadol o bell o £103m yn 2022/2023 (2021/2022: £60m), sy'n ymwneud â hawliadau ymgyfreitha posibl yn erbyn GIG Cymru a allai godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau hysbys. Oherwydd natur ac ansicrwydd yr hawliadau hyn, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi cael ei gwneud ar eu cyfer yn y cyfrifon.

TUEDDIADAU GWARIANT TYMOR HIR

	2018/2019	2019/2020	2020/2021	2021/2022	2022/2023
	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfanswm Refeniw	525,607	572,642	848,405	1,044,074	961,179
Cyflogau	160,551	182,684	242,072	294,020	404,977
Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau	352,075	373,015	587,320	738,544	551,840
Dibrisiant	16,466	17,186	17,554	10,222	11,860
Cyfanswm Gwariant	529,092	572,885	846,946	1,042,786	968,677
Refeniw a chostau anweithredol	3,295	440	(207)	(953)	10,324
Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cyfunol	(190)	197	1,252	335	2,826

Mae'r tabl uchod yn cynnwys incwm a gwariant cronfa elusennol yr Ymddiriedolaeth ac asedau sydd wedi'u rhoi i'r Ymddiriedolaeth, ac, yn achos 2021/2022, asedau sydd wedi'u rhoi gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae gwarged / (diffyg) blynyddol yr Ymddiriedolaeth, ac eithrio'r gronfa elusennol a'r asedau a roddwyd, yn cael ei ddangos gyferbyn:

	2018/2019	2019/2020	2020/2021	2021/2022	2022/2023
	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarged/(diffyg) ac eithrio cronfeydd elusennol ac asedau a roddwyd	31	24	38	41	76

Nodiadau

- Yn ystod 2018/2019 trosglwyddwyd Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS), a oedd yn rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, o'r Ymddiriedolaeth i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n sefydliad newydd. Yn sgil trosglwyddo WEDS, bu gostyngiad sylweddol ym maint yr incwm a'r gwariant yr adroddwyd amdanynt yn y tabl uchod, ond ni chafodd hyn unrhyw effaith ar warged / diffyg ariannol y flwyddyn honno.
- Yn ystod 2019/2020 sefydlwyd dau wasanaeth Cymru gyfan newydd ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - y Cynllun Archwilwyr Meddygol a'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.
- Yn ystod 2020/2021 sefydlwyd gwasanaeth Cymru Gyfan newydd o fewn PCGC – y Bartneriaeth Banc Cydweithredol; a dechreuodd dau wasanaeth presennol ehangu - y Cynllun Cyflogwr Arweiniol Sengl a'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol i gynnwys y derbyn graddol cyntaf i'r Cynllun Atebolrwydd Presennol.
- Yn 2021/2022 trosglwyddwyd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) o'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2021 i'r Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW). Parhaodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG i ehangu'r Cynllun Cyflogwr Arweiniol Sengl a sefydlu gwasanaeth Cymru Gyfan newydd – Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan.

- Yn ystod 2022/2023 cwblhaodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru broses gyflwyno fesul cam o'r holl hyfforddeion meddygol craidd ac arbenigol yn GIG Cymru drwy'r Cynllun Un Cyflogwr Arweiniol.

DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015

DATGANIAD TRYLOYWDER MEWN CADWYNNI CYFLENWI 2022/2023

Gwnaed y datganiad hwn i gydymffurfio ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r camau y mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi'u cymryd ac y mae'n parhau i'w cymryd, er mwyn sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a/neu fasnachu pobl yn digwydd yn yr Ymddiriedolaeth nac yn ei chadwyni cyflenwi yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn goddef unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern (caethwasiaeth, caethiwed, masnachu pobl a llafur gorfodol). Rydym wedi ymrwmo i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb a thryloywder ym mhob gweithgaredd busnes, yn ogystal â sefydlu systemau a rheolaethau effeithiol i ddiogelu yn erbyn unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth fodern sy'n digwydd yng nghadwyni cyflenwi'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwmo'n gyfan gwbl i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol. Wrth wneud hynny, mae wedi ymrwmo, fel cyflogwr y GIG, i gael gwared ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny trwy ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol a thrwy gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag unrhyw arferion cyflogaeth sy'n:

- Cefnogi caethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol.
- Cefnogi neu annog gweithredu cosbrestrau / rhestrau gwaharddedig;
- Hwyluso hunangyflogaeth ffug;
- Caniatáu'r defnydd o gynlluniau mantell ffug;
- Rhoi contractau dim oriau i weithwyr; a
- Hwyluso talu cyflogau sy'n is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Polisiâu a Mentrau Presennol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldebau at gleifion, rhoddwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned leol, ac mae'n disgwyl i'r holl weithwyr a chyflenwyr weithredu'n foesebol a chydag uniondeb, a hynny ym mhob perthynas fusnes.

Cymerwyd y camau canlynol gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes:

Pobl

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â chwe gofyniad y GIG mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogaeth, er mwyn gwirio bod ymgeiswyr yn bodloni rhagamodau'r swydd maent yn ymgeisio amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad ynghylch yr hawl i weithio yn y DU.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi a phrosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr neu weithwyr hunangyflogedig ffug o dan gynlluniau mantell. Mae'r broses hon yn sicrhau yr ymgysylltir â gweithwyr mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi gweithwyr ar gontractau dim oriau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi staff banc, ond rhoddir y cyfle i'r staff hyn ymgeisio am swyddi parhaol pe hoffent wneud hynny
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu ei gweithwyr sydd ar y cyflog isaf ar Fand Cyflog 2 (band cyflog isaf GIG Cymru). Mae'r cyflog yn cydymffurfio â'r Cyflog Byw Cenedlaethol.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac ystod o brosesau a gweithdrefnau sy'n sicrhau nad yw unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu weithiwr posibl sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth o dan anfantais afresymol mewn unrhyw ffordd o ran tâl, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd gyrfa;
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth lwyfan Gweithio'n Hyderus sy'n galluogi staff i godi a datrys pryderon yn gyfrinachol
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth ystod o bolisiau ar waith ar gyfer y gweithlu e.e. Polisi Parch a Datrys, Polisi Cwynion, Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith, Trais, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y Gweithle; ac ati. Mae ein polisiau yn galluogi ein cyflogeion i leisio eu pryderon am arferion gwaith gwael;
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) gan sicrhau bod cyflogeion yn yr Ymddiriedolaeth y gallai fod angen arnynt drosglwyddo i sefydliad newydd, yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth; ac
- Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cosbrestr / rhestr waharddedig;

Caffael a'n Cadwyn Gyflenwi

- Mae Tîm Caffael yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn rheoliadau caffael y GIG a'r DU ac mae'n cynnwys cwestiwn gwrthod gorfodol yn ymwneud â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
- Mae Polisi Cyflenwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru'r Ymddiriedolaeth yn amlinellu'r ffordd rydym yn ymddwyn fel sefydliad a sut rydym yn disgwyl i gyflogeion caffael a chyflenwyr weithredu.
- Mae dull Tîm Caffael yr Ymddiriedolaeth at gaffael a'n cadwyn gyflenwi yn cynnwys:
 - Sicrhau y caiff ein cyflenwyr eu dethol yn ofalus trwy feini prawf/prosesau dethol cyflenwyr cadarn;

- Mynnu bod y prif gontractwr yn darparu manylion am ei is-gontractwr/is-gontractwyr, er mwyn galluogi'r Tîm Caffael i wirio ei fanylion/eu manylion ar ran yr Ymddiriedolaeth;
 - Gofyn i'r prif gontractwr ddarparu manylion am ei gadwyn gyflenwi, a hynny ar hap;
 - Sicrhau bod dogfennau gwahoddiad i dendro yn cynnwys cymal ar faterion hawliau dynol;
 - Sicrhau bod dogfennau gwahoddiad i dendro hefyd yn cynnwys cymalau sy'n rhoi'r hawl i'r Ymddiriedolaeth derfynu contract am fethu â chydymffurfio â deddfau llafur;
 - Defnyddio Holiadur Dethol Cyflenwyr sy'n cynnwys adran ar Gaethwasiaeth Fodern;
 - Rhaid i staff yr Ymddiriedolaeth gysylltu â'r Tîm Caffael a gweithio â hwy wrth fynd ati i weithio gyda chyflenwyr newydd, er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwiriadau priodol;
 - Sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth a GIG Cymru. Nid ydym yn goddef caethwasiaeth na masnachu pobl ac felly disgwyliwn i'n holl gyflenwyr/contractwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol gydymffurfio â hyn;
- Gofynnir am sicrwydd gan gyflenwyr trwy'r broses dendro nad ydynt yn defnyddio cosbrestrau / rhestrau gwaharddedig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gallu rhoi cadarnhad a sicrwydd nad yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cosbrestr / rhestr waharddedig.
 - Defnyddir arolwg tracio cydymffurfedd yr Adroddiad Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi – Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a hynny trwy gontractau sydd wedi'u caffael gan Wasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Hyfforddiant

- Darperir cyngor a hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl i gyflogeion trwy ein rhaglenni hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion, ein polisïau a gweithdrefnau diogelu a'n harweinydd diogelu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio ffyrdd newydd o gynyddu ymwybyddiaeth yn barhaus yn ein sefydliad, ac o sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o'r risgiau sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a hynny yn ein cadwyni cyflenwi ac yn ein busnes.

Polisïau a Mentrau 2022 /2023

Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a / neu fasnachu pobl yn digwydd yn ein sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

YR ADRODDIAD TÂL A STAFF

Cofnodir manylion y Berthynas Tâl ar dudalen 97 yr Adroddiad Atebolrwydd ac yn nodyn 10.6 y Cyfrifon Blyneddol.

Mae'r cyflog a'r telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol a'r uwch-reolwyr wedi cael ac yn mynd i gael eu pennu gan Bwyllgor Tâl a Thelerau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, o

fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth hefyd geisiadau yn ymwneud â'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Ymddiriedolaeth yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd ac yn Gynrychiolydd Undeb Llafur. Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Mae manylion aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn cael eu nodi ar dudalennau 8-12 adran Adroddiad y Cyfarwyddwyr yr adroddiad hwn.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol. Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog. Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cynllun tâl ar sail perfformiad.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yr opsiwn o gael car prydles, o dan delerau cytundeb ceir prydles yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol, y gellir eu terfynu drwy roi rhybudd priodol oni bai am resymau o gamymddygiad.

Ni fu unrhyw daliadau i gyn Weithredwyr nac i gyn uwch-reolwyr eraill yn ystod y flwyddyn.

Mae'n ofynnol i'r adroddiad ar daliadau gynnwys gwybodaeth am gyflog uwch-reolwyr. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd/ Pennaeth Staff. Dangosir manylion llawn tâl uwch reolwyr yn nes ymlaen yn y tabl sy'n dechrau ar dudalen 90.

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynyddol gan eu bod yn cynrychioli staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2023 tra bo'r Cyfrifon Blynyddol (nodyn 10.2) yn dangos nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn.

Tryloywder tâl uwch yn y Sector Cyhoeddus Cymreig datganoledig - ATODIAD 10.

Canllaw i Fynd i'r Afael ag Arferion Cyflogaeth Annheg a Hunangyflogaeth Ffug -
<https://gov.wales/docs/dpsp/publications/valuewales/170620-unfair-employment-en.pdf> - ATODIAD 10

CYFANSODDIAD Y STAFF YN ÔL RHYW

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhyw. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2023. Dylid nodi nad yw'n cynnwys y rhai mewn swyddi Banc, Locwm ac Anrhydeddus.

*FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn

Rhyw	Cyfrif pennau	Cyfwerth ag Amser Llawn	% y Cyfrif Pennau
Benyw	1,235	1,075.83	75.26%
Gwryw	406	385.39	24.74%
Cyfanswm	1,641	1,461.23	100%

Ceir dadansoddiad o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr yr Ymddiriedolaeth yn ôl rhyw yn y tabl isod. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r cyfansoddiad fel ar 31 Mawrth 2023. Mae'r data'n cadarnhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fwy o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch-reolwyr benywaidd na gwrywaidd. Cyflogir gweithwyr benywaidd mewn pump allan o wyth swydd Cyfarwyddwr Gweithredol ac Uwch Reolwyr yr Ymddiriedolaeth.

Teitl y Swydd	Rhyw	Cyfrif pennau	Cyfwerth ag Amser Llawn	% y Cyfrif Pennau
Prif Swyddog Gweithredol	Gwryw	1	1	12.50%
Prif Swyddog Gweithredu	Benyw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Gwryw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Meddygol	Benyw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a Gwyddor Gofal lechyd	Benyw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu	Benyw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	Gwryw	1	1	12.50%
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	Benyw	1	1	12.50%
Cyfanswm		8	8	100%
	Gwryw	3		37.50%
	Benyw	5		62.50%

CYFANSODDIAD Y STAFF YN ÔL GRŴP STAFF

Yn ystod 2022/2023, nifer cyfartalog y staff gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn oedd yn cael eu cyflogi'n barhaol gan yr Ymddiriedolaeth oedd 3,718. Cyfrifir nifer cyfartalog y staff fel nifer cyfwerth ag amser llawn y staff ym mhob wythnos o'r flwyddyn ariannol wedi'i rannu â nifer yr wythnosau yn y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl grŵp staff ac yn ogystal â staff a gyflogir yn barhaol, mae'n dangos staff ar Secondiad mewnol, staff asiantaeth a staff eraill.

	Nifer Cyfartalog y Gweithwyr Gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn						
	Wedi'u Cyflogi yn Barhaol	Staff ar Secondiad Mewnol	Staff Asiantaeth	Hyfforddai Arbenigol	Staff Eraill	2022/2023 Cyfanswm	2021/2022 Cyfanswm
Staff Gweinyddol, Clercol ac Aelodau'r Bwrdd	2,029	12	18	0	62	2,121	2,029
Meddygol a Deintyddol	84	1	0	30	6	121	117
Nyrsys a Bydwagedd Cofrestredig	208	0	0	0	5	213	204
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a	77	0	1	0	0	78	73
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	232	0	1	0	10	243	247
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i	140	0	7	0	0	147	139
Gwyddonwyr Gofal	157	0	1	0	7	165	153
Ystadau ac Ategol	524	0	36	0	65	625	641
Myfyrwyr	3	0	0	0	2	5	3
Cyfanswm	3,454	13	64	30	157	3,718	3,606

DATA ABSENOLDEB SALWCH 2022 / 23

Adroddiad	2022/23	2021/22	Amrywiant
Cyfanswm y Diwrnodau CALI (FTE) a Gollwyd (Hirdymor):	21279.7	22290.4	-1,011
Cyfanswm y Diwrnodau CALI (FTE) a Gollwyd (Tymor byr):	11019.6	8873.39	2,146
Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd:	32299.2	31163.8	1135.47
Cyfartaledd y Staff a Gyflogwyd yn y Cyfnod – CALI (FTE)	1441.05	1404.72	36.33
Diwrnodau Gwaith Cyfartalog a Gollwyd (CALI)	6.17	5.29	0.88
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl): (HC)	1641	1610	31
Cyfanswm y Staff a Gyflogwyd yn ystod y Cyfnod heb unrhyw Absenoldeb oherwydd Salwch (nifer y bobl):	573	618	-45
Canran y Staff heb unrhyw Absennol oherwydd Salwch:	34.92	38.39	-3.47

Mae tîm y Gweithlu yn gweithio gydag Is-adrannau i reoli lles staff ac absenoldeb oherwydd salwch. Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer Is-adrannau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch ac absenoldeb salwch oherwydd COVID. Mae ymyriadau i gefnogi rheolwyr yn cyd-fynd â'r rhesymau dros salwch er mwyn sicrhau ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi staff. Cynhelir archwiliadau salwch rheolaidd ac mae sesiynau galw heibio i reolwyr ar gael i gefnogi rheolwyr i sicrhau bod staff yn cael eu hannog yn ôl i'r gwaith.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig ac yn darparu mynediad am ddim hefyd i staff i amrywiaeth eang o ymyriadau therapi meddygol, seicolegol a chyflenwol traddodiadol, i'w cynorthwyo i reoli eu hiechyd a'u lles yn rhagweithiol ac yn adweithiol. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Cymorth i Weithwyr, y gall aelodau'r teulu ei defnyddio am ddim hefyd.

Salwch seicolegol yw'r prif reswm dros absenoldeb salwch ar draws yr Ymddiriedolaeth o hyd. Er mwyn darparu cymorth priodol i staff yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar ymyriadau i gefnogi lles seicolegol ein staff. Mae hyn wedi cynnwys sesiwn galw heibio gyda'n tîm lles yn ogystal â chymorth ar y safle gan wasanaeth ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Fel rhan o'n cynllun lechyd a Lles rydym yn hyfforddi hyrwyddwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl ac yn cynnal nifer o rwydweithiau staff i gefnogi staff.

POLISIŌAU STAFF

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr Ymddiriedolaeth neu sy'n cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth. Gellir cael mynediad i holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (ARCHWILIEDIG) – UN FFIGUR CYFANSWM Y TALIADAU

Mae'r Adroddiad hwn ar Daliadau yn cynnwys un ffigur cyfanswm y taliadau. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un ffigur y cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronedig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd blwyddyn ychwanegol o wasanaeth i ystyriaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiynadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch-reolwyr. Fel y nodwyd ar dudalennau 12-13 mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd/ Pennaeth Staff.

**TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (ARCHWILIEDIG) –
UN FFIGUR CYFANSWM TÂL (PARHAD)**

Enw a Theitl	2022/2023					2021/2022				
	Cyflog (bandiau o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddian nau mewn Nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddian nau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm (i'r £5,000)	Cyflog (bandiau o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddian nau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm (i'r £5,000)
Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr										
Steve Ham, Prif Weithredwr	150-155	0	0	12	160-165	145-150	0	0	45	190-195
Matthew Bunce Cyfarwyddwr Gweithredol	115-120	0	0	35	150-155	55-60	0	0	79	135-140
Jacinta Abraham Cyfarwyddwr Meddygol	120-125	30-35	0	8	155-160	115-120	30-35	0	86	230-235
Catherine O'Brien, Prif Swyddog	125-130	0	4	12	135-140	120-125	0	0	63	180-185
Lauren Fear Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	90-95	0	0	23	115-120	90-95	0	0	22	110-115
Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol	115-120	0	0	9	120-125	110-115	0	0	53	165-170

Enw a Theitl	2022/2023					2021/2022				
	Cyflog (bandi au o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddian nau mewn Nwydda u (i'r £100 agosaf)	Buddia nnau pensiw n (i'r £1,000 agosaf)	Cyfansw m (i'r £5,000)	Cyflog (bandi au o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddion mewn Nwydd au (i'r £100 agosaf)	Buddian nau pensiw n (i'r £1,000 agosaf)	Cyfansw m (i'r £5,000)
Sarah Morley, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	100-105	0	0	18	115-120	95-100	0	0	38	135-140
O dan arweiniad Carl James, Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol ^{3, 4}	125-130	0	4	0	125-130	120-125	0	1	50	170-175

Nodiadau:

1. Penodwyd M Bunce i rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar 27/09/2021. Y band cyflog blynyddol ar gyfer y rôl hon yn ystod 2021/2022 oedd £110-115k.
2. Mae tâl arall i J Abraham yn ymwneud â chyfrifoldebau clinigol.
3. Mae buddion mewn nwyddau i C James a C O'Brien yn ymwneud â defnyddio car prydles yr Ymddiriedolaeth a thaliadau milltiroedd trethadwy.
4. Derbyniodd tri swyddog daliadau yn ystod y flwyddyn am werthu gwyliau blynyddol 2021/2022. Mae'r rhain yn cynnwys M Bunce £4.2k, C O'Brien £1.9k a C James £4.7k.
5. Nid yw'r ffigurau sy'n ymwneud â phensiynau uchod wedi'u diweddarau gydag unrhyw gynnydd mewn cyflogau yn ymwneud â 2022/2023, oherwydd cytunwyd ar godiadau i raddfeydd cyflog ar ôl i'r wybodaeth am bensiynau ar gyfer 2022/2023 gael ei darparu gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG.

**TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (ARCHWILIEDIG) –
UN FFIGUR CYFANSWM TÂL (PARHAD)**

Enw a Theitl	2022/2023					2021/2022				
	Cyflog (bandiau o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddian nau mewn Nwydda u (i'r £100 agosaf)	Buddian nau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfansw m (i'r £5,000)	Cyflog (bandiau o £5,000)	Tâl Arall (bandiau o £5,000)	Buddian nau mewn Nwydda u (i'r £100 agosaf)	Buddian nau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfansw m (i'r £5,000)
Aelodau Annibynnol/Cyfarwyddwyr Anweithredol										
Donna Mead, Cadeirydd	40-45	0	0	0	40-45	40-45	0	0	0	40-45
Martin Veale, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Stephen Harries, Is-gadeirydd	30-35	0	0	0	30-35	30-35	0	0	0	30-35
Gareth Jones, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Hilary Jones, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	5-10	0	0	0	5-10
Andrew Westwell, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	0-5	0	0	0	0-5
Vicky Morris, Aelod Annibynnol	5-10	0	0	0	5-10	0-5	0	0	0	0-5

DATGELIAD CYFLOGAU A PHENSIYNAU

GWERTHOEDD TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafedig a aseswyd gan actiwari o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. Taliad yw'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod, o ganlyniad iddo ef neu hi brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadrannau yr Actwariaid.

Y CYNNYDD GWIRIONEDDOL MEWN GWERTHOEDD TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod

**TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (ARCHWILIEDIG) - PENSIYNAU AELODAU'R BWRDD
AC UWCH REOLWYR AR RADDFA UCHEL IAWN**

Enw a Theitl	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2023 a chyfandaliad cysylltiedig (bandiau o £5,000)	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500)	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Steve Ham Prif Weithredwr ¹	180-185	0-2.5	48	0	27	0
Matthew Bunce Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	145-150	10-12.5	930	832	50	0
Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	155-160	0-2.5	1,103	1,035	15	0
Catherine O'Brien, Prif Swyddog Gweithredu	25-30	0-2.5	461	419	12	0
Lauren Fear Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff	5-10	0-2.5	52	35	4	0
Nicola Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd	185-190	0-2.5	1,102	1,035	19	0

Enw a Theitl	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2023 a chyfandaliad cysylltiedig (bandiau o £5,000)	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500)	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Sarah Morley, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	100-105	0-2.5	694	638	23	0
Carl James, Cyfarwyddwr Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol	55-60	0-2.5	747	706	3	0

Nodiadau:

1. Mae S Ham dros yr Oedran Pensiwn Arferol (NPA) yn y cynllun presennol, felly nid yw cyfrifiad CETV yn berthnasol. Mae'r CETV yn ymwneud â Chynllun 2015 yn unig.

Oherwydd nad yw Aelodau Annibynnol yn cael tâl pensiynadwy, nid oes unrhyw gofnodion o ran pensiynau i Aelodau Annibynnol.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24

ADRODD AM GYNLLUNIAU IAWNDAL ERAILL - PECYNNAU YMADAEL

Yn ystod 2022/2023 cymeradwywyd pecynnau ymadael ar gyfer 4 aelod staff gyda gwerth o £83,029 (2 aelod staff, gwerth £101,773 2021/2022). Talwyd £158,903 o gostau ymadael yn 2022/2023, y flwyddyn ymadael (£25,899 2021/2022). Talwyd y pecynnau hyn yn unol â thelerau ac amodau gwasanaeth cydnabyddedig y GIG/Polisi'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd yr un o'r pecynnau ymadael a adroddwyd yn ymwneud ag uwch swyddogion. Cytunwyd ar 3 thaliad arbennig yn 2022/2023, cyfanswm o £61,462 (2021/2022 dim).

PERTHYNAS RHWNG Y TALIADAU

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r 25ain canradd, y canolrif a'r 75fed canradd o dâl gweithlu'r sefydliad.

£150,000 - £155,000 oedd tâl wedi'i fandio y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mlwyddyn ariannol 2022/2023 (2021/2022, £145,000 - £150,000). Roedd hyn yn: 5.2 gwaith (2021/2022, 5.6) tâl canolrifol y gweithlu, sef £29,383 (2021/2022, £26,365); 6.2 gwaith (2021/2022, 6.7) 25ain canradd tâl y gweithlu, sef £24,069 (2021/2022, £23,525); a 3.5 gwaith (2021/2022, 3.7) 75ain canradd tâl y gweithlu, sef £43,635 (2021/2022, £42,284).

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn nhâl y Prif Weithredwr oedd 3.4% a 9.1% mewn perthynas â gweithwyr yn eu cyfanrwydd.

Yn 2022/2023, derbyniodd 11 (2021/2022, 8) aelod staff dâl a oedd yn uwch na thâl y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Roedd y tâl ar gyfer pob aelod staff yn amrywio o £21,100 i £236,100 (2021/2022 £18,600 i £227,500).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau cyfwerth ag arian parod.

Dylid cyfrifo taliadau goramser wrth gyfrifo'r ddwy elfen o'r berthynas.

GWARIANT AR YMGYNGHORIAETH

Yn ystod 2022/2023 gwariodd yr Ymddiriedolaeth £3.950m o'i chyllid refeniw ar ffioedd ymgynghori allanol (£1.588m yn ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru); a £0.827m o'i chyllid cyfalaf ar ffioedd ymgynghori allanol, gan gynnwys £0.773m yn ymwneud â'r prosiect ysbyty newydd (a £0.048m yn ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru).

Dyma rai enghreifftiau:

- Ffioedd cyfrifyddu
- Ffioedd cyfreithiol
- Ffioedd dylunio
- Ffioedd rheoli prosiectau a chostau cefnogi
- Ymgynghoriaeth a chyngor TG
- Ffioedd yn ymwneud â rheoli'r adeilad, gan gynnwys costau tirlfesurwyr a thrydanol

SICRWYDD TRETH AR GYFER YMRWYMIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

Yn dilyn Adolygiad o'r Trefniadau Treth ar gyfer Penodiadau'r Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i adrannau gyhoeddi gwybodaeth am eu hymrwymadau sydd â thâl uchel a/neu ymrwymadau uwch nad ydynt ar y gyflogres. Mae'r wybodaeth, sydd wedi'i chynnwys yn y tri thabl isod, yn cynnwys yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth graidd a'r sefydliadau a letyir ganddi.

Tabl 1: Ymrwymadau gweithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy:

Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2023	12
O ba rai y mae'r nifer sydd wedi bodoli	
llai nag 1 flwyddyn	8
am rhwng 1 a 2 flynedd	2
am rhwng 2 a 3 blynedd	1
am rhwng 3 a 4 blynedd	0
am 4 blynedd neu fwy	1

O fewn cyfanswm nifer y penodiadau nad oeddent ar y gyflogres, nid oedd unrhyw rai o'r penodiadau yn ymwneud â staff oedd ar secondiad o Sefydliadau eraill GIG Cymru.

Mae'r holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad yn seiliedig ar risg ar ryw adeg, i weld p'un ai fod angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth, a lle bo angen, y gofynnwyd am y sicrwydd hwnnw.

Tabl 2: Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy:

Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023	11
O'r rhain:	
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	0
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu o	5
Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un y tu allan i gwmpas IR35	6
Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	5
O'r rhain, nifer yr ymrwymadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	0

O fewn cyfanswm nifer yr ymrwymadau newydd nad oeddent ar y gyflogres, nid oedd unrhyw rai o'r ymrwymadau yn ymwneud â staff oedd ar secondiad o Sefydliadau eraill GIG Cymru.

Tabl 3: Ar gyfer unrhyw ymrwymadau nad oeddynt ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, a/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Nifer y penodiadau nad oeddent ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Nifer yr unigolion oedd wedi cael eu hystyried yn "aelodau'r bwrdd, ac/neu'n uwch swyddogion, gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys penodiadau ar, ac oddi ar y gyflogres.	0

ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ADRODDIAD ARCHWILIO

Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm i dalu ei chostau. Caiff manylion pellach am incwm a dderbynnir eu cyhoeddi yng nghyfrifon blynyddol yr Ymddiriedolaeth, o fewn nodyn 4 o dan y pennawd 'refeniw gweithredu arall'.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau ei bod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EF yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ac i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Roedd gwariant eleni yn rheolaidd ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn trosglwyddo'r gost lawn o ddarparu'r gwasanaethau hynny ac maent yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn lletya Cronfa Risg Cymru (WRP) fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSPP) ac felly, mae ei chyfrifon yn cynnwys amcangyfrifon o rwymedigaethau digwyddiadol pell gan Sefydliadau Iechyd Cymru ar gyfer hawliadau ymglyfreitha posibl a allai godi yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau hysbys. Yn 2022/2023, mae datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn nodi cyfanswm rhwymedigaethau digwyddiadol pell o £102m.

TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'i grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'i grŵp ar 31 Mawrth 2023, ac o'i gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf fi a'm staff yn annibynnol o'r ymddiriedolaeth ac yn gweithredu'n unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol y Cyngor Adrodd ar Faterion Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdoddir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelwyd y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am hyn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os, yn fy marn i:

nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- na wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, archwilwyr mewnol yr endid oedd yn cael ei harchwilio a'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre; a
- Chael dealltwriaeth o berthnasoedd rhwng partïon cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac

- wrth ymdrin â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Gorffennaf 2023

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Adroddiad Ariannol

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

2022-2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Velindre University NHS Trust

Foreword

These accounts for the period ended 31 March 2023 have been prepared to comply with International Financial Reporting Standards (IFRS) adopted by the European Union, in accordance with HM Treasury's FReM by Velindre University NHS Trust under schedule 9 section 178 Para 3 (1) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42) in the form in which the Welsh Ministers, with the approval of the Treasury, directed.

These are Group accounts showing the accounts of the Trust including those organisations hosted by it (see 'Statutory background' below), and are consolidated with the Trust's Charitable Fund of which the Trust is the Corporate Trustee.

Statutory background

The Trust was established by Statutory Instrument on 1 December 1993 with an operational date of 1 April 1994. At that time the Trust was a single specialty Trust providing only Cancer Services. Over the last 29 years, the Trust has significantly evolved and expanded. The main function of the Trust is to provide all-Wales and regional clinical health services to the NHS and the people of Wales. The Trust consists of two clinical divisions: the Welsh Blood Service and Velindre Cancer Service.

In addition to the above services, the Trust is host to two organisations. At period ended 31 March 2023, these were:

- NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) which was set up on 1 April 2011; following which the functions of a number of separate services were transferred into NWSSP. NWSSP became a hosted body within Velindre NHS Trust on 1 June 2012. During 2022-2023 one existing service, the Single Lead Employer Scheme, completed a phased rollout to all core and specialty medical trainees in NHS Wales.
- Health Technology Wales (HTW) which was established on 1 April 2016 and continued to receive grant funding from Welsh Government under the Efficiency through Technology Programme.

Performance Management and Financial Results

Under the National Health Service (Wales) Act 2006 the financial obligations of the NHS Trust are contained within Schedules 4 2(1) and 4 2(2). These duties were amended for Local Health Boards by the National Health Services Finance (Wales) Act 2014 and a Ministerial direction placed the same statutory duties on NHS Trusts through the Welsh Health Circular WHC/2016/054, which sets out the duty to break even over a three year period.

The NHS Finance (Wales) Act 2014 came into effect from 1 April 2014 and the first assessment of the 3 year rolling financial duty took place at the end of 2016-2017.

The second duty arises as a result of the Welsh Ministers' powers to set financial objectives for the Trust under paragraph 2(2) of Schedule 4 of the National Health Service (Wales) 2006 Act. The planning requirement, which by virtue of being set as a financial objective becomes a statutory financial duty, was previously set by the Welsh Ministers and has been retained by WHC/2016/054.

STATEMENT OF COMPREHENSIVE INCOME FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2023

	Note	2022-23 £000 NHS Trust	2021-22 £000	2022-23 £000 Consolidated	2021-22 £000
Revenue from patient care activities	3	540,496	736,708	540,496	736,708
Other operating revenue	4	417,245	307,091	420,683	307,366
Operating expenses	5.1	(967,845)	(1,042,935)	(968,677)	(1,042,786)
Operating (deficit)/surplus		(10,104)	864	(7,498)	1,288
Investment revenue	6	1,257	23	1,401	137
Other gains and losses	7	3	3	3	3
Finance costs	8	8,920	(1,093)	8,920	(1,093)
Consolidated Total				2,826	335
Retained surplus/(deficit)	2.1.1	76	(203)		
(including donated assets received or issued)					
